

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

28 Mawrth 2023

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 3 - 6)**
- 5. Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd
ER GWYBODAETH (Tudalennau 7 - 10)
a) Lleihau terfyn cyflymder i 40mya yn Tynreithyn, Tregaron**
- 6. Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
- 7. Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
- 8. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 11 - 130)**

9. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch fersiynau diwygiedig y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol, y Ffurflen Datgan Buddiant, a'r Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 131 - 172)
10. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 173 - 188)
11. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal - Ffioedd y Sector Annibynnol a'r Awdurdod Lleol
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 189 - 194)
12. Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion
ER GWYBODAETH (Tudalennau 195 - 250)
13. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidd

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 7 Mawrth 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 9 Mawrth 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 16 Mawrth 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 17 Mawrth 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Maldwyn Lewis a Gareth Lloyd.

(10.06am- 11.28am)

165 Ymddiheuriadau

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

166 Materion Personol

- i. Estynnwyd cydymdeimlad â theulu Emlyn Watkin, cyn-Gyfarwyddwr Cyllid Cyngor Sir Ceredigion, a fu farw'n ddiweddar.
- ii. Hefyd, estynnwyd cydymdeimlad â theulu Ben Davies, Cynghorydd Cymuned yn Llanbadarn a chyn-Gynghorydd Sir, a fu farw'n ddiweddar.

167 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datganodd y Cynghorydd Catrin M S. Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 175 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

168 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Parthed eitem 150, nodwyd bod y penderfyniad i dynnu ymaith y ffi fynedfa arfaethedig o dan Ffioedd a Thaliadau Gwasanaeth yr Amgueddfa (Atodiad 3) yn un a wnaed ar lefel y swyddogion – nid oedd angen gwneud penderfyniad gwleidyddol.

169 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

170 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

Tudalen 4

171 **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
Dim.

172 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

PENDERFYNIAD:

Mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn cefnogi busnesau lleol gan ddefnyddio'r cyllid grant sydd ar gael.

173 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23 - Perfformiad Ariannol**
Nodwyd yr adroddiad.

174 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 3**
Nodwyd yr adroddiad.

175 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol**

PENDERFYNIAD:

1. Cytuno i'r Awdurdod Lleol gymryd rhan yn y Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol ac:
2. I ymrwmo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Rhondda Cynon Taf (yr Awdurdod Arweiniol) ar gyfer gweithredu'r Cynllun.
3. I ddarparu'r £165,000 gofynnol o arian cyfatebol (10%) o Raglen Gyfalaf y Cyngor.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn cydymffurfio â'r broses ddemocrataidd.

176 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Grant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

PENDERFYNIAD:

Cytuno bod Grant Llywodraeth Cymru o £51,786.00 yn cael ei dderbyn a bod y Cyngor yn gweithredu mewn rôl gyfryngol fel banciwr.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Cydymffurfio â gofynion llywodraethu democrataidd.

177 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner Diwygiedig ar gyfer 2022/23 a 2023/24

PENDERFYNIAD:

I ddiwygio Cofnod 155 Cabinet 14/2/23 i adlewyrchu'r newidiadau a argymhellir yng Nghylchlythyr 67 y JNC fel a ganlyn:

1) 2022/2023 (1/4/22-31/3/23):

Uwch Grwner rhan-amser:

- i) Cyflog Cadw o £21,449 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.
- ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £472.25 i dalu cyflog blynyddol o £11,806 i'r Crwner (@ 25 niwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant).

Cyfanswm blynyddol o £33,255 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

Crwner Cynorthwyol:

- diwrnod llawn: £403;
- hanner diwrnod: £202.

2) 2023/24 (1/4/23-31/3/24):

Uwch Grwner rhan-amser:

- i) Cyflog Cadw o £21,449 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.
- ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £472.25 i dalu cyflog blynyddol o £11,806 i'r Crwner (@ 25 niwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant) o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

Cyfanswm blynyddol o £33,255 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

Crwner Cynorthwyol:

- diwrnod llawn: £403;
- hanner diwrnod: £202.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyr y JNC; lleihau heriau a diogelu'r pwrs cyhoeddus.

178 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Ffioedd Trefnwyr Angladdau Gwasanaeth y Crwner

PENDERFYNIAD:

1) Nodwyd y dewisiadau a nodir yn Atodiad 1.

2) Cymeradwyo mabwysiadu Dull 1 o Weithredu i bennu'r cyfraddau sefydlog ar gyfer talu ffioedd trefnydd angladdau Crwner ar gyfer 2023-2026 (01/04/2023 - 31/03/2026) fel yr amlinellir yn Atodiad 2.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, lliniaru her a diogelu arian cyhoeddus.

Tudalen 6

179 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau'r enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol.

180 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Hanner Blwyddyn ar Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a gweithgarwch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2022/2023)

Nodwyd yr adroddiad.

181 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd
ar 4 Ebrill 2023**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r:** Cabinet**Dyddiad y Cyfarfod:** 4 Ebrill 2023**Teitl:** Deisebau a ddaeth i law**Pwrpas yr adroddiad:** Hysbysu'r Cabinet am unrhyw ddeisebau a ddaeth i law

Er gwybodaeth

Portffolio Cabinet ac Amherthnasol Aelod Cabinet:

Mae'r Cyngor wedi derbyn y ddeiseb canlynol:

Teitl y ddeiseb	Nifer y llofnodwyr	Aelod Cabinet	Aelod Lleol (os ydyw'n berthnasol)
Lleihau terfyn cyflymder i 40mya yn Tynreithyn, Tregaron	20	Cyng Keith Henson	Cyng Ifan Davies

Bydd y gwasanaeth perthnasol yn awr yn ystyried cynnwys y ddeiseb.

Oes Asesiad Effaith Amherthnasol –
Integredig wedi ei gwblhau? pwrpas yr adroddiad
Os na, esboniwch pam hwn yw adrodd
 ynghylch unrhyw
 ddeisebau sydd wedi
 dod i law

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb:
Hirdymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad: Dylai'r Cabinet nodi'r ddeiseb canlynol a ddaeth i law - Lleihau terfyn cyflymder i 40mya yn Tynreithyn, Tregaron**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** Er mwyn hysbysu'r Cabinet am y ddeiseb / deisebau a ddaeth i law a gofyn i'r gwasanaeth / gwasanaethau perthnasol eu hystyried ymhellach.**Trosolwg a Chraffu:** Amherthnasol

Tudalen 8

Fframwaith Polisi:	Y Cyfansoddiad a'r Protocol Deisebau
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Amherthnasol
Goblygiadau Ariannol a Chaffael:	Amherthnasol
Pwerau Statudol:	Amherthnasol
Papurau Cefndir:	Amherthnasol
Atodiadau:	Atodiad A - Llythyr yn cyd-fynd â'r ddeiseb
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd
Swyddog Adrodd:	Lowri Edwards
Dyddiad:	23 Mawrth 2023

CEREDIGION COUNTY COUNCIL
RECEIVED

15 MAR 2023

CANOLFAN RHEIDOL

14th March 2023**Reduction in speed limit to 40mph in Tyreithyn, Tregaron**

Dear Ceredigion Council Highways Dept

Cc: Tregaron Town Council, Ceredigion Police Force

I am the owner of the above property, and I am writing to ask you if you would kindly reduce the speed limit before my property and through Tynreithyn to 40mph; its currently 60mph. This was introduced while the Eisteddfod was on in Tregaron and it made it much safer for us all.

I moved into the property above, in July 2022, and cannot count how many times that I have had near misses coming out of my drive due to the speed people travel on the road outside. The residents on the lane, next left from my property, have also explained that it scary coming out of the lane and that their view is very often obstructed by people parking close to the junction. Outside of my property there is 'slow' marked on the road because there are many concealed entrances and lanes coming off the hamlet of Tynreithyn however, this seems to be totally ignored by motorists. The road through Tynreithyn itself is bending and there are many blind spots. We have a large number of HGV vehicles on the road as it is the main route to Aberystwyth.

I have heard a few scary stories of neighbours having to jump onto the grass from vehicles getting too close to them while they are trying to maintain their property boundaries and the grass verges outside of their homes, there have been two serious accidents here in the last two years and numerous other ones over time. There are very large farm vehicles using the road and lane and when they do they take up the whole road. All of this is putting people at unnecessary risk, by reducing the speed limit will help.

Because of this, you will see that my neighbours have completed the petition below in support for the reduced speed limit. Only two sets of neighbours were not available when I went around with the petition. However, they do 100% support this action.

There are many places, not too far from us that have a 30/40mph and they are on straight roads.

If you want to meet with me and others within the community then this can be arranged. Thank you.

Yours faithfully



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	Ebrill 4^{ydd} 2023
Teitl:	Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028
Pwrpas yr adroddiad:	Cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028
Er:	Penderfyniad
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Democratiaid, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredin sy'n rhwymol yn gyfreithiol o saith nod Llesiant a phum ffordd o weithio sydd wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd Llesiant i gyrff cyhoeddus penodedig i weithredu ar y cyd a sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau Llesiant a chynhyrchu cynllun Llesiant Lleol bob 5 mlynedd.

Cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028

Aeth Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 drafft allan ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus rhwng Hydref 25^{ain} 2022 ac Ionawr 31^{ain} 2023.

Daeth cyfanswm o 41 o ymatebion i'r arolwg i law, gan gynnwys 7 ymateb ysgrifenedig ac ymgysylltwyd â 13 o ysgolion cynradd, 3 ysgol uwchradd a'r Cyngor Ieuenctid. Yn gyffredinol, roedd 88% o'r ymatebwyr yn yr arolwg yn cytuno ag amcanion llesiant fel y blaenoriaethau cywir fel y'u cyflwynwyd yn y Cynllun Llesiant Lleol drafft 2023-2028.

Lle bo'n briodol, mae sylwadau wedi bod yn sail i ddiwygiadau arfaethedig i'r Cynllun. Yn ogystal ag amrywiaeth o awgrymiadau a sylwadau yn y llythyrau a gafwyd, mae arweiniad gwerthfawr wedi'i roi gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain i gyd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Llesiant Lleol cyn belled ag y bo modd a bydd elfennau ychwanegol yn dylanwadu ar ddatblygiad y cynllun cyflawni.

Tudalen 12

Mae'r holl sylwadau a gafwyd trwy'r arolwg a thestunau'r llythyrau yn cael eu hadrodd yn llawn yn y Crynodeb o'r Ymgynghoriad ac Adroddiad Dadansoddiad y Cynllun Llesiant Lleol, **Atodiad 1**, ynghyd â dadansoddiad pellach.

Y casgliadau cyffredinol yn y crynodeb ac adroddiad y dadansoddiad yw bod y Cynllun wedi cael croeso da ar y cyfan a bod llawer o sylwadau defnyddiol wedi'u rhoi a fydd yn gwella datblygiad y cynllun cyflawni manwl.

Yn dilyn ymgynghoriad, gwnaed diwygiadau i'r cynllun gan ymgorffori'r pwyntiau allweddol a nodwyd a chyflwynwyd hyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar Fawrth 6^{ed} 2023. Roedd holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gefnogol i'r diwygiadau a wnaed, gan arwain at gytuno ar Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion terfynol, **gweler Atodiad 2**.

Bellach mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymeradwyo'r Cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi cymeradwyaeth derfynol i gyhoeddi'r Cynllun ym mis Mai 2023.

I gwblhau'r broses ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, cyflwynwyd y Cynllun yn gyntaf i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar Fawrth 22^{ain} 2023, yn y cyfarfod Cabinet hwn a bydd yn mynd gerbron y Cyngor llawn ar Ebrill 20^{fed} 2023.

Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ac mae wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3** i'r adroddiad hwn.

A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam Oes (Atodiad 3)

Crynodeb:

Hirdymor: Mae cynllunio hirdymor wedi ei wreiddio trwy gydol datblygiad y cynllun. Mae'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun wedi'u datblygu i ymateb yn uniongyrchol i'r problemau hirdymor a nodwyd yn Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol.

Cydweithio: Mae holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cydweithio drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun a bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun yn cael ei wneud ar y cyd gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

Cynnwys: Mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn rhan o bob cam o ddatblygiad y cynllun. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi hyrwyddo cyfranogi, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu. Mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau gyda grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Atal: Rhoddodd Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol gyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus nodi

Tudalen 13

achosion sylfaenol y problemau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r nodau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar bobl yn gweithredu drostynt eu hunain ac yn rhoi ffocws cryf ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r camau gweithredu yn ceisio lleihau lefel yr ymyrraeth ym mywydau pobl dros amser lle bynnag y bo modd, gyda'r hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau sy'n newid.

Integreiddio: Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ystyried sut mae'r nodau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn effeithio ar gyrff cyhoeddus yn y sir.

Mae'r nodau a'r camau gweithredu wedi'u datblygu gyda dealltwriaeth o gydgyfrifoldeb am ganlyniadau ar draws gwasanaethau a sefydliadau.

Mae egwyddorion y cynllun yn seiliedig ar sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydweithio ar draws y sir i ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud.

Argymhelliad: I'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.

Rhesymau dros y penderfyniad: Fel Aelod Statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion mae angen i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion cyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi cytundeb terfynol i gyhoeddi'r Cynllun.

Trosolwg a Chraffu: Mae pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion wedi'i ddynodi i gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus trwy graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan y Bwrdd. Rhoddir adroddiad am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r pwyllgor hwn yn dilyn pob cyfarfod o'r Bwrdd.

Fframwaith Polisi: Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028

Blaenoriaethau Corfforaethol: Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth

Creu cymunedau gofalgwr ac iach

Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu ym mhob oed

Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd sydd â chysylltiadau da

Tudalen 14

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	O fewn y gyllideb bresennol
Goblygiadau Cyfreithiol:	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Ddim yn berthnasol
Pwerau Statudol:	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Papurau Cefndir:	Gweler isod
Atodiadau:	Atodiad 1 - Crynodeb o'r Ymgynghoriad ac Adroddiad Dadansoddiad y Cynllun Llesiant Lleol Atodiad 2 - Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 Atodiad 3 - Aseiad Effaith Integredig
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Swyddog Adrodd:	Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl
Dyddiad:	Mawrth 14 ^{eg} 2023

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus



Ceredigion

Public Services Board

Ymgynghoriad Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 Adroddiad Adborth



Chwefror 2023



41

Ymatebion a dderbyniwyd
(gan gynnwys 7 ymateb
ysgrifenedig)



(Roedd 13 Ysgol Gynradd, 3 Ysgol
Uwchradd a'r Cyngor Ieuenctid wedi
cymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu)



88%

Yn cytuno mai'r 5 amcan
llesiant yw'r blaenoriaethau cywir
(12% yn anghytuno)

85%

Yn cytuno gyda'r cynlluniau i
fynd i'r afael ag effeithiau tlogdi
(15% yn anghytuno)



91%

Yn cytuno â'r cynlluniau i
helpu i adeiladu economi
gynaliadwy
(6% yn anghytuno, 3% heb ateb)

85%

Yn cytuno â'r cynlluniau i helpu
i leihau'r anghydraddoldebau
sy'n ymwneud ag iechyd
corfforol a meddyliol
(15% yn anghytuno)



91%

Yn cytuno â'r cynlluniau i helpu
i leihau ôl troed carbon
Ceredigion
(9% yn anghytuno)

91%

Yn cytuno â'r cynlluniau i'ch
helpu i deimlo'n ddiogel ac
wedi'u cysylltu â diwylliant
(9% yn anghytuno)



"Byddwn yn gweithio gyda'n
gilydd i sicrhau economi
gynaliadwy sydd o fudd i bobl
leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau
Ceredigion."

oedd yr amcan llesiant pwysicaf i
ymatebwyr

Ymgynghoriad wedi'i gynnal rhwng 25 Hydref 2022 a 31 Ionawr 2023

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi'i hysbysebu gan aelodau'r Bwrdd

Derbyniwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r arolwg ymgynghori

Mae'r canlyniadau llawn a'r wybodaeth monitro cydraddoldeb i'w gweld ar y tudalennau canlynol

Cefndir

Rhwng 25 Hydref 2022 a 31 Ionawr 2023, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Gynllun Llesiant Lleol drafft 2023-28. Mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn ofyniad statudol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n nodi'r amcanion y bydd y Bwrdd yn eu cymryd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal.

Nod yr ymgynghoriad oedd cofnodi barn trigolion a rhanddeiliaid ar awgrymiadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch sut y gall weithio i wneud y gwahaniaeth mwyaf i lesiant unigolion, cymunedau a Cheredigion yn gyffredinol. Bydd y safbwyntiau hyn yn helpu'r Bwrdd i ddeall yn well sut i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal: o dyfu busnesau newydd i ddiogelu'r amgylchedd, ac o drechu tlodi ac unigrwydd i adeiladu ymdeimlad o gymuned a balchder ar draws y sir. Bydd yn gosod y sylfeini ar gyfer sut y gallwn gydweithio yn y dyfodol, gan oresgyn yr heriau ar y cyd a manteisio ar y cyfleoedd sydd bwysicaf i bob un ohonom.

Ffurfiwyd rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (ochr yn ochr â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar draws Cymru) trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd hefyd yn nodi'r '7 nod llesiant' sef ein gweledigaeth gyfunol ar gyfer Cymru gyfan. Er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant pawb, mae Cynlluniau Llesiant yn cael eu cynhyrchu bob 5 mlynedd, wedi'u llywio gan Asesiad Llesiant.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, trwy Fforwm Dweud Eich Dweud Ceredigion a chafodd ei hysbysebu gan holl aelodau'r Bwrdd. Roedd copïau papur ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Ceredigion. Roedd fersiynau Hawdd eu Deall a Phobl Ifanc o'r Cynllun drafft hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd ac ar dudalen we Ymgynghoriadau Cyngor Sir Ceredigion.

Cyfradd Ymateb

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r arolwg ymgynghori gan gynnwys 242 o sylwadau ysgrifenedig. Ar gyfartaledd cymerodd ymatebwyr 37 munud i gwblhau'r arolwg. Cafwyd 5 ymateb ysgrifenedig ar wahân hefyd gan bartneriaid allweddol, postwyd 15 ymateb ar y wal syniadau a chafwyd sesiynau penodol gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd ynghyd â'r Cyngor leuenctid i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r casgliadau.

Prif Gasgliadau

C1: Oeddech chi'n ymwybodol o'r BGC a'i rôl yng Ngheredigion cyn yr ymgynghoriad hwn?

Mewn ymateb i'r cwestiwn agoriadol, dim ond 41.2% neu 14 o ymatebwyr oedd yn ymwybodol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion cyn yr ymgynghoriad hwn, er ei fod yn bodoli ers 2016. Daeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fodolaeth yn dilyn pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dywedodd union hanner (50% neu 17) o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r Bwrdd, sy'n awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r Bwrdd, y Cynllun Llesiant Lleol a'i weithgareddau wrth gyflawni'r cynllun.


Tudalen 18

Roedd dau ymateb arall a ddywedodd eu bod dim ond yn rhannol ymwybodol o'r BGC a'i rôl cyn yr ymgynghoriad.

C2: Rhowch bedair llythyren gyntaf eich cod post i ni er mwyn ein helpu i dargedu ein gwaith

O'r 34 o ymatebion a dderbyniwyd, dywedodd y gyfran fwyaf (44.1%) eu bod yn dod o ardal cod post gyffredin SY23 yng ngogledd a chanol y Sir, sy'n cynnwys Aberystwyth. Roedd 20.6% pellach o ymatebwyr o god post SA43 yng ngwaelod de'r Sir, ac 8.8% yn SY25 i'r dwyrain yn pontio'r ffin â Phowys. Mae dosbarthiad llawn yr ymatebion yn ôl ardal cod post i'w weld yn Ffigur 1. (Ni chafwyd unrhyw ymatebion o chwe rhanbarth cod post, sef SY24, SA47, SA46, SA44, SA39 a SA38).

Ffigur 1: Dosbarthiad ymatebion ar draws Ceredigion




C3: Ydych chi'n cytuno mai'r 5 amcan llesiant yw'r blaenoriaethau cywir i ganolbwyntio arnynt i wella llesiant yn eich ardal leol?

Roedd cwestiwn 3 yn ceisio canfod lefelau cyffredinol o gefnogaeth ar gyfer y 5 amcan llesiant arfaethedig yn y Cynllun Llesiant Lleol drafft. Dywedodd y mwyafrif llethol (88%) "ydw", eu bod yn cytuno mai'r 5 amcan yw'r blaenoriaethau cywir i'w canolbwyntio arnynt er mwyn gwella llesiant. Roedd y 12% arall yn anghytuno ac nid oeddent yn meddwl mai dyma'r amcanion cywir.

C3. Ydych chi'n cytuno mai'r 5 amcan llesiant yw'r blaenoriaethau cywir i ganolbwyntio arnynt i wella llesiant yn eich ardal leol?

▼ Canran



C4: Unrhyw sylwadau

Er bod yr ymatebion ysgrifenedig yn amrywiol, sylwadau yn ymwneud â'r amgylchedd a materion amgylcheddol oedd fwyaf cyffredin. Roedd dau o'r ymatebion ysgrifenedig wedi nodi nad yw Amcan 3: Byddwn yn cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol, yn sôn am yr argyfwng bioamrywiaeth. Nododd un ymatebwr fod angen i'r amcan hwn edrych ar "y darlun ehangach o golli bioamrywiaeth", a dywedodd yr ail ymatebwr y dylai'r amcan hwn "gyfeirio at yr argyfwng bioamrywiaeth hefyd."

Roedd gweddill y sylwadau ysgrifenedig ar gyfer y cwestiwn hwn yn weddol gymysg. Dywedodd un o'r sylwadau fod angen i Awdurdodau Lleol "gael y pethau sylfaenol yn iawn" cyn "ehangu ar eu cynnig". Nododd sylw ysgrifenedig arall pa mor bwysig yw cael mynediad at fyd natur a chysylltu pobl yn well â'r system fwyd, gan nodi hefyd fod gwneud bwyd lleol yn fwy hygyrch ac yn rhatach yr un mor bwysig. Yn yr un modd, awgrymodd un ymatebwr er ei fod yn cytuno â'r amcanion, "dydyn nhw ddim yn mynd yn ddigon pell" a bod angen ailwampio arferion amaethyddol yn llwyr oherwydd bod diogelwch bwyd yn dibynnu ar hyn. Mae pwyslais bod "angen iddo fod yn lleol ac yn gynaliadwy".

Roedd ymateb pellach yn pwysleisio'r cyfleoedd i bobl ag anableddau, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, pwll nofio a mynediad gwell at ganolfannau hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus a/neu fannau parcio i'r anabl. Mae sylw arall yn awgrymu y dylai'r amcanion ganolbwyntio rhywfaint ar sut y byddai'r cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn cael ei rheoli. Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

Sampl o'r Sylwadau

"Mae mynediad at fyd natur yn bwysig iawn a hefyd cysylltu pobl yn well â'r system fwyd a gwneud bwyd lleol yn llawer mwy cyffredin ac yn hollbwysig yn rhatach."	"Rwy'n meddwl bod gormod o ffocws ar ddatblygiad diwylliannol a dim digon ar isadeiledd."
"Gyda chynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio, byddwn yn disgwyl gweld rhywfaint o ffocws ar sut y byddai hyn yn cael ei reoli."	"Mae Amcan 4 yn arbennig o wael, gan ganolbwyntio ar "fentrau" annelwig leihau carbon, yn hytrach nag ystyried y darlun ehangach o golli bioamrywiaeth."

Tudalen 20


"Mae'n iawn i gael yr amcanion hyn ond mae angen eu cyflawni fel arall mae'r cyfan yn aer poeth yn enwedig llygredd gyda Poppit ac Aberystwyth y gwaethaf ar gyfer all-lifau carthffosiaeth yng Nghymru sy'n wirioneddol warthus yn enwedig gyda'n poblogaeth o ddolffiniaid a llamidyddion sy'n denu twristiaeth i'r ardal."	"Dylai'r amcan ar gyfer datgarboneiddio hefyd gyfeirio at yr argyfwng bioamrywiaeth."
"Ydw ond dydyn nhw ddim yn mynd yn ddigon pell. Mae angen ailwampio ein harferion amaethyddol yn llwyr er mwyn gwella iechyd, mae sicrwydd bwyd yn dibynnu ar hyn hefyd. Mae angen iddo fod yn lleol ac yn gynaliadwy."	"Mwy o ddsbarthiadau ymarfer corff cynhwysol i bobl ag anableddau, mynediad i'r pwll lleol i bobl anabl, bysiau a fydd yn stopio yn y ganolfan hamdden, manau parcio i bobl anabl yng nghanolfan hamdden Teifi."

C5: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i fynd i'r afael ag effeithiau tldi yn eich ardal leol?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, 85% neu 29 o ymatebion, yn cytuno â'r cynlluniau i fynd i'r afael ag effeithiau tldi yn eu hardal leol. Dywedodd y 15% neu 5 o ymatebwyr sy'n weddill nad oeddent yn cytuno â'r cynlluniau. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r atebion hyn yn y cwestiwn canlynol.

C5. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i fynd i'r afael ag effeithiau tldi yn eich ardal leol?

▼ Canran



C6: Unrhyw sylwadau?

Manteisiodd pedwar o'r pum ymatebwr nad oedd yn cytuno â'r cynlluniau i fynd i'r afael â thldi yn eu hardal leol ar y cyfle i egluro eu rhesymau yng nghwestiwn 6, er nad oedd unrhyw thema i'r sylwadau. Er enghraifft, roedd un sylw yn canolbwyntio ar yr economi leol gan nodi bod angen "swyddi sy'n talu'n well yn y Sir", tra bod un arall yn feirniadol oherwydd prisiau rhentu uchel yn y Sir, gan nodi eu bod yn "warthus". Dywedodd ymatebwr arall nad oedd yn glir beth fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud mewn gwirionedd o ran yr amcan hwn a dylid gwneud hyn yn gliriach.

Roedd un ymateb manwl hefyd yn rhoi awgrymiadau ar gyfer y targedau y dylid eu mesur a'u hasesu o dan yr amcan hwn. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys darparu cyflogaeth fwy hyblyg, gwella a buddsoddi mewn seilwaith digidol, canolbwyntio ar gadw llyfrgelloedd a gwasanaethau cyhoeddus ar

Tudalen 21

agor er mwyn i bobl allu dysgu, ac ymrwymo i gynnig hyfforddiant sgiliau digidol i'r henoed. Mae crynodeb o'r ymatebion hyn i'w weld yn y tabl isod.

Sampl o'r Sylwadau

"Mae hwn yn blaster glynu. Mae angen swyddi sy'n talu'n well yn y Sir ar gyfer pobl dlawd mewn gwaith, nid is-grwpiau ac ymgynghoriadau."	Dyw galw'r rhain yn "gynlluniau" ddim yn iawn. Does dim unrhyw amcanion na thargedau pendant yn y ddogfen hon y tu hwnt i ffurfio partneriaeth gyda grwpiau. Hefyd, nid yw'r cwestiwn uchod yn cysylltu'n union gydag geiriad yr amcan yn y ddogfen, felly rwy'n cymryd yn ganiataol eich bod yn cyfeirio at amcan 1. Dyma fy awgrymiadau ar gyfer rhai targedau y gellir eu mesur a'u hasesu: a) Darparu cyflogaeth fwy hyblyg o fewn y Cyngor i weithredu fel cyflogwr blaenllaw o ran gweithio hyblyg. b) Gwella a buddsoddi mewn seilwaith digidol i wella gallu pobl i weithio'n hyblyg yng Ngheredigion. Bydd hyn yn lleihau unigedd mewn cymunedau a gallai wella cyfleoedd, yn enwedig i bobl iau yn y sir. c) Yn hytrach na "nodi bylchau sgiliau" dylid canolbwyntio ar gadw ein llyfrgelloedd a'n gwasanaethau cyhoeddus ar agor fel bod unigolion sydd heb eu hadnabod yn gallu cael mynediad at ddysgu, nid dim ond y bobl rydych chi'n eu "adnabod". d) Ymrwymo i gynnig hyfforddiant sgiliau digidol i bobl oedrannus sy'n aros yn y sir, fel nad ydynt yn cael eu hynysu oddi wrth weddill cymdeithas wrth iddynt heneiddio."
"Mae ffyrdd yn arwain at ddatblygu sy'n lleihau tlodi. Mae prisiau rhent yn warthus yn y sir hon."	
"Nid yw'n glir beth fydd y BGC yn ei wneud mewn gwirionedd, oni bai bod hyn wedi'i gynnwys yn yr amcan economi gynaliadwy."	

Ymhlith yr ymatebwyr oedd yn cytuno â'r cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi, nid oedd unrhyw themâu a gododd dro ar ôl tro ymhlith eu hatebion ysgrifenedig, yn hytrach cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau gwahanol. Canolbwyntiodd un ymatebwr ar yr amgylchedd a'r effaith y byddai teithio gwyrddach yn ei chael. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai addasu i ffordd o fyw wyrddach gyda llai o geir a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny, ynghyd â gwella trafndiaeth gyhoeddus ac annog pobl i rannu ceir, yn "cael effaith arwyddocaol ar dlodi".

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys darparu gofal plant ychwanegol i bobl a hoffai ddychwelyd i'r gwaith, hyrwyddo manau cynnes oherwydd yr argyfwng costau byw, a gellid gwneud mwy i hyrwyddo llyfrgelloedd sy'n cynnig Wi-Fi, ardaloedd astudio a manau cynnes. Codwyd rhai pryderon penodol hefyd, megis teuluoedd sy'n byw y tu allan i ddalgylchoedd Dechrau'n Deg yn methu â chael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg ac yn debygol o brofi tlodi cynyddol wrth i gostau byw barhau i gynyddu. Cafwyd sylwadau cyffredinol hefyd bod angen dweud mwy am bobl hyn yn y gymuned a sut mae tlodi yn effeithio arnynt. Ceir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl canlynol.

Tudalen 22


Sampl o'r Sylwadau	
<p>"Yn fy mhrofiad i, byddai menter i gael pobl allan o'u ceir ac addasu i ffordd fwy gwyrdd o fyw yn cael effaith arwyddocaol ar dlodi. Rwy'n gwybod am lawer o bobl sy'n gweithio amser llawen (neu fwy!) ac sy'n dal i fod mewn tlodi oherwydd bod y gost o redeg car mor uchel (ynghyd â'r argyfwng costau byw). Mae angen i ni addasu ein ffordd o fyw nawr ar gyfer y dyfodol a chael cymhellion ariannol neu fathau eraill o gymorth (gofal plant, credydau treth gwaith ac ati) i annog pobl i gael gwared ar eu ceir. Byddai hynny yn rhoi llawer mwy o incwm gwario i bobl ei ddefnyddio yn ein heconomi leol. Byddai trafnidiaeth gyhoeddus well yn ffactor allweddol o ran pa mor ymarferol yw hyn.</p>	<p>"Buddsoddi mewn mwy o ofal plant am ddim i bobl a hoffai ddychwelyd i'r gwaith ond sy'n gweld bod cost gofal plant yn golygu eu bod yn colli arian trwy weithio."</p>
	<p>"Rydw i wedi gweld llawer o hyrwyddo manau cynnes yn y Cyngor sy'n dda yn enwedig gyda chostau byw yn codi. Efallai y gellid gwneud mwy hefyd i hyrwyddo llyfrgelloedd y sir sy'n cynnig lle cynnes, Wi-Fi am ddim, manau astudio ac ati, ond hefyd cyfoeth o adnoddau rhad ac am ddim eraill."</p>
	<p>"Mae tlodi hefyd yn effeithio ar yr henoed, does dim llawer yn cael ei ddweud amdanyn nhw, costau gwresogi yn arbennig."</p>
<p>"Mae Aber-porth yn ardal ddifreintiedig gydnabyddedig; byddai rhai teuluoedd yn elwa o allu cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg ond heb eu cynnwys yn y dalgyllch. Gyda chostau byw yn cynyddu a llai o arian gwario bydd lefelau uchel o dlodi mewn gwaith yn cynyddu; mae'n bwysig eu bod nhw'n cael mynediad at ofal plant cofrestredig er mwyn iddynt allu elwa o gynlluniau cymorth gofal plant. Mae Cyngor Cymuned Aber-porth yn mynd i ystyried ffyrdd o gefnogi teuluoedd i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol trwy gefnogi grwpiau cymunedol lleol i ddarparu gwasanaethau. Bydd Cyngor Cymuned Aber-porth yn parhau i helpu rheolwyr Neuadd Bentref Aber-porth i gyflawni prosiectau cymunedol er budd trigolion."</p>	<p>"Ond dydyn nhw ddim yn mynd yn ddigon pell, byddai cefnogi busnesau lleol i ddiwallu anghenion lleol, yn enwedig ym myd amaethyddiaeth yn creu economi fwy cylchol. Lle nad oes arian mae'n anodd iawn cyflawni pethau. Nid yw banciau yn benthyca lle mae angen bellach. Gallai'r llywodraeth fenthyca yn debyg i fenthyciadau myfyrwyr i wella cylchrediad arian yn yr economi gylchol, fel bod anghenion yn gallu cael eu diwallu."</p>

C7: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion?

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr i'r arolwg (91% / 34 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion (Amcan Llesiant 1). Nid oedd cyfran fach o ymatebwyr yn cytuno (6%/2 o ymatebwyr), tra bod 3% wedi gadael y cwestiwn heb ei ateb.

C7. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion?

▼ Canran



C8: Unrhyw sylwadau?

Rhoddodd ychydig o dan hanner (41%) yr ymatebwyr sylwadau pellach i gwestiwn 7, a oedd yn gofyn a oeddent yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion. Er bod yr ymatebion ysgrifenedig yn amrywio, gellid grwpio sylwadau o dan dair thema, gan gynnwys:

- Awgrymiadau i newid/amrywio ffocws yr uchelgeisiau o dan Amcan Llesiant 1 (e.e., *symud oddi wrth roi sylw ar sgiliau ac addysg i ganolbwyntio ar gyflog gwell*).
- Awgrymiadau ar sut i gyfrannu at economi gynaliadwy (e.e. *darparu cymorth gwell i fusnesau newydd, cefnogi siopau annibynnol, caffael yn lleol, adeiladu cadwyni cyflenwi byr, a chreu cymhellion i bobl ifanc aros yn yr ardal*).
- Pryderon ynglŷn â materion economaidd o fewn y Sir (e.e. *natur wledig, mynediad at wasanaethau, diffyg tai fforddiadwy ac incwm isel*).

Rhoddir sampl o'r sylwadau yn y tabl isod:

Sampl o'r Sylwadau	
"Mae lefelau sgiliau ac addysg eisoes yn uchel; mae'n ymwneud â'r math cywir o sgiliau a chyflog gwell."	"Mae angen i gymuned gynaliadwy allu cadw ei phobl ifanc ac mae diffyg tai fforddiadwy yn cael effaith negyddol..."
"Mae cyfle mawr yma i ail-hyfforddi pobol ar gyfer economi werdd."	"Angen mwy o bwyslais ar adeiladu cadwyni cyflenwi BYR ac ar ddefnyddio adnoddau lleol i ateb anghenion lleol, a thrwy hynny ychwanegu gwerth."
"Rhowch fwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n dechrau busnes, benthyciadau mwy hael, cyfraddau busnes is a chymorth gyda rhentu siopau. Peidiwch â gadael i fwy o siopau cadwyn ddod i Geredigion, yn hytrach cefnogwch siopau annibynnol sy'n cadw arian i gylchredeg yn lleol."	"Mae canfyddiad bod byw yng Ngheredigion / cefn gwlad yn rhatach na byw yn y ddinas. Ond, o brofiad, dyw hynny ddim yn wir. Mae hyn i'w weld a'i deimlo gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a hygyrchedd yn arbennig – mae'n rhaid i chi deithio mewn car i bobman oherwydd does dim bysiau rheolaidd..."

Tudalen 24

Ymhellach, gofynnwyd am adborth ysgrifenedig yn ymwneud â chwestiwn saith (ar Amcan Llesiant 1) gan bartneriaid BGC (aelodau statudol a sefydliadau cyfranogol a wahoddwyd) ac o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid (fel ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion). Mae adborth wedi cael ei grwpio o dan dair thema allweddol, sy'n cynnwys:

- Ystyriaethau pellach o uchelgeisiau presennol
- Mwy o fanylion ar sut y caiff yr uchelgeisiau eu mesur/meincnodi
- Rhagor o fanylion/awgrymiadau ar sut i gyflawni'r uchelgeisiau

Themâu allweddol	Crynodeb o'r sylwadau
Ystyried uchelgeisiau presennol ymhellach	<ul style="list-style-type: none"> • Angen sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu rhoi ar waith wrth i'r BGC gyflawni uchelgeisiau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. • Awgrym i wneud cysylltiad cliriach rhwng Bargen Twf Canolbarth Cymru a fframwaith economaidd rhanbarthol ar draws ynni, yr economi a sgiliau. • Awgrym i gynnwys camau sy'n mynd i'r afael â goblygiadau posibl Brexit ar ffermio cynaliadwy. • Awgrym i gynnwys caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol er budd y gadwyn gyflenwi leol. • Plant ysgol uwchradd am gael mwy o gyfleoedd i ddysgu sgiliau ymarferol, mwy o gyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a thrafnidiaeth gynaliadwy. • Plant ysgol gynradd am weld swyddi da yn yr ardal a fydd yn eu helpu i aros yng Ngheredigion, heb unrhyw fwch cyflog rhwng y rhywiau a chyda chyflog gwell yn y sector ffermio ac addysg.
Manylion pellach ar sut y caiff yr uchelgeisiau eu mesur/meincnodi	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth am sut y bydd cadwyni cyflenwi sy'n fwy effeithlon yn cael eu mesur. • Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg mesurau i feincnodi cynnydd ar uchelgais a champau gweithredu i ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy.
Rhagor o fanylion/awgrymiadau ar sut i gyflawni uchelgeisiau	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion pellach sy'n nodi sut y bydd yr uchelgais o waith teg yn cael ei gyflawni. • Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y BGC yn cyflawni argymhellion CLES ac a ydynt yn cyd-fynd â blaenoriaeth Economi Sylfaenol ac yn cefnogi busnesau lleol.

C9: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol yn eich cymuned?


Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (85%/ 29 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol yn eu cymuned (sy'n ymwneud ag Amcan Llesiant 2 yn y Cynllun Llesiant). Roedd y 15% arall o ymatebwyr (5 ymatebwr) yn anghytuno â'r cynlluniau i helpu i leihau anghydraddoldebau. Er bod cyfran uchel o ymatebwyr yn cytuno â'r cynlluniau, roedd yn un o'r meysydd lle roedd barn ymatebwyr ychydig yn fwy rhanedig. Roedd y

Tudalen 25

canlyniad hwn yn debyg i'r ymateb cyffredinol i gwestiwn pedwar, yn ymwneud â'r cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn yr ardal.

C9. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol yn eich cymuned?

▼ Canran



C10: Unrhyw sylwadau?

Roedd tua dwy ran o bump o'r ymatebwyr (38%/13 o ymatebwyr) wedi cyflwyno sylwadau i gwestiwn 9 a ofynnodd a oeddent yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau ynghylch iechyd corfforol a meddyliol yn eu cymuned. At hynny, gofynnwyd am adborth ysgrifenedig yn ymwneud â chwestiwn naw (ar Amcan Llesiant 2) gan bartneriaid BGC (aelodau statudol a sefydliadau cyfranogol a wahoddwyd) ac o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid (fel ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion).

Roedd adborth yn amrywio; fodd bynnag, roedd y consensws cyffredinol yn croesawu'r ffocws ar hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas yn y Cynllun drafft, a ddisgrifiwyd fel "uchelgais gwirioneddol flaengar".

Cyflwynwyd awgrymiadau ar ychwanegiadau pellach i Amcan Llesiant 2. Roedd yr awgrym mwyaf cyffredin (yn yr adborth i'r arolwg a'r adborth ysgrifenedig gan bartneriaid a rhanddeiliaid) yn ymwneud â'r angen i gynnwys trafndiaeth gynaliadwy a theithio llesol yn y cynllun, oherwydd y manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac iechyd sy'n gysylltiedig â hynny. Cyfeiriwyd yn benodol at wella a chynnal a chadw llwybrau troed a phalmentydd Ceredigion, Llwybr Arfordir Cymru, mynediad at wasanaethau a'r angen am drafndiaeth gyhoeddus a chynaliadwy gwell a mwy hygyrch.

Yn ogystal, gwnaed argymhellion ar feysydd i'w datblygu ymhellach o dan Amcan Llesiant 2. Y teimlad cyffredinol yw bod angen rhoi mwy o sylw i'r mater o dai digonol a fforddiadwy yn y Cynllun drafft. Yn ogystal, nodwyd pwysigrwydd sicrhau fod tai sydd wedi'u cysylltu â gwasanaethau a thrafnidiaeth gynaliadwy yn cael ei ystyried. Nododd plant ysgol hefyd bwysigrwydd tai fforddiadwy a darparu tai gwarchod i'r digartref.

Yn ogystal, roedd ymatebwyr i'r arolwg wedi tynnu sylw at bwysigrwydd bwyd lleol, maethlon a chynaliadwy. Roedd cyfeiriadau penodol at ffactorau i leihau anghydraddoldebau bwyd, megis cydnherthedd a lleihau ein dibyniaeth ar y farchnad fwyd fyd-eang.

Tudalen 26

Roedd sylwadau llai cyffredin, fodd bynnag, yr un mor bwysig yn cynnwys:

- Awgrym i gynyddu ymgysylltiad y BGC â chymunedau o'r cychwyn cyntaf i gefnogi ei ddealltwriaeth eu hunain o feithrin cydnerthedd a'u cyfraniad posibl at hynny.
- Awgrym i gynnwys camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r uchelgais presgripsiynu cymdeithasol
- Awgrym i fireinio uchelgais 2.3 (sy'n ymwneud â bwyd) i sicrhau bod y gweithgareddau a geisir yn glir ac yn gyraeddadwy.
- Awgrym i adolygu'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i ychwanegu cyfeiriad at chwaraeon a hamdden, gan gynnwys cyfleusterau awyr agored a dan do.

Ymhlith plant ysgol roedd y materion a'r meysydd pwysicaf i'w hystyried yn ymwneud ag Amcan Llesiant 2 yn cynnwys:

- Gwarchod yr amgylchedd naturiol yn well (gan gynnwys mwy o arferion a mentrau amgylcheddol e.e. plannu coed, mwy o gyfleoedd gweithio gwyrdd, garddio ac ati).
- Gostyngiad mewn taflu sbwriel (awgrymiadau'n cynnwys – dirwyon taflu sbwriel, addysg bellach ar y niwed a achosir trwy daflu sbwriel, darpariaeth well o finiau ac ati)
- Cymorth gwell i bobl ar incwm isel/sy'n profi caledi (e.e. bwyd ffres mwy fforddiadwy, mwy o fanciau bwyd)
- Mwy o gymorth i ddeall cyllid a chyllidebau (e.e. addysg ar reoli cyllidebau, morgaeisi, dyled ac ati).

Rhoddir sampl o'r sylwadau o'r arolwg ac adborth ysgrifenedig gan randdeiliaid a phartneriaid yn y tabl isod.

Sampl o'r Sylwadau	
"Yn hytrach na" phresgripsiynu "mannau gwyrdd, beth am atal yr erydu parhaus yn ansawdd ein manau gwyrdd? Er enghraifft, mae llwybrau cyhoeddus yn rhan allweddol o'n seilwaith manau gwyrdd ac yn cael eu hesgeuluso'n ofnadwy gyda thanfuddsoddiad ofnadwy..."	"I raddau – er y dylai olygu helpu pobl i helpu eu hunain."
"Cytuno, ond mae angen llawer mwy o lwybrau troed, sy'n hygyrch. Mae'n rhaid i chi deithio hanner awr i gael llwybr sydd ddim yn mynd trwy gae neu sydd wrth ymyl ffordd brysur."	"Dechrau mwy o brosiectau tyfu bwyd yng Ngheredigion, gweithio gyda ffermwyr i gynhyrchu pethau sylfaenol fel ceirch a gafodd eu tyfu yma yn hanesyddol, lleihau'r ddibyniaeth pobl ar fwyd sy'n cael ei hedfan i mewn a thorri carbon yn y gadwyn fwyd. Rhaid i hyn gael ei gefnogi gan sefydliadau lleol sy'n comisiynu bwyd o dyfwyr lleol..."
"Mae'n rhaid i ni gydnabod yn gyntaf yr effaith y mae bwyd/maeth yn ei chael ar iechyd corfforol a meddyliol – mae gwrtiaith artiffisial sy'n defnyddio llawer o danwydd ffosil yn difetha iechyd planhigion a'r rhai sy'n eu bwyta sy'n denu'r defnydd o fioladdwyr mewn ffermio a'r fasnach	"Yn falch o weld Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy ond mae angen gweithredu ar bresgripsiynu gwyrdd a chymdeithasol yn ogystal ag uchelgeisiau e.e. gweithio gyda ac adeiladu ar brosiect Trywydd Iach Biosffer Dyfi."

Tudalen 27

fferyllol ym maes iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar yr amgylchedd ehangach..."

"Nid yw Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2023-28) yn sôn fawr ddim am drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n cael effaith arwyddocaol ar gymunedau gwledig o safbwynt llesiant a datgarboneiddio, a rôl y BGC i ddiogelu a gwella gwasanaethau gwledig er budd ei drigolion."


"Mae'r broblem o stoc tai annigonol yng Ngheredigion yn cael sylw ar dudalen 13 o'r Cynllun drafft. Mae pawb yn gwybod bod tai annigonol nid yn unig yn ffactor mewn costau ynni uwch, ond mae hefyd wedi'i gysylltu'n agos iawn ag anghydraddoldebau iechyd a chanlyniadau iechyd gwaeth... gellid rhoi mwy o sylw i dai."

C11: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i leihau ôl troed carbon Ceredigion?

Roedd lefel gryf o gefnogaeth hefyd i leihau ôl troed carbon Ceredigion gyda 91% o'r rhai a ymatebodd yn nodi eu bod yn cytuno â'r flaenoriaeth hon. Mae'r ymatebion i gwestiwn 15 lle gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa rai o'r amcanion oedd bwysicaf, yn awgrymu bod y flaenoriaeth hon yn cael ei hystyried yn un o'r heriau mwyaf i fynd i'r afael â hi yn y dyfodol. Roedd dau ymatebwr neu 9% yn anghytuno â'r amcan hwn, a thrafodir eu rhesymau yn C12 isod.

C11. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i leihau ôl troed carbon Ceredigion?

▼ Canran



C12: Unrhyw sylwadau?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi manteisio ar y cyfle i bwysleisio pwysigrwydd yr amcan hwn a chynnig awgrymiadau ar sut y gellir cyflawni hyn. Er enghraifft, roedd galwadau pellach am fwy o drafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth well, yn enwedig gwasanaethau bws gwledig ac ymdrechion i leihau prisiau tocynnau neu ddarparu gwasanaethau am ddim â chymhorthdal. Cafwyd galwadau hefyd am fwy o ymdrech i gael cynlluniau ynni gwyrdd a defnyddio ynni adnewyddadwy fel un ffordd o helpu i gyflawni'r amcan hwn. Awgrymodd un ymatebwr y dylid ategu hyn gyda'r cyllid sydd ar gael i'r holl drigolion. Roedd dau ymatebwr yn cefnogi'r amcan arfaethedig i leihau ôl troed carbon y Sir, ond nid oeddent yn teimlo bod digon o eglurder ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni, ac nid oedd y cynlluniau'n mynd yn ddigon pell i leihau allyriadau carbon. Awgrymwyd bod angen addysg bellach i sicrhau bod trigolion yn deall eu hól troed carbon.

Tudalen 28

Yn olaf, byddai'n fuddiol petai modd i'r cynllun gynnwys y rôl y bydd cynghorau cymuned a thref yr ardal yn ei chwarae yn y broses o gyflawni'r amcanion, yn enwedig y cynghorau hynny sydd â dyletswydd i wneud hynny. Nodwn fod cynrychiolydd o Un Llais Cymru yn eistedd ar y Bwrdd, felly gobeithio bod rhywfaint o ymgysylltu ar y gweill.

Integreiddio ac Atal

Gobeithio bydd y penderfyniad i gael amcan trawsbynciol trosfwaol yn gallu cyfrannu at effeithiau ar draws y pedwar piler llesiant; mae'r amcanion unigol hefyd yn cydnabod bod gorgyffwrdd a'i bod yn bosibl y cyflawnir yn erbyn nifer o nodau.

Byddai'r cynllun yn well byth petai'n dangos sut mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn gallu effeithio ar gyflawni ar draws nifer o'r amcanion llesiant a nodwyd ac ystyried hyn wrth gynllunio camau gweithredu ar draws y gwahanol amcanion. Er enghraifft:

- Mae newid yn yr hinsawdd yn gallu gwaethygu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli. Gallai effeithio ar seilwaith digidol o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd eithafol fel gwres eithafol a llifogydd. Ar ben hynny, mae'n debygol y bydd angen addasu'r stoc dai ar gyfer datgarboneiddio ac i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd (fel mwy o wres eithafol a llifogydd) – efallai y bydd hyn yn anoddach i gartrefi incwm isel.
- Gallai waethygu anghydraddoldebau iechyd, sy'n gysylltiedig â thai sydd wedi'u haddasu'n wael er enghraifft. Gallai hefyd effeithio ar fynediad at fwyd iach oherwydd bod newid yn yr hinsawdd yn gallu effeithio ar gynhyrchu bwyd yn lleol ac yn fyd-eang (gan effeithio ar gadwyni cyflenwi).
- Wrth gynnal yr astudiaeth waelodlin gychwynnol arfaethedig sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â chaledi, efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd, yr angen i ddatgarboneiddio, a'r angen i addasu.

Nid yw'n amlwg yn y cynllun a yw'r amcanion rydych chi wedi'u dewis yn debyg i amcanion llesiant aelodau statudol y bwrdd. Byddai'n dda cael syniad o faint o waith integreiddio y bwriedir ei wneud rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill. Yn yr un modd, gallai'r cynllun fod yn gryfach lle mae'n dangos gwerth ychwanegol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn wahanol i gyrff ar wahân sy'n cyflawni eu camau gweithredu eu hunain.

Mae lle i fod yn fwy penodol ac ymhelaethu ar y thema atal. Yn fwy penodol, byddai'n ddefnyddiol archwilio sut gallai'r camau gweithredu a gynigir atal problemau/blaenoriaethau allweddol rhag gwaethygu, a beth yw goblygiadau dulliau ataliol o ran y ffordd y bydd y bwrdd yn gweithredu ac yn defnyddio adnoddau.

Balans ac Ehangder

Tudalen 64

Mae'r cynllun yn gytbwys, gydag amcan trawsbynciol trosfwaol (mynd i'r afael â thlodi a chaledi), ac amcan penodol ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Roedd ein cydweithwyr sy'n arwain polisi diwylliant yn Llywodraeth Cymru yn credu bod yr amcan diwylliannol wedi cael ei lastwreiddio rhywfaint drwy ei gyfuno â chymunedau diogel ac wedi'u cysylltu, oherwydd gellid ystyried bod hwn yn fwy o amcan cymdeithasol. Byddai'n werthfawr egluro'n fwy penodol sut mae llesiant diwylliannol yn cael ei gefnogi, neu sut bydd diwylliant yn helpu i wella cymunedau diogel sydd wedi'u cysylltu. Mae gan bob un o'r amcanion gyfiawnhad clir ynghylch pam cafodd ei ddewis (ar sail tystiolaeth o'r asesiad) a set o uchelgeisiau, gyda chamau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd.

Mae'n gryfder eich bod wedi cyfeirio at y strategaethau corfforaethol, y cynlluniau a'r rhaglenni gwaith eraill sydd eisoes ar waith yn y sir (gan gynnwys Datganiad Ardal Canolbarth Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru, cynlluniau Seilwaith Gwyrdd, Model Cymdeithasol Llesiant, Strategaeth Economaidd, Cynaliadwyedd a Strategaeth Amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru). Mae'n amlwg y bydd y cynlluniau a'r rhaglenni eraill hyn yn cael eu hystyried, lle bo hynny'n briodol, a bod cysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud i sicrhau bod y cynllun yn gallu cyfrannu at y gwaith a wneir.

Dull Gweithredu Myfyriol a Chritigol

Mae'r asesiad llesiant wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i helpu i nodi'r blaenoriaethau y dylid rhoi sylw iddynt yn y cynllun ac mae'n nodi'n glir y cyfiawnhad dros bob un o'r amcanion. Byddai modd ei gryfhau drwy roi rhagor o ystyriaeth i gryfderau a gwendidau datblygu'r cynllun, er enghraifft, ymgysylltu â gwahanol gymunedau a phartneriaid cyflenwi.

Mae'r bwch tystiolaeth ers Covid-19 mewn data am nodweddion gwarchoddedig yn cael ei grybwyll, ond ychydig iawn o fanylion sydd ar gael am hyn ac nid oes unrhyw gyfeiriad at fylchau eraill yn y dystiolaeth a allai fod wedi effeithio ar ddatblygiad y cynllun.

Defnydd o dystiolaeth

Er bod y dystiolaeth o'r asesiad wedi cael ei defnyddio'n effeithiol wrth ddewis yr amcanion ac wrth ddatblygu'r cynllun, rydym yn meddwl y gellid cryfhau'r cynllun drwy:

- Ystyried y sylfaen dystiolaeth 'beth sy'n gweithio' i egluro pam mae rhai camau gweithredu penodol wedi cael eu dewis a datblygu damcaniaeth newid i egluro sut mae disgwyl i'r camau gweithredu hyn arwain at yr uchelgeisiau a nodwyd (mae rhywfaint o arwydd yn y cynllun eich bod wedi dechrau gweithredu damcaniaeth newid ee, drwy'r drafodaeth ar fanteision therapi syrffio, ond gellid adeiladu ar hyn).
- Dangos cynlluniau ar gyfer gwerthuso gweithrediad yr uchelgeisiau a'u heffaith. Gallai'r dull damcaniaeth newid a grybwyllir uchod fod yn fframwaith defnyddiol ar gyfer datblygu dulliau gwerthuso.

Yr elfennau i'w datblygu

Categori A Rhagor o ystyriaeth i'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir (gweler 'Amserlenni')
Categori B Rhagor o fanylion am ymgysylltu a chynnwys (gweler 'Cynnwys') Mwy o bwyslais ar atal (gweler 'Integreiddio ac Atal') Rhoi mwy o ystyriaeth i fylchau yn y dystiolaeth (gweler 'Dull Gweithredu Myfyriol a Chritigol')
Category C

ATODIAD

Amcan		Cyngor gan arweinwyr polisi
Mynd i'r afael â chaledi a thlodi: cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws y pedwar piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.		Rydym yn croesawu'r syniad o gael amcan trawsbynciol a fydd yn bwydo i mewn i'r holl amcanion eraill, yn enwedig ar fater mor bwysig. Cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei Strategaeth Tlodi Plant newydd a byddem yn eich annog i gyfrannu at hynny o ran sut gallai Llywodraeth Cymru helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r amcan hwn.
Amcan	Uchelgais	Cyngor gan arweinwyr polisi
Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.	Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion lleol a bylchau sgiliau yn cael eu nodi ac yn cael sylw.	Roedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi lansio ei Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn ddiweddar. Bydd yn bwysig gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth ar yr uchelgais hwn i sicrhau nad oes dyblygu.
	Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i gyflawni amcanion y BGC	Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu sut mae gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ariannu ar hyn o bryd. Nod yr adolygiad yw edrych ar y cyllid y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddefnyddio i gyflawni eu blaenoriaethau a'u hamcanion drwy; <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hariannu gan aelodau statudol. • Archwilio pa adnoddau cyllido eraill sydd ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu defnyddio i gyflawni eu blaenoriaethau a'u hamcanion. • Nodi arferion da o ran darparu adnoddau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gronni cyllid ac adnoddau eraill ac ystyried a fyddai'n ddefnyddiol datblygu dull gweithredu cyffredin. Gobeithio y bydd canlyniadau'r adolygiad, ar ôl ei gwblhau, o ddefnydd ichi.
	Ystyried ffyrdd arloesol o wneud cadwyni cyflenwi yn fwy	Hoffem ddeall rhagor am y cynllun i gyflawni argymhellion y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol ac os

Tudalen 66

	<p>effeithlon gan gefnogi'r economi leol yr un pryd.</p>	<p>yw'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Economi Sylfaenol ac yn cefnogi busnesau lleol, byddem yn fodlon ystyried y potensial ar gyfer darparu cymorth ariannol.</p> <p>Sut bydd mwy o effeithlonrwydd mewn cadwyni cyflenwi yn cael ei fesur ac a oes sectorau penodol yn y sylfaen gyflenwi leol y byddwch chi'n canolbwyntio arnynt?</p>
	<p>Sefydliadau'r BGC yn ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy fel rhan o'r ymdrechion i ddatblygu economi llesiant.</p>	<p>O safbwynt gwaith teg, rydym yn croesawu'r manylion sy'n nodi sut bydd yr uchelgais yn cael ei gyflawni, yn enwedig yr addewid: <i>“Bydd holl sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth galon polisiau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion gan ddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnes a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb.”</i></p> <p>Mae hyn yn cyfleu dull y byddem yn gwbl gefnogol iddo – gyda sefydliadau unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae eu rhan i arwain drwy esiampl ar waith teg fel cyflogwyr yn eu rhinwedd eu hunain, fel llunwyr polisiau, fel cyllidwyr partneriaid allanol ac wrth hyrwyddo gwaith teg a'i fanteision i fusnesau ac i'r gymuned drwyddi draw. Yn sicr, byddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y materion hyn.</p> <p>Mae pryder ynghylch diffyg mesurau y gellir eu defnyddio i feincnodi cynnydd yn erbyn yr uchelgais a'r cam gweithredu a nodir.</p> <p>Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu briff ar waith teg a allai fod yn ddefnyddiol ac mae hwn ynghlwm.</p>
<p>Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella</p>	<p>Gwella mynediad anghyfartal at fwyd iach a gweithio i wella cynaliadwyedd y system fwyd yng Ngheredigion</p>	<p>Mae rhai pethau difyr eisoes yn digwydd yng Ngheredigion y gellid adeiladu arnynt gyda phlatform “Cysylltu Ceredigion” Cysylltu Ceredigion - Rhowch hwb i'ch lles – Gallai fod yn ddefnyddiol i chi ystyried hwn.</p>

Tudalen 67

<p>iechyd corfforol a meddyliol.</p>		<p>Nodwn eich bod yn bwriadu archwilio'r cyfleoedd i fod yn Lle Bwyd Cynaliadwy. Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd statws arian fel Lle Bwyd Cynaliadwy ac efallai yr hoffech gysylltu â nhw i'w holi am eu profiadau. Wrth ddatblygu Ceredigion fel Lle Bwyd Cynaliadwy, sut bydd hyn yn cysylltu â/yn elwa o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol?</p>
	<p>Presgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas, a ddarperir gan wasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda, yw'r dull atgyfeirio arferol a derbyniol ar gyfer gwella iechyd.</p>	<p>Mae hwn yn uchelgais blaengar iawn sy'n ceisio elwa o'r manteision a ddaw yn sgil lleoliad daearyddol Ceredigion. Rydym yn edrych ymlaen at glywed rhagor am sut caiff yr uchelgais hwn ei gyflawni. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu model ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a chynhaliwyd ymgynghoriad y llynedd. Rydym yn argymhell eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y maes hwn. Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol LLYW.CYMRU</p>
<p>Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisio cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio o fewn cymunedau. • Cyrraedd statws Sero Net erbyn 2030 • Uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd • Paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. 	<p>Mae'r amcan hwn yn ymwneud yn benodol â gwarchod yr amgylchedd a lliniaru'r effeithiau ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth, ond gellid ystyried hyn yn ehangach drwy hefyd ystyried yr effeithiau ar iechyd, anghydraddoldeb a seilwaith. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhagor o fanylion yn yr amcan hwn ynghylch beth fydd rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth i fanylion mwy penodol gael eu rhoi ar gyfer yr amcanion llesiant eraill wrth gymharu â'r amcan hwn. Er enghraifft, sut bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu i gyflawni gweithgareddau datgarboneiddio? Beth fydd ei rôl? Sut bydd yn helpu i ddatblygu cymunedau cryf – ac yw'n gallu edrych ar draws yr amcanion llesiant gwahanol i addasu a gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd?</p> <p>Mae'n dda gweld bod y cynllun yn amlinellu camau ar gyfer uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer economi werdd.</p>
<p>Cydweithio er mwyn i gymunedau</p>	<p>Ceredigion yn fan lle mae amrywiaeth</p>	<p>Mae'n dda gweld diwylliant yn cael ei adlewyrchu ar lefel uchaf y cynllun fel piler</p>

Tudalen 68

<p>deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg</p>	<p>ddiwylliannol a'r Gymraeg yn cael eu dathlu</p>	<p>pedwar – Llesiant Diwylliannol. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion o dan llesiant diwylliannol yn cyd-fynd yn union â'r nod o Gymru â diwylliant bywiog (a'r Gymraeg yn ffynnu). Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol os yw'r cynnig yn 'fywiog' ond nid yw hyn wedi cael ei ddatblygu digon ac mae'n cael ei gysylltu (yn wan) â 'diogelwch cymunedol'. Gellid dweud llawer am sut mae diwylliant yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol a synnwyr o berthyn, ond nid yw'n amlwg. Mae Ceredigion – Aberystwyth yn benodol, yn chwaraewr cenedlaethol a phwysig iawn o ran arlwy diwylliannol Cymru – er enghraifft, y Llyfrgell Genedlaethol, y Comisiwn Brenhinol, y Cyngor Llyfrau, Canolfan y Celfyddydau, Arad Goch, yr Hen Goleg a'r Brifysgol, a llyfrgelloedd ac amgueddfeydd rhagorol. Gallai'r uchelgeisiau lefel uchaf adlewyrchu Ceredigion fel canolfan o bwysigrwydd diwylliannol cenedlaethol.</p> <p>Er bod y camau gweithredu rydych yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r Gymraeg i'w croesawu, byddem yn eich annog i adolygu geiriad yr uchelgais, o ystyried canlyniadau'r cyfrifiad diweddar.</p>
	<p>Y gymuned yn cael ei chynnwys er mwyn i bobl deimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn wybodus er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol lleol</p>	<p>Croesewir yn bendant eich bod wedi creu'r gwahaniaeth rhwng realiti ffigurau troseddu a chanfyddiadau pobl o'r ffigurau, yn ogystal â'r cysylltiad rhwng teimlo'n ddiogel a hunaniaeth gymunedol yn fwy cyffredinol. Mae cysylltu eich asesiad strategol â'ch Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gam synhwyrol.</p> <p>Nid yw'n glir o'r fersiwn drafft yn union beth fydd yr Asesiad Strategol yn canolbwyntio arno a sut bydd yn cael ei gynnal. Byddem yn eich annog i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Meddyliwch am y ffactorau ehangach sy'n sbarduno troseddu – sut gall partneriaid weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â thlodi, trawma sy'n pontio'r cenedlaethau,

Tudalen 69

		<p>camddefnyddio sylweddau ac ati? Bydd llawer o'r amcanion a'r camau gweithredu llesiant eraill yma'n cyfrannu at leihau troseddu hefyd, a byddem yn eich annog i feddwl am droseddu fel mater cymdeithasol neu iechyd y cyhoedd (mae'r fersiwn drafft yn awgrymu hynny i raddau)</p> <ul style="list-style-type: none">• Ymgorffori dull gwrth-hiliol, yn unol â chynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru – byddem yn gobeithio y byddai unrhyw asesiad strategol yn cynnwys camau gweithredu i leihau gor-gynrychiolaeth pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y system gyfiawnder
--	--	---

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus



Ceredigion

Public Services Board



CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION

Tudalen 71

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

2023-2028



Cysylltwch â ni

✉ Post:

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

☎ Ffôn:

01545 570881

Mae **Fersiwn Testun Plaen** neu **Fersiwn Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion

Statws: Drafft

**Cymeradwywyd gan y BGC:
Dyddiad Cyhoeddi:**

(Tudalen flaen wedi'i dylunio gan ddefnyddio adnoddau o Freepik.com)



CYNNWYS

1.	Rhagair	4
2.	Cyflwyniad	5
3.	Cynllun ar Dudalen – Crynodeb o amcanion ac uchelgeisiau'r Cynllun Llesiant	6
4.	Y Cynllun Llesiant a pham mae ei angen arnom:	7
	• Y saith nod Llesiant	7
	• Datblygu cynaliadwy	8
	• Y Pum Ffordd o Weithio	8
5.	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – cydweithio yng Ngheredigion	9
6.	Strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith allweddol eraill	10
7.	Sut rydym wedi datblygu'r cynllun	10
8.	Ein hamcanion Llesiant	11
9.	Cyflawni a Monitro Cynnydd	24
10.	Cyfrannu at y saith Nod Llesiant	25

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion. Dyma'r ail Gynllun Llesiant 5 mlynedd ac mae'n adeiladu ar gynllun 2018-2023, gan ystyried gofynion a disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

“Gobeithio y bydd yr hyn y mae
Cymru yn ei wneud heddiw, y
bydd y byd yn ei wneud yfory”
- Y Cenhedloedd Unedig

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru ac yn cynnig cyfle pwysig i wneud newid cadarnhaol, hirhoedlog i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol gan sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er budd llesiant Cymru.

Buom bob amser yn ffodus i gael trefniadau gweithio da rhwng partneriaid yng Ngheredigion, ac mae'r Ddeddf hon yn darparu'r uchelgais, y caniatâd, a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Trwy'r asesiad o lesiant a chlywed gan ein cymunedau, gwerthfawrogwn yr amgylchedd rydym yn byw ynddo ond gwyddom ein bod yn wynebu heriau, nid yn unig oherwydd yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael, ond oherwydd bydd costau byw, amcanestyniadau poblogaeth a phrinder sgiliau yn cael effeithiau pellgyrhaeddol. Hefyd disgwyliwn weld effeithiau cynyddol newid hinsawdd ar gymunedau.

Mae'r rhain yn faterion cymhleth sydd wedi'u plethu trwy ein cymunedau ond mae angen mynd i'r afael â nhw mewn ffordd gydweithredol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gymunedau siapio eu dyfodol hirdymor ac rydym wedi ymrwymo i lunio a darparu gwasanaethau'n well gyda chymunedau er mwyn gwella llesiant yng Ngheredigion.

Y Cynghorydd Bryan Davies – Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion



Cyflwyniad

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion wedi ymrwymo i gydweithio i wella llesiant yng Ngheredigion nawr ac yn y dyfodol. Nid yw gweithio mewn partneriaeth yn rhywbeth newydd ac mae gennym hanes hir o weithio fel hyn. Mae ein cynllun llesiant yn amlinellu'r pethau y bydd BGC Ceredigion yn cydweithio i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf; ein hamcanion a'n camau llesiant, yn ogystal â sut rydym am i Geredigion edrych ymhenn 10 mlynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gael [yma](#).

Mae'r Cynllun Llesiant hwn wedi'i lywio gan yr [Aseiad o Lesiant Leol](#) cynhwysfawr a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022.

Edrychodd yr aseiad hwn ar yr asedau a'r heriau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu o ran eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac elfen bwysig ynddo oedd yr ymgysylltiad â chymunedau yng Ngheredigion. Edrychwyd ar gyfoeth o ddata.

Cafodd y cyfoeth hwn o ddata, gan gynnwys amcanestyniadau poblogaeth hirdymor, tueddiadau amgylcheddol ac economaidd ei goladu gan helpu i sefydlu'r Amcanion Llesiant arfaethedig y mae'r Cynllun Llesiant hwn yn seiliedig arnynt. Ymgysylltwyd â'n cymunedau, ein partneriaid, Llywodraeth Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ymhlith eraill, i geisio barn ac awgrymiadau pellach ynghylch a oedd yr amcanion yn briodol ac yn adlewyrchu anghenion llesiant y sir. Mae Bwrdd Gwasanaethau Ceredigion yn gweld y Cynllun Llesiant hwn fel cyfle pwysig i gryfhau a dwyn ynghyd rhaglenni gwaith heb ffiniau sefydliadol.

Ein cam nesaf fydd datblygu a gweithredu cynllun cyflawni gyda chamau gweithredu manwl i'w cwblhau; byddwn yn parhau i gynnwys ein cymunedau i lunio ein gwaith, cymhwyso egwyddorion adolygu parhaus a rhannu ein cynnydd wrth i ni fynd yn ein blaenau. Mae'r amcanion llesiant a'n huchelgeisiau i'w cyflawni wedi'u crynhoi ar y dudalen nesaf.

Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion



CRYNODEB O AMCANION AC UCHELGEISIAU'R CYNLLUN HWN:

TRAWSBYNCIOL	<p align="center">MYND I'R AFAEL Â CHALEDI A THLODI</p> <p align="center">Cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws y pedwar piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol</p>			
Piler Llesiant	1. Llesiant Economaidd	2. Llesiant Cymdeithasol	3. Llesiant Amgylcheddol	4. Llesiant Diwylliannol
Amcanion	Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.	Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.	Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.	Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
Uchelgeisiau	<p>Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion lleol a bylchau sgiliau yn cael eu nodi ac yn cael sylw.</p> <p>Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i gyflawni amcanion y BGC.</p> <p>Ystyried ffyrdd arloesol o wneud cadwyni cyflenwi yn fwy effeithlon gan gefnogi'r economi leol yr un pryd.</p> <p>Sefydliadau'r BGC yn ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy fel rhan o'r ymdrechion i ddatblygu economi llesiant.</p>	<p>Rhoi sylw i anghydraddoldebau daearyddol trwy waith seiliedig ar le sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned er mwyn sicrhau grymuso hirdymor.</p> <p>Gwella mynediad anghyfartal at fwyd iach a gweithio i wella cynaliadwyedd y system fwyd yng Ngheredigion.</p> <p>Presgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas, a ddarperir gan wasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda, yw'r dull atgyfeirio arferol a derbyniol ar gyfer gwella iechyd.</p> <p>Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo potensial cysylltedd digidol.</p>	<p>Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio o fewn cymunedau a sefydliadau'r BGC.</p> <p>Cyrraedd statws Sero Net erbyn 2030</p> <p>Uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.</p> <p>Paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.</p>	<p>Ceredigion yn fan lle mae amrywiaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg yn cael eu datlu.</p> <p>Y gymuned yn cael ei chynnwys er mwyn i bobl deimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn wybodus er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol lleol.</p> <p>Ceredigion yn lle diogel gydag amgylchedd awyr agored hygyrch ac iach y mae pawb yn ei ddefnyddio a'i fwynhau.</p>

Y Cynllun Llesiant a pham mae ei angen arnom



Y saith nod llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i bob gwasanaeth cyhoeddus, e.e., cynghorau, iechyd, yr heddlu, yr amgylchedd, tân a sefydliadau trydydd sector i gydweithio i wella llesiant i bawb yng Nghymru a gweithio tuag at y saith nod llesiant;

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnherth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf hefyd yn manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus penodedig gydweithio i wella llesiant Cymru. Mae'n gwneud i'r gyrrff

cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru lle rydym ni i gyd am fyw, nawr ac yn y dyfodol.

Datblygu cynaliadwy

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant pobl heddiw heb wneud dim a allai wneud pethau'n waeth i genedlaethau o fabanod, plant, pobl ifanc, oedolion, a phobl hŷn yn y dyfodol, mewn geiriau eraill, ein holl deuluoedd, hen bobl a phobl ifanc, ein ffrindiau a'n cymdogion. Rydym wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i ddatblygu ein cynllun.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn gweld y Cynllun Llesiant hwn fel cyfle pwysig i gryfhau'r gwaith a wneir gyda'n gilydd i wella llesiant ein cymunedau a'i gyfraniad at yr effaith genedlaethol a rhyngwladol ehangach.

Y Pum Ffordd o Weithio

I'n helpu i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llesiant 2015 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y "Pum Ffordd o Weithio". Mae'r ffyrdd hyn o weithio'n ein helpu i gydweithio'n well fel un gwasanaeth cyhoeddus, i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn fel sir, i leihau tlodi, gwella cydraddoldeb, creu economi carbon isel, neu gyfrannu at gymunedau hyfyw, diogel, wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.



Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd



Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyhoeddus eraill



Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu



Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant



Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

Cydweithio yng Ngheredigion

Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngheredigion wedi cytuno i ddod at ei gilydd i ddatblygu gwasanaeth cydweithredol sy'n rhoi cymunedau wrth ei wraidd. Maent wedi cytuno i symud y rhwystrau rhwng gwasanaethau cyhoeddus a gweithio mewn ffordd ataliol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal trwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol sydd wedi cydweithio i ddatblygu'r cynllun hwn.

Ni all unrhyw un o'n pedwar amcan gael eu cyflawni'n effeithiol ar ei ben ei hun gan un sefydliad yn unig ac felly bydd gan holl bartneriaid y BGC a nodir isod rôl i'w chwarae wrth gyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn.

Aelod-Sefydliadau Statudol

Cyngor Sir Ceredigion
Cyfoeth Naturiol Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Sefydliadau a wahoddwyd i gymryd rhan

Llywodraeth Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Prifysgol Aberystwyth
Coleg Ceredigion
Un Llais Cymru
Heddlu Dyfed Powys
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion



Strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith allweddol eraill:

Mae BGC Ceredigion yn cydnabod bod strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith corfforaethol eraill yn eu lle eisoes yn y sir a lle bo'n briodol gellir gwella effaith y rhain ymhellach trwy gydweithio. Mae enghreifftiau yn cynnwys; Datganiad Ardal Canolbarth Cymru CNC, Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd, Model Cymdeithasol Llesiant, Strategaeth Economaidd Cyngor Sir Ceredigion, Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd (Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru) ymhlith eraill.

Bydd y BGC yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried lle bo'n briodol ac yn cyfrannu at y gwaith a wneir, gan sicrhau bod cysoffwrddau perthnasol yn cael eu gwneud a bod cyflawni yn cael ei gryfhau.


Adnoddau

Er nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol i gefnogi'r cynllun hwn a'r ffyrdd gwahanol o weithio, rydym yn cydnabod, trwy gydweithio a chynnwys cymunedau, y gallwn fod yn fwy effeithlon, darparu gwasanaethau â mwy o ffocws, rhannu ein hasedau, a chael llawer mwy o effaith.

Sut rydym wedi datblygu'r Cynllun

Cyn i ni ddatblygu'r cynllun hwn, cynhaliwyd asesiad o lesiant. Pwrpas yr asesiad yw cael darlun cynhwysfawr o gyflwr llesiant pobl a chymunedau lleol Ceredigion, nawr ac i'r dyfodol. Fe'i defnyddiwyd fel sail tystiolaeth i osod yr amcanion yn y cynllun hwn a helpu i lywio'r hyn y bydd BGC Ceredigion yn ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf i wella llesiant pobl a chymunedau yn y sir. Mae Ffigur 1.5 yn dangos cylch cynllunio'r BGC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Roedd ein hasesiad wedi dweud llawer wrthym am lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Ceredigion. Mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad, yn feintiol ac yn ansoddol, ac fe'u lluniwyd yn ystod camau dadansoddi data, ymgysylltu ac ysgrifennu'r asesiad.



Mae'r Asesiad wedi'i lywio gan ddata, ymchwil a chasglu tystiolaeth, o wrando ar bobl a rhanddeiliaid a thrwy ystyried tueddiadau'r dyfodol a'r pethau y gallwn eu rhagweld a allai ddigwydd yfory y mae angen i ni ddechrau cynllunio ar eu cyfer heddiw.

Defnyddiwyd canfyddiadau'r Asesiad hwn i helpu i ddechrau gwaith manylach i ddarganfod beth sydd bwysicaf a beth y gellir ei wneud i wella lles pobl. Cytunwyd ar yr amcanion canlynol, sy'n ffurfio sylfaen i Gynllun Lles Lleol 2023-2028.

Ein Hamcanion Llesiant:

1. **Llesiant Economaidd:** Byddwn yn cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.
2. **Llesiant Cymdeithasol:** Byddwn yn cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.
3. **Llesiant Amgylcheddol:** Byddwn yn cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.
4. **Llesiant Diwylliannol:** Byddwn yn cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ogystal â'r pedwar amcan hyn, teimlwyd bod angen ffocws penodol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi gan fod ganddo'r potensial i gysylltu â phob un o'r amcanion. Felly, mae hwn wedi cael ei adnabod fel thema drawsbynciol.

Parhaodd sgysiau gyda'n cymunedau ac eraill, megis Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gasglu barn ar yr amcanion a'r hyn y dylai'r BGC ei wneud i'w cyflawni.

Archwiliwyd yr ymatebion hyn a'u mireinio ymhellach drwy weithdy o'r BGC, gyda chynghor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Ystyriwyd hefyd Amcanion Llesiant unigol sefydliadau statudol y BGC ar draws y sir a'r blaenoriaethau rhanbarthol, gan arwain at y Cynllun Llesiant Drafft, ynghyd â fersiwn Hawdd ei Ddarllen a fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc, a ymgynghorwyd arnynt yn ystod mis Tachwedd, Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023. Gwahoddwyd adborth drwy arolygon papur ac ar-lein, yn ogystal â thrwy ymgysylltu â grwpiau penodol â diddordeb megis, LHDTQ+ (Pride y Gaeaf 2022), Mencap Ceredigion a fforymau megis y Ffowm Anabledd. Cynhaliwyd gweithdai penodol hefyd gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn

ogystal â'r Cyngor leuenctid er mwyn casglu eu barn. Roedd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, bwletinâu staff a phosteri gyda chodau QR hefyd yn cael eu harddangos a chysylltwyd â chynghorau Tref a Chymuned yn uniongyrchol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i gyfrannu a derbyn adborth. Mae BGC Ceredigion yn ddiolchgar i Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru am ddarparu cyngor ar gynnwys y dogfennau ymgynghori a'r gwaith o gyflwyno'r gweithdai i bobl ifanc. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad 1 (Adroddiad Adborth Ymgynghori y Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028) a rhoddwyd y sylw dyladwy i'r rhain yn y Cynllun Llesiant terfynol ar gyfer 2023-2028.

Prosiect Dewi 2021-2026

Mae BGC Ceredigion yn ffodus o gael mewnbwn ac arbenigedd gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a dderbyniodd Arian Cymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi, arwain a chynghori ar wella cyd-gynhyrchu a chyfranogiad wrth baratoi ar gyfer Cynllun Llesiant 2023-2028 ac yn ystod ei gyflawni.

Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd wedi byw profiadau i ddatblygu atebion i heriau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau. Bydd cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y maes yn helpu i gyrraedd y nodau llesiant ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Cydnabyddir bod cyfranogi a chyd-gynhyrchu yn ffyrdd penodol o weithio ac mae gwreiddio'r ffyrdd hyn o weithio yn llwyddiannus yn gofyn am adnodd i staff ddatblygu'r sgiliau hyn. Bydd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cynorthwyo ac yn llywio'r BGC ar wella cyd-gynhyrchu a chyfranogi trwy gydol cyfnod y Cynllun Lles a bydd yn weithredol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl amcanion isod.

Amcan Trawsbynciol: Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi

Pam mae hon yn thema drawsbynciol â blaenoriaeth:

- Mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac wedi gweld y cynnydd ail uchaf yn genedlaethol ers 2014/15. Yng Ngheredigion mae 3,459 o blant yn byw mewn tlodi¹.
- Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu ac mae'n parhau i fod yn her allweddol i aelwydydd, yn enwedig yng Ngogledd Aberystwyth, Aberteifi ac Aber-porth a De Aberystwyth².
- Mae tlodi incwm yn un o Dangosyddion Cenedlaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r dangosydd yn mesur anghydraddoldeb incwm, dim safonau byw. Dydy Ceredigion ddim yn perfformio yn dda ar y mesur yma, mae bron traean yr aelwydydd yng Ngheredigion (10,250) yn byw mewn tlodi (ar lai na 60% o incwm cyfartalog y DU)³ ac mae'r ffigur yn cynyddu. Rhwng 2018 a 2020 roedd y nifer o aelwydydd yn byw mewn tlodi wedi cynyddu gan 9% (neu 856 o aelwydydd).
- Roedd plant a phobl ifanc o ardaloedd o dlodi yn wynebu risg uwch o iechyd meddwl a llesiant gwael. Mae pandemig COVID-19 yn creu heriau newydd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ran adnabod plant sydd mewn 'perygl'. Ers y pandemig, mae'r rhanbarth wedi gweld cynnydd yn nifer y Plant a Phobl Ifanc sy'n ceisio cymorth gydag anawsterau emosiynol a meddyliol cymhleth⁴.
- Amlygodd yr Arolwg Llesiant lefel y pryder ymhlith ymatebwyr yr arolwg ynghylch teuluoedd sy'n wynebu tlodi bwyd a fforddiadwyedd bwyd yn y dyfodol. Pan ofynnwyd – 'beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am gyfrifoldeb byd-eang eich sir yn y dyfodol?', nodwyd tlodi bwyd fel y pryder pennaf, wrth i 61% o ymatebwyr ddewis yr ateb hwn⁵.

¹ "Child poverty in your area 2014/15 – 2019/20". End Child Poverty Coalition. Ar-lein: <http://www.endchildpoverty.org.uk/local-child-poverty-data-2014-15-2019-20/>. Adalwyd: 25.09.2021.

² CACI Paycheck Directory MSOA. 2020.

³ CACI Paycheck Directory (2020). 'No of HH below 60% GB median income.' [Mewnol].

⁴ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: [Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022](#) (Cyrchwyd: 10.10.22).

⁵ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: [Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022](#) (Cyrchwyd: 10.10.22).

- Mae tlodi yn parhau i fod yn un o heriau mwyaf y Sir. Enillion ac incwm isel, gofal plant fforddiadwy, gostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a chostau tai uchel/tai fforddiadwy sy'n ysgogi tlodi yng Ngheredigion
- Mae llawer o'r stoc tai yng Ngheredigion yn anaddas oherwydd bod yr adeiladau hyn mor hen, sy'n golygu ei bod yn anodd eu gwresogi a'u haddasu er mwyn gwella diogelwch a'u perfformiad wrth ddefnyddio ynni mewn ffordd effeithlon, ac o ganlyniad, mae preswylwyr Ceredigion yn wynebu costau ynni uwch. Yn 2019, y gost ganolrifol flynyddol amcangyfrifedig am ynni yng Ngheredigion ar gyfer fflatiau a oedd yn bodoli eisoes oedd £651 ac roedd yn £1,158 ar gyfer cartrefi a oedd yn bodoli eisoes, ac mae'r ddau yma lawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (£525 ar gyfer fflatiau a oedd yn bodoli eisoes a £907 ar gyfer tai a oedd yn bodoli eisoes)⁶. Mae'n debygol iawn y bydd y ffigurau hyn wedi codi o ganlyniad i'r argyfwng ynni presennol yn y DU. Bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar bobl hŷn, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn byw mewn sefyllfa o dlodi tanwydd, gan bod angen i'r gwres fod ar dymheredd uwch a bydd angen ei adael ymlaen am gyfnod hwy fel arfer. At hynny, lleolir cyfran uchel o aelwydydd Ceredigion oddi ar y prif rhwydwaith nwy, sy'n golygu bod preswylwyr yn ddibynnol ar danwydd drytach megis olew, trydan neu LPG a thariffau tanwydd deul⁷.

Ein huchelgeisiau hir-dymor:

Nid yw caledi, tlodi ac anghydraddoldeb yn cael ei brofi bellach gan drigolion Ceredigion; gyda llai o effaith ar draws pob un o'r pedwar piler llesiant - llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- 0.1 Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a tlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- 0.2 Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth.

⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020). 'Energy Performance Certificate statistics for new and existing flats and houses'. [Ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/datasets/energyperformancecertificatestatisticsfornewandexistingflatsandhouses> (Mynediad: 21.10.21).

⁷ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: [Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022](#) (Cyrchwyd: 10.10.22).

0.3 Bydd yr Is-grŵp flodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn flodi ar draws pob un o'r pedwar amcan.

Amcan llesiant 1:

Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.

Pam yr amcan hwn:

- O'n hasesiad llesiant, rydym yn gwybod bod y rhagwelir y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng dros y 25 mlynedd nesaf, gan gynnwys parhad i'r tueddiadau sydd wedi gweld y boblogaeth oedran gweithio yn lleihau ac allfudiad pobl ifanc i ardaloedd arall yng Nghymru a'r DU. Ar yr un amser mae'r boblogaeth yn heneiddio. Bydd effeithiau'r newidiadau yma yn eang, bydd yn debygol o effeithio llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y sir. Er enghraifft, bydd yn effeithio ar allu'r gweithlu i fodloni gofynion sgiliau'r economi leol, ac wrth amddiffyn traddodiadau diwylliannol cryf y sir⁸.
- Mae patrymau gweithio yn newid ac wedi dod i'r amlwg yn ystod COVID-19. Mae yna angen i weithio yn fwy hyblyg er mwyn cefnogi'r gweithlu presennol ac i annog eraill i mewn i'r gweithlu yn y dyfodol, megis oriau gweithio hyblyg, lleoliad gwaith a mwy o hyblygrwydd o gwmpas gofal plant. Rydym yn gwybod gwerth bod yn y gwaith a'r effaith ar lesiant, a gall y tueddiadau yma arwain at ffyrdd o greu cyfleoedd cyflogi ac i lenwi bylchau sgiliau sydd wedi adnabod yn yr economi lleol.
- Rydym yn ddibynnol ar gysylltedd digidol, ac mae hyn yn cynyddu yn enwedig yn dilyn pandemig COVID-19, mae'r tueddiadau yma yn debygol o barhau. Mae'r Asesiad yn arddangos pwysigrwydd band-llydan cyflym a dibynadwy a gwasanaethau ffonau symudol i fusnesau, cymunedau ac unigolion. Bydd gwella cysylltedd digidol yng Ngheredigion yn hanfodol i ddarparu'r seilwaith sydd yn angenrheidiol i'r dyfodol.
- Mae straen ac anawsterau ariannol sy'n deillio o'r pandemig, ynghyd â chostau byw cynyddol ac amgylcheddau gwaith gwael, i gyd yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn lefelau afiechyd cronig a chyfraddau marwolaethau ar draws Cymru. Addasodd llawer o gyflogwyr yn gyflym i ddiogelu iechyd eu gweithlu yn ystod y pandemig. Wrth i ni geisio llunio dyfodol gwell i Gymru, mae'n

⁸ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: [Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022](#) (Cyrchwyd: 10.10.22).

ddyletswydd arnom i wella cyfranogiad mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch. Ar lefelau lleol a rhanbarthol, rhaid i ni weithredu gyda ffocws a dwysedd i wneud mynediad at waith o ansawdd da yn decach, defnyddio arian cyhoeddus i wella amodau gwaith a llunio partneriaeth â busnesau i hyrwyddo a gweithredu gwaith teg. (Gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru 2022).

Ein huchelgeisiau hir-dymor:

- Mae gweithlu lleol ar gael sy'n diwallu anghenion y sector cyhoeddus ac anghenion y sector preifat.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i gyflawni amcanion y BGC.
- Ystyried ffyrdd arloesol o wneud cadwyni cyflenwi yn fwy effeithlon gan gefnogi'r economi leol yr un pryd.
- Sefydliadau'r BGC yn ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy fel rhan o'r ymdrechion i ddatblygu economi llesiant a sicrhau arferion gorau yn yr economi sylfaenol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- 1.1 Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, gan gynnwys y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan gynnwys partïon sydd â diddordeb mewn cynnal archwiliadau yn y gweithlu a nodi bylchau sgiliau i helpu i gynllunio ein gweithlu yn y dyfodol; cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrrd â chyfleoedd gyrfa yn y sector gyhoeddus a'r sector preifat ac anghenion lleol, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys uwchsgilio ac ail-hyfforddi ar gyfer economi werdd.
- 1.2 Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo dull gweithredu ar draws ein sefydliadau, gan gryfhau rhaglenni prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn helpu i gysylltu ag eraill yn ogystal â chyfrannu at well iechyd meddwl ac iechyd corfforol.
- 1.3 Bydd grŵp partneriaeth yn cael ei sefydlu i gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd hyn yn sicrhau trosolwg traws-sefydliadol a dull gweithredu ar y cyd ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso alinio ffyrdd ariannu lle bo'n briodol a sicrhau bod yr Amcanion Llesiant yn cael eu hystyried a bod yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn cael ei weithredu.
- 1.4 Trwy gaffael, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud defnydd y mwyaf o gyflenwyr lleol ar gyfer ei nwyddau, ei wasanaethau a'i waith.
- 1.5 Bydd holl sefydliadau'r BGC yn ymrwmo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisiâu a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb.

1.6 Bydd y BGC yn gwneud cysylltiadau clir â Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r fframwaith economaidd rhanbarthol ar draws ystod o feysydd megis ynni, yr economi a sgiliau er mwyn ddatblygu dull mwy cynhwysol o fesur llwyddiant economaidd.

Amcan llesiant 2:

Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.

Pam yr amcan hwn:

- Mae Pandemig COVID-19 wedi creu anghydraddoldebau newydd ac wedi gwaethygu'r rhai sy'n bodoli eisoes. Mae Adroddiad Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol⁹ yn dangos mai'r rhai sy'n byw mewn iechyd gwael, flodi neu mewn cymunedau ymylol sydd wedi cael eu taro waethaf gan y pandemig. Yn ogystal, COVID-19 wedi tynnu sylw at y bwch enfawr yn y dystiolaeth wrth gasglu data ar nodweddion gwarchoddedig.
- Mae ein hiechyd wedi'i gysylltu'n agos ag agweddau cymdeithasol ac economaidd ar ein bywydau: o ble rydym yn cael ein geni, ble rydym yn byw ac yn gweithio, i'n cyfleoedd addysgol, ein hincwm, a'n dylanwad. Mae'r ffactorau cymdeithasol hyn yn arwain at anghydraddoldebau iechyd a llesiant ar draws pobl a chymunedau gwahanol, o ran mynediad at ofal iechyd, ac o ran y cyfleoedd sydd gennym i fyw bywydau iach. Wrth gwrs, nid dyma'r unig ffactorau a gall presgripsiynu cymdeithasol gynnig manteisio cadarnhaol a helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ymwneud â llesiant cyfannol a rhoi'r cyfrifoldeb am reoli iechyd gyda'r unigolyn, ac mae'n gyfrwng i rymuso a galluogi.
- Mae dystiolaeth gyson bod ymgysylltu â byd natur yn fuddiol o ran gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol ac mae presgripsiynu cymdeithasol hefyd yn cynnwys cael mynediad at gymorth ar faterion megis dyled a thai yn ogystal â gweithgareddau megis celf a grwpiau cymdeithasol. Mae dystiolaeth yn awgrymu y gall cael mynediad rhwydd at gymorth a threulio hyd yn oed ychydig o amser yn

⁹ D MacBride-Stewart, S. a Dr Parken, A. (2021). Inequalities in a Future Wales: Areas for action in work, climate and demographic change – Full Report. [Ar-lein]. Ar gael ar: [Future Trends and Inequalities in Wales \(futuregenerations.wales\)](https://futuregenerations.wales/) (Cyrchwyd: 07.02.2021).

yr awyr agored fod yn fuddiol, gan arwain ymchwilwyr i alw ar bawb i gael 'dos o natur' bob dydd. Mae ymchwil hefyd wedi dangos bod yr enillion cymdeithasol ar fuddsoddi mewn gwirfoddoli gwyrdd yn rhagorol.

- Bu diddordeb yn ddiweddar ym maes iechyd y cyhoedd mewn effeithiau cadarnhaol bod yn agos i'r arfordir ar iechyd a llesiant. Gyda phrofiad sylweddol o bresgripsiynu cymdeithasol 'gwyrdd' lle mae pobl â phroblemau iechyd meddwl megis iselder, gorbryder a phroblemau gyda defnyddio sylweddau yn cael eu cyfeirio at weithgareddau seiliedig ar natur. Fel sir arfordirol cydnabyddir potensial presgripsiynu cymdeithasol 'glas', megis therapi syrffio i hybu cysylltiad cymdeithasol, iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol.

Ein huchelgeisiau hir-dymor:

- Rhoi sylw i anghydraddoldebau daearyddol trwy waith seiliedig ar le sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned er mwyn sicrhau grymuso hirdymor.
- Gwella mynediad anghyfartal at fwyd iach a gweithio i wella cynaliadwyedd y system fwyd yng Ngheredigion.
- Presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd a glas, a ddarperir gan wasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda, yw'r dull atgyfeirio arferol a derbyniol ar gyfer gwella iechyd.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo potensial cysylltedd digidol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- 2.1 Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. Bydd hyn yn cynnwys:

- 2.1.1 Cynnal astudiaeth waelodlin gychwynnol gyda ffocws ar fynd i'r afael â chaledi. Parhau i ganolbwyntio ar ddangosyddion caledi allweddol – amddifadedd, credyd cynhwysol, incwm aelwydydd, tlodi plant, cyflogaeth a swyddi, banciau bwyd, tai, diogelwch cymunedol, gwres/tanwydd.
- 2.1.2 Defnyddio dull ar gyfer Datblygu Cymunedol sy'n seiliedig ar Asedau i helpu i gysylltu pobl, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd, plant a phobl ifanc, er mwyn helpu i greu mwy o berthnasoedd yn seiliedig ar breswlydd i breswlydd, gan adeiladu ar gyd-ddibyniaeth a dibyniaeth ar ei gilydd. Mae cysylltu pobl â'u diddordebau cyffredin a'u galluogi i gyfnewid sgiliau ac adnoddau yn helpu cymunedau i nodi a gweithredu ar y materion sydd bwysicaf iddyn nhw.
- 2.1.3 Mapio asedau ac adnoddau ar draws y gymuned gyfan a nodi bylchau posibl ar gyfer gweithredu ataliol, yn ogystal â chyfleoedd cyfredol a chyfleoedd posib ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, gwyrdd a glas; integreiddio gwaith y rhagnodwyr cymdeithasol a chysylltwyr cymunedol ymhellach.
- 2.1.4 Bydd dysgu o'r dull hwn yn galluogi i ddulliau tebyg gael eu defnyddio mewn meysydd eraill ac yn cyfrannu at well cyfranogiad gyda chymunedau.
- 2.2 Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno.
- 2.3 Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella manau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella manau cymunedol.
- 2.4 Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r seilwaith digidol a chysylltiadau.
- 2.5 Defnyddio dull partneriaethol o gynyddu'r nifer o'r genhedlaeth bresennol a chenhedlaeth y dyfodol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar draws y sir, gyda chysylltiadau priodol wedi'u gwneud i gael mynediad i fannau gwyrdd.
- 2.6 Bydd Cyrff Cyhoeddus trwy waith y BGC yn canolbwyntio ar ac yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag lechyd a Lles.

Amcan llesiant 3:

Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

Pam yr amcan hwn:

4.3 Rhaid i gyflogeion bob amser gofio eu cyfrifoldeb tuag at y gymuned a wasanaethant gan sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau cwrtais, effeithiol a diduedd i bob grŵp a phob person yn y gymuned honno yn unol â Pholisïau'r Cyngor.

4.4 Dylai cyflogeion sicrhau eu bod yn defnyddio arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon a rhaid iddynt beidio â defnyddio eiddo, cerbydau na chyfleusterau eraill y Cyngor er defnydd personol oni bai yr awdurdodwyd hynny.

4.5 Rhaid i gyflogeion hefyd fod yn ymwybodol o Strategaeth y Cyngor o ran Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian), sydd ar gael ar wefan y Cyngor, a

chadw ati.

- 4.6 Yn amodol ar 4.9 isod, os bydd Cyflogai yn dod yn ymwybodol o weithgareddau y mae'r Cyflogai yn credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol, neu fel arall yn anghyson â'r Cod Ymddygiad hwn, rhaid i'r Cyflogai roi gwybod am y mater ar unwaith i'w Reolwr Llinell neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn gweithredu yn unol â hawliau'r Cyflogai o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, a Pholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor (gweler 4.7 isod).
- 4.7 Os bydd Cyflogai yn dod yn ymwybodol o weithgareddau y mae'r Cyflogai yn credu eu bod yn torri Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor, rhaid i'r Cyflogai godi pryder a dilyn y gweithdrefnau a amlinellir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.
- 4.8 Os bydd Cyflogai yn dod yn ymwybodol o weithgareddau y mae'r Cyflogai yn credu eu bod yn anghyson â Strategaeth y Cyngor o ran Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian), rhaid i'r Cyflogai roi gwybod am y mater ar unwaith gan ddefnyddio'r weithdrefn rhoi gwybod a amlinellir yn Strategaeth y Cyngor o ran Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian).
- 4.9 Os bydd Cyflogai yn dod yn ymwybodol o weithgareddau y mae'r Cyflogai yn credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol, neu fel arall yn anghyson â'r Cod Ymddygiad hwn AC yn ymwneud â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, rhaid i'r Cyflogai ddilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau a amlinellir ym Mholisi a Chanllawiau'r Cyngor ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl ('y Polisi Diogelu').
- 4.10 Os bydd Cyflogai yn dod yn ymwybodol o weithgareddau y mae'r Gweithiwr yn credu eu bod yn anghyson â Pholisi Caethwasiaeth Fodern y Cyngor, rhaid i'r Cyflogai roi gwybod amdanynt yn unol â Pholisi Caethwasiaeth Fodern y Cyngor a gweithdrefnau cysylltiedig.
- 4.11 Mae gan gyflogeion ddyletswydd i sicrhau cydymffurfedd â'r gyfraith a dylai Cyflogeion fod yn ymwybodol y bydd achosion o gamymddygiad yn cael eu trin yn gyflym ac y gallai hynny arwain at y Cyflogai yn wynebu camau disgyblu, camau eraill yn unol â Pholisïau adnoddau dynol y Cyngor ac, yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r dystiolaeth sydd ar gael, gellir cyfeirio'r ymchwiliad at yr Heddlu neu gorff allanol priodol arall.

5. Niwtraliaeth Wleidyddol

- 5.1 Lle mae Cyflogeion dan gyfyngiadau gwleidyddol (oherwydd y swydd sydd ganddynt, natur y gwaith a wnânt, neu'r cyflog a delir iddynt), rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.
- 5.2 Rhaid i gyflogeion hefyd fod yn ymwybodol o Bolisi'r Cyngor ar Gyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol (y 'Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol') a chadw ato, gan gynnwys y cyfyngiadau arnynt pe baent yn dal swydd Benodol neu Sensitif, fel y'i diffinnir yn y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol. Dylai cyflogeion fod yn ymwybodol hefyd y gall unrhyw doriad o gyfyngiadau gael ei ystyried yn drosedd yr ymdrinnir â hi yn unol â gweithdrefn ddisgyblu'r Cyngor.
- 5.3 Dylai cyflogeion fod yn ymwybodol eu bod yn gwasanaethu'r Awdurdod Lleol yn ei gyfanrwydd. Maent yn atebol i'r Cyngor ac yn ddyledus iddo. Mae'n dilyn yn hyn o beth bod rhaid iddynt wasanaethu'r Aelodau i gyd ac nid dim ond y rhai sydd yn y grŵp rheoli a rhaid

Tudalen 153

iddynt sicrhau eu bod yn parchu hawliau unigol pob Aelod.

5.4 Yn amodol ar reolau a osodir o bryd i'w gilydd, gallai fod yn rhaid i gyflogeion ddarparu gwybodaeth neu eglurhad i grwpiau gwleidyddol. Rhaid iddynt wneud hynny mewn modd sy'n gyson â niwtraliaeth wleidyddol y Cyflogai.

5.5 P'un a yw Cyflogeion wedi'u cyfyngu'n wleidyddol gan y gyfraith ai peidio, rhaid iddynt ddilyn polisiau'r Cyngor a fynegwyd yn gyfreithlon a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol eu hunain ymyrryd â'u gwaith.

5.6 Mae Cyflogai sy'n dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol wedi'i wahardd rhag dod yn aelod neu barhau'n aelod o awdurdod perthnasol (gweler Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol y Cyngor ar fewnwyd y Cyngor (Cerinet)).

6. Buddiannau Personol

6.1 Er mai eu pryder eu hunain yw bywydau preifat Cyflogeion, ni ddylent ganiatáu i'w buddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Rhaid iddynt beidio â chamddefnyddio eu swydd swyddogol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod eu cyflogaeth er budd personol i hybu eu buddiannau preifat, neu fuddiannau pobl eraill, megis eu perthnasau agos a'u cymdeithion, nac i achosi anfantais i unrhyw berson neu sefydliad. Rhaid i gyflogeion beidio â throsglwyddo unrhyw wybodaeth a gafwyd yn ystod eu cyflogaeth i eraill.

6.2 Rhaid i gyflogeion wneud datganiad ynghylch unrhyw fuddiant personol gwirioneddol neu fuddiannau personol posibl drwy lenwi'r ffurflen Datgan Buddiannau sydd ar gael ar fewnwyd y Cyngor (Cerinet). Dylai cyflogeion hefyd ddatgan unrhyw fuddiannau o'r fath yn ysgrifenedig i'w Rheolwr Llinell.

6.3 Wrth gwblhau'r Ffurflen Datgan Buddiannau, bydd yn ofynnol i'r Cyflogai ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ar gael iddo ar yr adeg honno er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a oes gwrthdaro (neu wrthdaro posibl) buddiannau â'i gyflogaeth/rôl fel Cyflogai'r Cyngor.

6.4 Rhaid i'r Cyflogai ddatgan yr holl fuddiannau fel y'u rhestrir o dan 6.4.1 i 6.4.13 isod. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r Cyflogai ddatgan buddiant o dan 6.4.14 os yw'r buddiant yn un y byddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol a allai achosi gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor.

6.4.1 Swydd cyfarwyddwyr â thaliad cydnabyddiaeth ar gyfer cwmnïau (cyhoeddus neu breifat);

6.4.2 a) Perthynas ag aelodau agos o'r teulu/cymdeithion personol agos/partïon cysylltiedig sy'n gyflogeion/swyddogion y Cyngor neu athrawon o fewn ysgolion y Sir.

Os ydynt yn Brif Swyddog (Iefel Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu uwch) nodwch:

- eu henw;
- eu rôl; ac
- eich perthynas â nhw.

b) Perthynas ag aelodau agos o'r teulu/cymdeithion personol agos/partïon cysylltiedig sy'n Gynghorydd y Cyngor.

Nodwch eu:

- henw

Tudalen 154

- ward

- 6.4.3 Cyflogaeth, swyddogaethau, swyddi neu broffesiynau â thaliad cydnabyddiaeth (ac eithrio Cyngor Sir Ceredigion);
 - 6.4.4 Manylion contractwyr allanol, neu gontractwyr posibl i'r Cyngor, a reolir neu a redir gan gymdeithion personol agos/teulu (gan gynnwys aelodau o'u haelwyd) neu y mae'r Cyflogai wedi bod neu y mae ganddo bellach gysylltiad agos ag ef (gan roi manylion);
 - 6.4.5 Aelodaeth o unrhyw sefydliad nad yw'n agored i'r cyhoedd heb aelodaeth ffurfiol ac ymrwymiad teyrngarwch ac sy'n gyfrinachol ynghylch rheolau aelodaeth neu ymddygiad;
 - 6.4.6 Aelodaeth o unrhyw gymdeithas (gweler hefyd 7. isod), plaid neu sefydliad y mae ei nodau a/neu gyfansoddiad yn gwrthdaro ag unrhyw Reol Gyfreithiol neu'r Polisi Cyfle Cyfartal a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
 - 6.4.7 Manylion unrhyw nawdd a roddwyd i'r Cyflogai neu unrhyw gydymaith personol agos/teulu (gan gynnwys aelodau o'u haelwyd) gan sefydliad allanol sy'n debygol o fod yn ymwneud â'r Cyngor;
 - 6.4.8 Manylion unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned y mae'r Cyflogai neu unrhyw gydymaith personol agos/teulu (gan gynnwys aelodau o'u haelwyd) yn dal swydd Clerc neu Aelod;
 - 6.4.9 Manylion am aelodaeth y Cyflogai o unrhyw gyrff llywodraethu (gan gynnwys ysgolion) neu sefydliadau eraill sy'n debygol o ymwneud â'r Cyngor;
 - 6.4.10 Swyddi o gyfrifoldeb mewn unrhyw gymdeithasau, clybiau, undebau llafur neu sefydliadau eraill (ac eithrio Undebau Llafur cydnabyddedig Cyflogeion) lle gallai gweithredoedd y Cyngor effeithio ar fuddiannau cyrff o'r fath;
 - 6.4.11 Enwau unrhyw gwmni neu gorff arall (sy'n debygol o ymwneud yn sylweddol â'r Cyngor) y mae'r Cyflogai, neu aelod agos o'r teulu, neu unrhyw berson neu sefydliad sy'n gweithredu ar ran y Cyflogai ar fwrdd (cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr), neu sy'n aelod o bwyllgor rheoli neu grŵp rheoli'r cwmni neu gorff arall.
 - 6.4.12 Enwau unrhyw gwmni neu gorff arall (sy'n debygol o fod yn ymwneud â'r Cyngor) lle mae'r Cyflogai, neu aelod agos o'r teulu (boed hynny yn ei rinwedd ei hun neu ar ran ei blant bach), neu unrhyw berson neu sefydliad sy'n gweithredu ar ran y Cyflogai, sydd â buddiant llesionol mewn cyfranddaliadau gwerth enwol o fwy na £25,000 neu fwy nag 1% o'r holl gyfranddaliadau a ddyroddwyd;
 - 6.4.13 Perchenogaeth tir o fewn y Sir yn fwy na 5 erw; ac
 - 6.4.14 Unrhyw fuddiannau eraill (boed yn ariannol neu heb fod yn ariannol), y byddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth o'r ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol a allai achosi gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor.
- 6.5 Wrth wneud datganiad, dylai'r Cyflogai roi unrhyw fanylion perthnasol, megis enw'r Cwmni, Cyngor, neu sefydliad perthnasol, perthynas/rôl y Cyflogai (neu gydymaith personol agos/aelod o'r teulu) (e.e. Cynghorydd neu Glerc Cynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â dyddiad yr etholiad neu'r penodiad cyntaf), a'r berthynas â'r cydymaith personol agos (e.e. ffrind/aelod o'r teulu/aelod o'r aelwyd). Mae'r ddyletswydd hon yn ychwanegol at unrhyw ddatganiad i unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned priodol.
 - 6.6 Gofynnir i'r Cyflogai ddatgan bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, a rhoi cyfeiriad ei e-bost, a ddefnyddir fel llofnod.
 - 6.7 Unwaith y bydd y Cyflogai wedi llenwi'r Ffurflen Datgan Buddiannau cynhyrchir derbynneb arnodedig o'r ffurflen a bydd yn cael ei chofnodi yn y Gofrestr Ganolog o Ddatganiadau. Mae rhagor o fanylion am sut i ddatgan buddiannau a mynediad at y Ffurflen Datgan Buddiannau i'w gweld ar Fewnwyd y Cyngor o dan 'Polisiâu a Gweithdrefnau' (o dan y

Tudalen 155

pennawd 'Polisi Datgan a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau').

- 6.8 Os yw'r Cyflogai yn ansicr a fyddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol y gallai'r buddiant achosi gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor, rhaid iddynt wneud y datganiad a gallant gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor. Mae angen y rhagdybiaeth tuag at ddatgan buddiant er mwyn nid yn unig amddiffyn y Cyngor ond hefyd y Cyflogai ac er mwyn tryloywder.
- 6.9 Nid yw'r gofyniad i wneud datganiad yn golygu y bydd y Cyflogai yn cael ei atal rhag ymwneud â darn penodol o waith sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddiant a ddatganwyd, gan y gellid dod i'r casgliad nad oes gwrthdaro, ond bydd angen i hyn gael ei ystyried yn ofalus gan y Swyddog Monitro a/neu Reolwr Corfforaethol y Cyflogai (yn hytrach na'r Cyflogai), a all benderfynu y dylid osgoi'r gwrthdaro mewn rhyw ffordd arall. Dylai cyflogeion gyfeirio at adran 18.1 isod am arweiniad ar fuddiannau personol sy'n ymwneud â chyflogaeth arall. Oni bai bod ei Reolwr Corfforaethol yn hysbysu'n wahanol, os oes gan Gyflogai fuddiant mewn eitem dan sylw, ni ddylai'r Cyflogai hwnnw gymryd unrhyw ran mewn unrhyw drafodaethau ar y mater hwnnw.
- 6.10 Wrth ystyried a fyddai'n rhesymol gweld gwrthdaro buddiannau â buddiannau'r Cyngor (gan aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol) rhaid cofio bod y cyhoedd yn gweld y Cyngor fel un sefydliad, nid set o isadrannau ac adrannau ar wahân. Y nod o ddatgan gwrthdaro buddiannau posibl yw bod y Cyngor a'r Cyflogai i'w gweld uwchlaw unrhyw bosibilrwydd o amheuaeth o ddylanwad gormodol.
- 6.11 Mae gan gyflogeion ddyletswydd barhaus drwy gydol eu cyflogaeth i ystyried a datgan unrhyw fuddiannau personol o'r fath. Rhaid i Brif Swyddogion wneud datganiadau blynyddol (hyd yn oed os mai dim ond i gadarnhau nad yw'r buddiannau wedi newid).
- 6.12 Caiff y Swyddog Monitro wneud ymholiad ynghylch unrhyw ddatganiad yn ôl yr angen, er mwyn ystyried a oes gwrthdaro (neu wrthdaro posibl) buddiannau ac a ddylai'r Cyflogai roi'r gorau i ymwneud ag unrhyw ddarn penodol o waith sy'n achosi (neu a allai achosi) y gwrthdaro, neu a ddylid osgoi'r gwrthdaro mewn rhyw ffordd.
- 6.13 Bydd y Swyddog Monitro yn ystyried a oes angen hysbysu Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Cyflogai a/neu'r Rheolwr Llinell am unrhyw rai o'r datganiadau, a bydd yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddatganiadau o'r fath, os ystyrir bod angen. Wrth ystyried a oes angen hysbysu Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Cyflogai a/neu'r Rheolwr Llinell, bydd y Swyddog Monitro yn ystyried unrhyw sail gyfreithlon dros ddatgelu'r wybodaeth gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddeddfwriaeth Diogelu Data.

7 Cymdeithasau Cudd

- 7.1 Rhaid i gyflogeion ddatgan unrhyw aelodaeth o gymdeithasau cudd (gweler hefyd 6.4.6 uchod). Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfrinfa, cabidwl, cymdeithas, ymddiriedolaeth neu gynulliad neu gyfarfod rheolaidd (ac eithrio cymdeithas broffesiynol), sydd:
- 7.1.1 Ddim yn agored i aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn aelodau o'r gyfrinfa, y cabidwl, y gymdeithas neu'r ymddiriedolaeth honno; a/neu
- 7.1.2 Sy'n cynnwys yn y grant aelodaeth rwymedigaeth ar ran yr aelod i wneud ymrwymiad (boed trwy lw neu fel arall) o deyrngarwch i'r gyfrinfa, cabidwl,

Tudalen 156

cymdeithas, cynulliad neu gyfarfod; ac

- 7.1.3 Sy'n cynnwys, p'un ai i ddechrau neu wedyn, ymrwymiad (boed trwy lw neu fel arall) o gyfrinachedd ynghylch rheolau, aelodaeth neu ymddygiad y gyfrinfa, cabidwl, cymdeithas, ymddiriedolaeth, cynulliad neu gyfarfod.

8 Contractwyr

- 8.1 Rhaid i bob perthynas o natur fusnes neu breifat gyda chontractwyr allanol, neu gontractwyr posibl, gael ei datgan gan y Cyflogai. Rhaid rhoi archebion a chontractau yn unol â Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog Contractau (neu Reolau Gweithdrefnau Contractau) y Cyngor ar sail rhinweddau, drwy gystadleuaeth deg ac agored yn erbyn tendrau eraill ac ni ddylid dangos dim ffafr arbennig i fusnesau gan, er enghraifft, ffrindiau, cymheiriaid, perthnasau agos neu gyfranogion yn y broses dendro. Ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn dim un rhan o'r gymuned leol.
- 8.2 Rhaid i gyflogeion sy'n cyflogi neu yn goruchwyllo contractwyr neu sydd ag unrhyw berthynas swyddogol arall â chontractwyr ac sydd ar hyn o bryd, neu a fu gynt, â pherthynas â chontractwyr yn rhinwedd cymhwysedd breifat neu ddomestig, ddatgan y berthynas honno.

9 Gwasanaethau'r Cyngor a Swyddogaethau Rheoleiddiol

- 9.1 Mae'r un egwyddorion y cyfeirir atynt yn 6. uchod (h.y. rhaid i gyflogeion ddatgan buddiant, p'un a yw'r buddiant yn un y byddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth o'r ffeithiau perthnasol yn rhesymol yn ystyried a allai achosi gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor) yn berthnasol i:
- 9.1.1 Wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu neu lle mae gan y Cyngor swyddogaeth reoleiddiol h.y. rhaid i'r Cyflogeion, cyn gynted â phosibl, ddatgan a rhoi gwybod hefyd am bob perthynas o natur fusnes neu breifat sydd ganddynt â busnesau, sefydliadau neu unigolion y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer neu'n gweithredu mewn swyddogaeth reoleiddiol;
- 9.1.2 Cyflogeion sydd â buddiannau mewn cwmnïau, busnesau neu ffyrmïau y mae'r Cyngor yn contractio â nhw, neu sy'n darparu gwasanaeth i'r Cyngor gan gynnwys Cyflogeion sydd eu hunain, neu eu cymdeithion personol agos/perthnasau agosaf (gan gynnwys aelodau o'u haelwyd) yn gyfarwyddwyr cwmni, yn bartneriaid mewn partneriaeth, unig fasnachwyr a/neu sydd â buddiant mewn busnesau neu sefydliadau o'r fath; a
- 9.1.3 Chyflogeion sydd eu hunain (neu, hyd eithaf eu gwybodaeth, eu cymdeithion personol agos/perthnasau agosaf (gan gynnwys aelodau o'u haelwyd)) yn ymwneud â rhedeg a/neu reolaeth gyffredinol busnes neu sefydliad sydd wedi gwneud cais am gyllid, benthyciadau neu grantiau gan y Cyngor, gan gynnwys, er enghraifft, Grantiau Llywodraeth Cymru a weinyddir gan y Cyngor.
- 9.2 Ni fydd cyflogeion yn argymhell dim busnesau penodol a ddefnyddir gan unigolion neu fusnesau eraill, lle gallai hyn gael ei gamddechongli fel argymhelliad y Cyngor neu argymhelliad gan y Cyflogai yn rhinwedd ei swydd.
- 9.3 Mae'r busnesau a'r sefydliadau y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gwmnïau preifat, cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus, partneriaethau, partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig, unig fasnachwyr, cwmnïau daliannol, is-gwmnïau,

cymdeithasau ac elusennau.

9.4 Gall y Gyflogai hefyd gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor pellach.

10 Gwahanu Rolau yn ystod Tendro

- 10.1 Dylai cyflogeion sy'n ymwneud â'r broses dendro ac sy'n delio â chontractwyr fod yn glir ynghylch gwahanu rolau cleientiaid a chontractwyr o fewn y Cyngor. Rhaid i Uwch Gyflogeion sydd â chyfrifoldeb am gleientiaid a chontractwyr fod yn ymwybodol o'r angen am atebolrwydd ac am fod yn agored.
- 10.2 Rhaid i gyflogeion sydd mewn unedau contractwyr neu gleientiaid fod yn deg, yn dryloyw ac yn ddiuedd ynghyd â gweithredu yn foesebol wrth ymdrin â phob cwsmer, cyflenwr, contractwr arall ac is-contractwr.
- 10.3 Ni ddylai cyflogeion sy'n cael gwybod gwybodaeth gyfrinachol am dendrau a chostau contractwyr mewnol ac allanol ddatgelu'r wybodaeth honno i ddim un parti na sefydliad sydd heb awdurdod i wybod.
- 10.4 Dylai unrhyw Gyflogai sy'n ystyried pryniant contractwr gan reolwyr, cyn gynted ag y byddant wedi ffurfio bwriad pendant, hysbysu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol priodol a thynnu'n ôl o'r prosesau dyfarnu contract.
- 10.5 Dylai cyflogeion sicrhau na ddangosir dim ffafr arbennig i gyflogeion presennol na chyn gyflogeion diweddar na'u cymheiriaid, perthnasau agos na chyfranogion wrth roi contractau i fusnesau y mae'r rheini yn eu cynnal na'u cyflogi mewn swydd reoli uchel neu berthnasol.

11. Penodiadau a Materion eraill â wnelo â Chyflogi

- 11.1 Rhaid i gyflogeion sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi Staff sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posib o ddangos tuedd, rhaid i gyflogeion beidio â phenodi na gwneud penderfyniadau eraill parthed disgyblu, dyrchafu na thâl nac amodau Cyflogai arall, na darpar Gyflogai sy'n perthyn iddynt neu lle y mae ganddynt berthynas bersonol agos y tu allan i'r gwaith.
- 11.2 Ni fydd cyflogeion yn canfasio unrhyw Aelod na Swyddog y Cyngor parthed ymgeiswyr sy'n chwilio am waith gyda'r Cyngor.
- 11.3 Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â Pholisi Recriwtio a Dethol y Cyngor.

12 Materion Cydraddoldeb

- 12.1 Rhaid i bob un o Gyflogeion llywodraeth leol gydymffurfio â pholisïau cydraddoldeb, fel y'u cytunwyd gan y Cyngor, yn ogystal â gofynion y gyfraith. Mae hawl gan bob aelod o'r gymuned leol, cwsmeriaid a Chyflogeion eraill gael eu trin yn deg ac yn gydradd. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddai'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae gwybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ar gael ar fewnwyd Ceredigion (Cerinet) o dan yr adran 'Polisïau a Gweithdrefnau'.

13 Llygredd

- 13.1 Rhaid i gyflogeion sydd yn rhinwedd eu cymhwysedd swyddogol fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd ddifrifol o dan y Deddfau Atal Llygredd iddynt dderbyn neu roi unrhyw roddion, benthyciadau, ffioedd, gwobrwyon neu unrhyw fantais arall am wneud neu beidio â gwneud rhywbeth neu ddangos ffafr neu anffafr tuag at unrhyw berson neu sefydliad.
- 13.2 Mae llygredd yn ymwneud ag amrywiaeth eang o ymddygiad anfoesegol ac mae'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gamddefnyddio pŵer yr ymddiriedwyd er budd preifat a chynnig, rhoi, derbyn neu ofyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw beth o werth i ddylanwadu'n amhriodol ar weithredoedd parti arall. Rhaid i gyflogeion roi gwybod am y mater yn brydlon yn unol â Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo'r Cyngor (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) os:
 - 13.2.1 Yw'r Cyflogai yn amau a oes gweithred o lygredd wedi digwydd, yn digwydd neu'n gallu digwydd (gweithred o lygredd bosibl);
 - 13.2.2 Bydd unrhyw un yn cysylltu â Chyflogai a'i bod yn ymddangos (neu a allai ymddangos i drydydd parti) mai'r nod yw cael rhyw fath o driniaeth ffafraethol neu, o dan unrhyw amgylchiadau amheus, mewn cysylltiad â gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor, un o swyddogaethau rheoleiddio'r Cyngor neu gontract, er diogelwch y Cyflogai ei hun; neu
 - 13.2.3 Mae'r Cyflogeion yn amau gweithgaredd gwyngalchu arian, twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd.
- 13.3 Wrth godi pryderon ynghylch twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, dylai Cyflogeion nodi y bydd eu pryderon yn cael eu trin yn gyfrinachol, cyn belled ag y bo modd. Rhaid bod ag amheuaeth o gamwedd yn rhesymol a bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw honiad o unrhyw fath, gan gynnwys llythyrau dienw neu alwadau ffôn, yn cael ei ystyried ac yr ymchwilir iddo'n drylwyr mewn modd priodol.
- 13.4 Bydd y Cyngor yn ymdrin yn gyflym ac yn drylwyr ag unrhyw achosion o gamymddygiad a gall Cyflogeion wynebu camau disgyblu neu gamau eraill yn unol â Pholisïau Adnoddau Dynol y Cyngor. Gellir cymryd camau disgyblu neu gamau eraill yn ychwanegol at, neu yn lle, achos troseddol (mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol), yn unol â Pholisi Disgyblu'r Cyngor, sydd ar gael ar Fewnwyd y Cyngor (Cerinet).

14 Defnyddio Adnoddau Ariannol

- 14.1 Rhaid i gyflogeion sicrhau eu bod yn defnyddio arian cyhoeddus a ymddiriedir iddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon fel bod y Cyngor yn cael gwerth am arian ac yn osgoi her gyfreithiol i'r Cyngor, a rhaid iddynt beidio â defnyddio eiddo, cerbydau neu gyfleusterau eraill y Cyngor at ddefnydd personol oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi i wneud hynny.
- 14.2 Rhaid i gyflogeion ddatgan buddiant a pheidio â bod yn rhan o unrhyw drafodiadau ariannol sy'n ymdrin ag arian cyhoeddus y mae ganddynt hwy, neu unrhyw bartner, priod, perthynas agos neu gydymaith fuddiant personol neu ariannol ynddynt.
- 14.3 Mae buddiant personol neu ariannol yn cynnwys unrhyw fusnes neu sefydliad y mae'r Cyflogai, ei bartner, priod, perthynas agos neu gydymaith (gan gynnwys aelodau o'u haelwyd) yn gyfarwyddwr cwmni, yn bartner (ar gyfer partneriaeth), neu'n unig fasnachwr, neu sy'n ymwneud â rhedeg a/neu reolaeth gyffredinol busnes neu sefydliad sydd wedi

Tudalen 159

gwneud cais am gyllid, benthyciadau neu grantiau gan y Cyngor, gan gynnwys, er enghraifft, Grantiau Llywodraeth Cymru a weinyddir gan y Cyngor.

- 14.4 Dylai rheolwyr sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu o fewn unrhyw drafodiad ariannol a drefnir gan ddefnyddio arian cyhoeddus, drwy sicrhau bod o leiaf ddau gyflogai yn rhan o'r broses. Ar ben hynny, dylai'r trafodiadau hyn hefyd gael eu gwirio gan Swyddog annibynnol.

15 Lletygarwch/Rhoddion

Rhoddion

- 15.1 Rhaid i gyflogeion fod yn ymwybodol y gall unrhyw un y maent yn ymwneud ag ef roi rhoddion a/neu letygarwch a thrwy wneud hynny efallai y byddant yn ceisio dylanwadu ar Gyflogeion y Cyngor. Er mwyn cynnal tryloywder, uniondeb ac ymddiriedaeth y cyhoedd, cydweithwyr a phob cyflenwr, ni ddylai Cyflogeion fel arfer dderbyn unrhyw roddion neu letygarwch.
- 15.2 Cyflogeion:
- 15.2.1 ni ddylent dderbyn rhoddion personol gwerth mwy na £10 ('rhoddion sylweddol') gan contractwyr, cyflenwyr allanol, sefydliadau neu unigolion eraill.
- 15.2.2 gallant gadw rhoddion o werth symbolaidd megis beiros, dyddiaduron, siocledi, gwin ac ati hyd at £10 ('rhoddion di-nod') gan contractwyr, cyflenwyr allanol, sefydliadau eraill, unigolion neu ffynonellau ('rhoddwyr').
- 15.3 Cyfrifoldeb y Cyflogai yw ystyried a oes gan rodd werth sylweddol (mwy na £10). Rhaid i'r Cyflogai wneud ymholiadau rhesymol i ganfod gwerth y rhodd. Gallai camau o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, chwilio ar y rhynggrwyd/ymchwilio i werth y rhodd.
- 15.4 Ni ddylai cyflogeion dderbyn sawl rhodd ddi-nod gan yr un rhoddwr/rhoddwyr, gan y byddai'r rhain yn gyfystyr â rhoddion personol sylweddol o'u hystyried gyda'i gilydd e.e. mwy na 3 rhodd yn ystod cyfnod o 1 flwyddyn.
- 15.5 Ni ddylai cyflogeion dderbyn dim rhoddion gan contractwyr neu gyflenwyr y Cyngor yn ystod (neu'n arwain at) adnewyddu contractau/prosesau tendro.
- 15.6 Rhaid i'r Cyflogai wneud Datganiad ym mhob amgylchiad, beth bynnag fo gwerth y rhodd.

Lletygarwch

- 15.7 Cyflogeion:
- 15.7.1 dylent yn gyffredinol wrthod pob cynnig o letygarwch lle bynnag y bo modd.
- 15.7.2 gallant dderbyn lletygarwch gwerth £10 neu lai ('lletygarwch di-nod').
- 15.7.2 ni ddylent dderbyn lletygarwch gwerth mwy na £10 ('lletygarwch sylweddol') oni bai bod angen gwirioneddol ac annatod i gynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiad neu yn y gymuned a'u bod wedi cael caniatâd eu Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu eu Rheolwr

Tudalen 160

Corfforaethol.

- 15.8 Ni ddylai cyflogeion dderbyn sawl cynnig o letygarwch gan yr un rhoddwr/rhoddwyr, gan y byddai'r rhain yn gyfystyr â lletygarwch sylweddol o'u hystyried gyda'i gilydd e.e. mwy na 3 chynnig o letygarwch yn ystod cyfnod o 1 flwyddyn.
- 15.9 Ni ddylai cyflogeion dderbyn unrhyw letygarwch gan contractwyr neu gyflenwyr y Cyngor yn ystod (neu yn arwain at) adnewyddu contractau/prosesau tendro.
- 15.10 Rhaid datgan pob lletygarwch a dderbynnir.
- 15.11 Cyfrifoldeb y Cyflogai yw ystyried a oes gan gynnig lletygarwch werth sylweddol (mwy na £10). Rhaid i'r Cyflogai wneud ymholiadau rhesymol i ganfod gwerth y lletygarwch. Gallai camau o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, chwilio ar y rhyngwyd/ymchwilio i werth y lletygarwch.
- 15.12 Os oes amheuaeth a oes angen gwirioneddol ac annatod i dderbyn y lletygarwch, dylai'r Cyflogai wirio gyda'r Swyddog Monitro (gweler hefyd enghreifftiau derbyniol yn 15.16 isod).
- 15.13 Pan fydd yn rhaid gwrthod lletygarwch, dylai'r sawl sy'n cynnig lletygarwch gael ei hysbysu'n gwrtais ond yn gadarn o'r gweithdrefnau a'r safonau sy'n gweithredu o fewn y Cyngor.
- 15.14 Wrth dderbyn lletygarwch a awdurdodir, dylai Cyflogeion fod yn enwedig o sensitif ynghylch yr amseriad a dirnadaeth y cyhoedd parthed y penderfyniadau a wna'r Cyngor a allai fod yn effeithio ar y sawl sy'n darparu'r lletygarwch.
- 15.15 Mae'n dderbyniol bod Cyflogeion yn derbyn lletygarwch o fynychu cynadleddau a chyrsgiau perthnasol lle y bo'n amlwg mai lletygarwch corfforaethol ac nid personol yw hwnnw, lle bo'r rheolwr llinell yn rhoi cydsyniad ymlaen llaw a lle bo'r Cyngor yn fodlon nad yw hynny'n peryglu unrhyw benderfyniadau i brynu pethau. Lle bo rhaid wrth ymweliadau i arolygu offer etc, rhaid i Gyflogeion sicrhau mai'r Cyngor sy'n diwallu costau'r fath ymweliadau i osgoi peryglu uniondeb y broses o wneud penderfyniadau diweddarach yng nghyswllt prynu pethau.
- 15.16 Mae enghreifftiau derbyniol o letygarwch/rhoddion yn cynnwys:
- 15.16.1 Cynnig o ddiod ar ôl arolygu safle;
 - 15.16.2 Gwahoddiadau i fynychu digwyddiadau lle bo'r swyddog yn cynrychioli'r Cyngor, neu i ddigwyddiadau a fynychir yn rhinwedd ei swydd broffesiynol e.e. seremoni wobrwyo;
 - 15.16.3 Cinio gwaith o safon resymol a ddarperir er mwyn galluogi'r partion i ddal ati i drafod busnes; neu
 - 15.16.4 Rhoddion di-nod o werth symbolaidd megis beiros, dyddiaduron, siocledi, gwin, tocynnau ar gyfer digwyddiad ac ati hyd at £10.
- 15.17 Mae enghreifftiau annerbyniol o letygarwch/rhoddion yn cynnwys:

15.17.1 Gwyliau;

Tudalen 161

- 15.17.2 Gwahoddiadau personol i gael nosweithiau allan gyda chynrychiolwyr cwmni neu gwmni sy'n ymwneud â'r Cyngor;
- 15.17.3 Cynnig gwesty neu docynnau ar gyfer theatrau/digwyddiadau chwaraeon; neu
- 15.17.4 Y defnydd o eiddo cwmni.

15.18 Rhaid i unrhyw Gyflogai sy'n dymuno derbyn rhoddion/lletygarwch sicrhau bod Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion Cyflogeion y Cyngor wedi'i chwblhau'n llawn, sydd ar gael ar fewnwyd y Cyngor (Cerinet). Rhaid i gyflogeion gwblhau'r Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion, er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

15.19 Rhaid gwneud pob datganiad cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn y rhodd/lletygarwch ac o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith.

15.20 Wrth lenwi'r Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion, bydd yn ofynnol i'r Cyflogai roi unrhyw wybodaeth berthnasol, gan gynnwys:

- 15.20.1 Enw'r sefydliad sy'n darparu'r lletygarwch;
- 15.20.2 Y sefydliad sy'n noddi'r lletygarwch (os yw'n wahanol i'r uchod);
- 15.20.3 Y dyddiad y mae/derbyniwyd y lletygarwch;
- 15.20.4 Natur y digwyddiad a'r cyd-destun ar gyfer darparu'r lletygarwch/y darparuwyd y lletygarwch;
- 15.20.5 Enw unrhyw Gyflogai/Cyflogeion arall o Gyngor Sir Ceredigion a fydd yn mynychu'r/a fynychodd y digwyddiad;
- 15.20.6 Enw unrhyw sefydliad arall a fydd yn mynychu'r/a fynychodd y digwyddiad, os yw'n gysylltiedig â'r lletygarwch sydd i'w dderbyn/a dderbyniwyd;
- 15.20.7 Y math o letygarwch/rhodd a dderbyniwyd ac amcangyfrif o werth bras; ac
- 15.20.8 A awdurdodwyd derbyn y lletygarwch ymlaen llaw (ac os felly, rhoch fanylion a chofnodion).

15.21 Yn ogystal, gofynnir i'r Cyflogai yn y Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion ddatgan bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred (e-bost wedi'i roi fel llofnod).

15.22 Unwaith y bydd y Cyflogai wedi llenwi'r Ffurflen Datgan Lletygarwch a Rhoddion cynhyrchir derbynneb arnodedig o'r ffurflen. Bydd yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Ganolog o Ddatganiadau. Mae rhagor o fanylion am sut i gofrestru datganiadau lletygarwch a mynediad at y Ffurflen Datgan Lletygarwch ar gael ar Fewnwyd y Cyngor (Cerinet) o dan 'Polisiâu a Gweithdrefnau' (o dan y pennawd 'Polisi Datgan a Chofrestru Buddiannau Lletygarwch a Rhoddion').

16 Nawdd – Rhoi a Derbyn

- 16.1 Lle bo sefydliad allanol am noddi neu'n ceisio noddi gweithgaredd gan lywodraeth leol, mae'r confensiynau sylfaenol parthed derbyn rhoddion neu letygarwch yn berthnasol. Rhaid bod yn enwedig o ofalus wrth ymdrin â chontractwyr ac isgontractwyr.
- 16.2 Lle bo'r Cyngor yn dymuno noddi digwyddiad neu wasanaeth, ni ddylai Cyflogai nac unrhyw bartner, priod, perthynas agos neu gydymaith elwa o nawdd o'r fath mewn ffordd uniongyrchol, heb fod datgeliad llawn, a thrwy lenwi'r Ffurflen Datgan Buddiannau (ar gael ar Fewnwyd y Cyngor (Cerinet)). Yn yr un modd, lle bo'r Cyngor yn rhoi cymorth i'r gymuned ar ffurf nawdd, cymorth

Tudalen 162

grantiau, arian neu ddulliau eraill, dylai Cyflogeion sicrhau y rhoddir cyngor diduedd ac nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau.

- 16.3 Nid yw'r adran hon yn gosod unrhyw gyfyngiad ar allu Cyflogai i gyflawni ei weithgaredd elusennol ei hun y tu allan i ddyletswyddau ei gyflogaeth ac i chwilio am nawdd gan ei gydweithwyr ar gyfer gweithgaredd o'r fath.

17 Cyfrinachedd

- 17.1 Bod yn agored wrth ledaenu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ddylai fod yr arferiad yn y Cyngor. Serch hynny, gallai gwybodaeth benodol fod yn gyfrinachol neu sensitif ac yn amhriodol i gynulleidfa ehangach, gan gynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau eithriedig a adroddwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
- 17.2 Lle bo rhaid wrth gyfrinachedd i ddiogelu preifatrwydd neu hawliau eraill unigolion neu gyrff, ni ddylid datgelu gwybodaeth i neb heblaw am Aelod, Cyflogai neu berson arall sydd â'r hawl iddi, neu sydd angen mynediad ati i gyflawni eu dyletswyddau yn gywir.
- 17.3 Nid oes dim byd yn y Cod Ymddygiad hwn sy'n diystyru goblygiadau presennol yng nghyd-destun cyfraith gwlad a chyfraith statudol i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol nac i'w dadlennu.
- 17.4 Rhaid i gyflogeion na wyddant pa wybodaeth sy'n agored a pha wybodaeth sy'n peidio â bod geisio eglurhad gan eu Rheolwr Llinell a fydd yn ceisio cyngor y Swyddog Monitro a/neu'r Swyddog Diogelu Data, lle bo hynny'n briodol.
- 17.5 Rhaid i bob datganiad i'r wasg fynd trwy Dîm Cyfathrebu'r Cyngor neu yn eu habsenoldeb drwy'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol.

18 Cyflogaeth arall/Gwaith Preifat/Gweithgareddau Eraill

- 18.1 Gall Cyflogai sy'n dymuno cyflawni cyflogaeth arall wneud hynny dim ond os caniateir hynny gan Gontract ei Gyflogaeth a chan Lawlyfr y Cyflogeion. Os felly, rhaid i'r Cyflogai hysbysu ei Reolwr Llinell. Lle ystyrir bod gwrthdaro, cynhelir trafodaeth rhwng y Cyflogai, y Gwasanaeth ac Adnoddau Dynol i ystyried sut y gellir osgoi'r gwrthdaro. Ni ddylai unrhyw gyflogaeth arall effeithio ar y gwaith y mae'r Cyflogai yn ei wneud i'r Cyngor nac effeithio ar allu'r Cyflogai i wneud ei swydd. Rhaid iddo beidio â niweidio enw da'r Cyngor na chael effaith negyddol ar ei ddyletswyddau neu ei fuddiannau.
- 18.2 Ni all cyflogeion ymgymryd â chyflogaeth arall yn swyddfeydd y Cyngor ac ni ddylent ddefnyddio dim un o gyfleusterau'r Cyngor, er enghraifft, ffonau, cyfrifiaduron, argraffwyr, ffacsau, llungopiwyr ac ati.
- 18.3 Rhaid i gyflogeion beidio â chyflawni cyflogaeth arall yn ystod eu hamser gwaith cyflogedig. Os ydynt yn dymuno gwneud hynny, dylent drafod hyn gyda'u Rheolwr Corfforaethol ac Adnoddau Dynol.
- 18.4 Gall cyflogeion ddarparu gwasanaeth i sefydliadau gwirfoddol neu sefydliadau eraill yn ystod eu hamser eu hunain. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r gwasanaeth y mae'r Cyflogai yn ei ddarparu yn effeithio ar ei swydd nac ar enw da'r Cyngor. Rhaid i gyflogeion ddweud wrth

Tudalen 163

eu Rheolwr Llinell os ydynt yn darparu gwasanaeth i sefydliad lle gallai fod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'u cyflogaeth.

- 18.5 Rhaid i gyflogeion beidio â defnyddio eu swydd fel Cyflogai'r Cyngor i ffafrio unrhyw sefydliadau gwirfoddol neu sefydliadau eraill.
- 18.6 Rhaid i gyflogeion roi i'r Cyngor unrhyw arian a gânt am waith y maent yn ei wneud megis darlithoedd, darllediadau neu erthyglau cylchgrawn sy'n rhan o ddyletswyddau'r Cyflogai ac ni ddylent gadw dim taliad o dan amgylchiadau o'r fath, os yw'r sefydliad allanol yn rhoi taliad am amser y Cyflogai. Os yw'r Cyflogai yn cymryd rhan mewn digwyddiad o'r fath fel rhan o'i Gyflogaeth, rhaid trefnu unrhyw gostau/taliadau drwy'r Cyngor. Nid yw'n ofynnol i gyflogeion roi unrhyw arian a gânt i'r Cyngor am waith y maent yn ei wneud y tu allan i'w dyletswyddau fel Cyflogai yn eu hamser eu hunain.

19 Hawliau Patent

- 19.1 Mewn perthynas ag unrhyw ddyfeisiad sy'n perthyn i Gyngor Sir Ceredigion yn rhinwedd y Deddfau Patentau, y Cyngor yn y lle cyntaf fydd yn penderfynu a yw am wneud cais am batent neu warchodaeth gyfreithiol arall.
- 19.2 Bydd unrhyw fater neu beth y gellir ei batentu o dan y Deddfau Patentau a wneir, a ddatblygir neu a ddarganfyddir gan y Cyflogai, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd, tra bo'n cyflawni ei ddyletswyddau arferol neu ddyletswyddau a neilltuwyd yn benodol i'r Cyflogai, yn cael ei ddatgelu ar unwaith i'w Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu Brif Weithredwr ac, yn amodol ar ddarpariaethau'r Deddfau Patentau/Rheolau Patentau, yn perthyn i Gyngor Sir Ceredigion ac yn eiddo llwyr iddo.
- 19.3 Mae'n rhaid i Gyflogai, er gwaethaf terfynu contract ei gyflogaeth, lofnodi a gweithredu pob dogfen o'r fath a gwneud yr holl weithredoedd y gall y Cyngor yn rhesymol ofyn amdanynt:
- 19.3.1 Oni bai bo'r Cyngor yn cyfarwyddo'n wahanol, gwneud cais am unrhyw batent, cynllun cofrestredig neu ddull diogelu arall o unrhyw fath a chael y rhain hefyd parthed y dyfeisiad yn enw unigswydd Cyngor Sir Ceredigion yn unrhyw wlad ym mhedwar ban y byd a, phan y'i ceir neu y'i breinir, adnewyddu a chynnal hwnnw.
- 19.3.2 Gwrthsefyll unrhyw wrthddadleuon neu wrthwynebiad i gael unrhyw batent, cynllun cofrestredig neu ddull diogelu arall o'r fath ynghyd ag unrhyw ddeisebau neu geisiadau i ddiddymu'r rheini.
- 19.3.3 I ddwyn unrhyw achos am dorri unrhyw batent, dyluniad cofrestredig neu amddiffyniad arall yn erbyn trydydd parti.
- 19.4 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymrwmo drwy hyn i indemnio'r Cyflogai parthed pob cost, cais a difrod sut bynnag a lle bynnag y digwyddo yn y cyswllt bod y Cyflogai yn cyflawni rhai neu bob un o'r gofynion fel y'i hesbonnir yn 19.3.1 i 19.3.3 uchod.

20 Hawlfraint

- 20.1 Eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gofnodion, dogfennau a phapurau eraill, gan gynnwys copïau a chrynodebau ohonynt, sy'n ymwneud â chyllido a gweinyddu'r Cyngor a luniodd neu a gafodd y Cyflogai yn rhinwedd ei waith. Y Cyngor fydd bob amser biau'r hawlfraint ym

Tudalen 164

mhob papur, dogfen a chofnod gwreiddiol o'r fath.

- 20.2 Y Cyflogai fydd biau'r hawlfraint yn unrhyw waith neu gynllun a gynhodd, a olygodd neu a ddaeth y Cyflogai ag ef i fodolaeth ar ffurf gwaith ysgolheigaidd a luniwyd i ddatblygu ei yrfa broffesiynol. At y dibenion hyn, mae 'gwaith ysgolheigaidd' yn cynnwys llyfrau, cyfraniadau at lyfrau, erthyglau a phapurau cynadleddau.
- 20.3 Bydd hawlfraint unrhyw ddeunydd a gynhrychir gan y Cyflogai er ei ddefnydd a'i gyfeiriad personol yn eiddo i'r Cyflogai. Fodd bynnag, bydd yr hawlfraint mewn dogfennau a gynhrychir gan y Cyflogai yn ystod ei gyflogaeth at ddibenion y Cyngor ac a gynhrychwyd, a ddefnyddiwyd neu a ledaenwyd gan y Cyngor yn eiddo i'r Cyngor.

21 Archwiliadau'r Swyddog Monitro ac Archwilio Mewnol

- 21.1 Lle bo Swyddog Monitro'r Cyngor yn ymgymryd ag archwiliad yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i Gyflogeion gydymffurfio ag unrhyw ofynion a wnaed gan y Swyddog Monitro yng nghyswllt y fath archwiliad.
- 21.2 Rhaid i Gyflogeion hefyd gydymffurfio ag unrhyw ofynion a wneir gan Archwilio Mewnol, fel yr awdurdodwyd gan eu hawliau mynediad a amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor a Siarter Archwilio Mewnol y Cyngor. Fel rhan o Reoliadau Ariannol y Cyngor a'r Gweithdrefnau Ariannol Cysylltiedig a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae gan Archwilwyr Mewnol yr hawl i:
- 21.2.1 Fynd i mewn i unrhyw eiddo neu dir y Cyngor ar unrhyw amser rhesymol;
 - 21.2.2 Cael mynediad at yr holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw drafodiadau ariannol a thrafodiadau eraill y Cyngor;
 - 21.2.3 Gofyn am a chael unrhyw wybodaeth ac esboniadau o'r fath a ystyrir yn angenrheidiol ynghylch unrhyw fater sy'n cael ei ystyried/archwilio;
 - 21.2.4 Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un o Gyflogeion y Cyngor roi cyfrif am arian parod, storfeydd neu unrhyw eiddo arall y Cyngor sydd o dan eu rheolaeth; a
 - 21.2.5 Cael mynediad at gofnodion trydydd parti, megis contractwyr neu asiantaethau partneriaeth, yn unol â'r telerau contractiol perthnasol.
- 21.3 Gall y Cyngor, o bryd i'w gilydd, hefyd fod yn destun archwiliad, arolygiad neu ymchwiliad gan gyrff allanol sydd â hawliau mynediad statudol. Disgwylir i gyflogeion gydweithredu'n llawn â'r gofynion yn yr achosion hyn.

22 Ymddygiad y tu allan i'r Gwaith

- 22.1 Yn gyffredinol, mater personol i'r Cyflogai yw ei fywyd preifat. Serch hynny, gall rhai dulliau o ymddwyn y tu allan i'r gwaith, megis trais neu anonestrwydd, gael effaith sylweddol ar y Cyngor ac ar y gwasanaeth a ddarpara. Felly, rhaid i gyflogeion sicrhau na fydd eu hymddygiad yn y gwaith na'r tu allan iddo yn rhoi enw gwael i'r Awdurdod nac yn denu cyhoeddusrwydd a fydd yn niweidiol iddo. Rhaid i gyflogeion, fel y nodir yn eu Contract Cyflogaeth, hysbysu eu Rheolwr Llinell ac Adnoddau Dynol cyn gynted â phosibl ac yn ysgrifenedig os ydynt yn destun ymchwiliad am drosedd neu'n cael rhybudd, cerydd, rhybudd olaf neu'n cael eu dyfarnu'n euog o drosedd, a rhaid iddynt roi gwybod yn yr un modd am unrhyw weithgaredd sy'n dod o fewn y weithdrefn Ddiogelu

Tudalen 165

i'w Rheolwr Llinell ac Adnoddau Dynol cyn gynted â phosibl.

23 Cyfryngau Cymdeithasol

- 23.1 Mae'n rhaid i gyflogeion gydymffurfio â Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor, gan gynnwys canllawiau cysylltiedig yn Atodiad 1 i Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor (ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (Cerinet)), gan gynnwys sy'n ymwneud â diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed ac ynghylch swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol.
- 23.2 Dylai cyflogeion fod yn ymwybodol y gallai methu â chadw at y canllawiau ym Mholisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor arwain at gamau disgyblu o dan weithdrefn ddisgyblu'r Cyngor.

24 Diogelu Data GDPR y DU

- 24.1 Mae'n rhaid i gyflogeion gydymffurfio â Pholisi Diogelu Data a GDPR y Cyngor, sydd ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (Cerinet) gan gynnwys y gofyniad i ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data ynghylch unrhyw dor diogelwch Data neu dor diogelwch posibl, a chadw at reolau'r Polisi o ran Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data.
- 24.2 Rhaid i gyflogeion fod yn ymwybodol eu bod nhw, fel Staff y Cyngor, yn gyfrifol ac yn atebol am ddilyn gweithdrefnau corfforaethol ac adrannol sefydledig o ran diogelu data ac am gadw eu hyfforddiant a'u dealltwriaeth yn gyfredol ac yn arbennig am ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol, fel y cadarnhawyd yn y Polisi.
- 24.3 Fel y nodir yn y Polisi Diogelu Data a Pholisi'r GDPR, gall methu â chydymffurfio â'r Polisi a Deddf Diogelu Data 2018 gael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol ac, os felly, ymdrinnir ag ef yn unol â Pholisi Disgyblu'r Cyngor. Rhaid i gyflogeion fod yn ymwybodol hefyd, fel y nodir yn y Polisi Diogelu Data a Pholisi'r GDPR, y gall camddefnyddio data personol a'i ddatgelu heb awdurdod arwain at erlyniad personol.
- 24.4 Mae cyflogeion hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gwirfoddolwyr, prentisiaid, hyfforddeion ac interniaid profiad gwaith sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw dros dro yn cael, lle bo angen, hyfforddiant sylfaenol priodol fel rhan o'u cyfnod sefydlu ynghylch diogelu data, a pharch at hawliau preifatrwydd unigol.

25 Cofrestr Ganolog

- 25.1 Bydd datganiadau cyflogeion y cyfeirir atynt yn y Polisi hwn yn cael eu cadw ar gofrestr ganolog, gyda chopïau'n cael eu rhoi i'r Swyddog Monitro. Bydd y Swyddog Monitro yn ystyried a oes angen gwneud Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Cyflogai a/neu'r Rheolwr Llinell yn ymwybodol o unrhyw rai o'r datganiadau, fel y cyfeirir atynt yn 6.13 uchod.

Cyfeirnod Cyflogres:

Enw llawn:

Teitl/Rôl:

Gwasanaeth:

Rydw i'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw fuddiannau uniongyrchol neu anuniongyrchol y mae gofyn eu datgelu yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol.

Ydw/Nac ydw

Rydw i'n cadarnhau na fu unrhyw newidiadau ers i mi wneud fy natganiad diwethaf.

Ydw/Nac ydw

Datganiadau

Rydw i wedi nodi fy mudd(iannau) isod dan y penawdau priodol, y mae gofyn i mi eu datgan yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol.

1. Cyfarwyddiaeth cwmni (cyhoeddus neu breifat) am dâl.

2.a) Perthnasoedd gydag aelodau teuluol agos/cymdeithion personol agos/partïon cysylltiedig sy'n gyflogeion/swyddogion y Cyngor neu'n athrawon mewn ysgolion yn y Sir.

Os ydynt yn Brif Swyddog (lefel CLO neu'n uwch), nodwch:

- eu henw
- eu rôl
- eich perthynas

2b) Perthnasoedd gydag aelodau teuluol agos/cymdeithion personol agos/partïon cysylltiedig sy'n Gynghorydd ar y Cyngor.

Nodwch eu:

- henw

Tudalen 167

- ward

3. Cyflogaeth am dâl, swyddi, crefft neu broffesiwn (ac eithrio Cyngor Sir Ceredigion).
4. Manylion contractwyr allanol, neu ddarpar gontractwyr ar gyfer y Cyngor, a reolir neu gaiff eu rhedeg gan gymdeithion personol agos/teulu (gan gynnwys aelodau fy aelwyd) neu yr wyf wedi cael cyswllt agos gyda nhw yn flaenorol neu yr wyf yn cael cyswllt agos gyda nhw nawr (gan nodi'r manylion).
5. Aelodaeth o unrhyw sefydliad nad yw ar agor i'r cyhoedd heb aelodaeth ffurfiol ac ymrwymiad o deyrngarwch, ac y mae ganddo gyfrinachedd ynghylch rheolaeth aelodaeth neu ymddygiad.
6. Aelodaeth o unrhyw gymdeithas, plaid neu sefydliad y mae eu nodau a/neu eu cyfansoddiad yn mynd yn groes i unrhyw Reolaeth y Gyfraith neu'r Polisi Cyfle Cyfartal a fabwysiadwyd gan y Cyngor.
7. Manylion unrhyw nawdd a ddarparwyd i mi neu i unrhyw gymdeithion personol agos/teulu (gan gynnwys aelodau fy aelwyd) gan sefydliad allanol sy'n debygol o gael cyswllt gyda'r Cyngor.
8. Manylion unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned yr wyf i neu unrhyw gymdeithion personol agos/teulu (gan gynnwys aelodau fy aelwyd) yn cyflawni swydd Clerc neu Aelod ynddo.
9. Manylion fy aelodaeth o unrhyw gorff llywodraethu (gan gynnwys ysgolion) neu sefydliadau eraill sy'n debygol o gael cyswllt gyda'r Cyngor.
10. Swyddi cyfrifol mewn unrhyw gymdeithasau, clybiau, undebau llafur neu sefydliadau eraill (ac eithrio Undebau Llafur cydnabyddedig) lle y gallai buddiannau cyrff o'r fath gael eu heffeithio gan weithredoedd y Cyngor.
11. Enwau unrhyw gwmni neu gorff arall (y maent yn debygol o gael cyswllt sylweddol gyda'r Cyngor) yr wyf i, neu aelod agos o'm teulu, neu unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gweithredu ar fy rhan, ar eu bwrdd (cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr), neu'n aelod o bwyllgor rheoli neu grŵp rheoli y cwmni neu gorff arall.
12. Enwau unrhyw gwmni neu gorff arall (y maent yn debygol o gael cyswllt gyda'r Cyngor) y mae gennyf i, neu neu aelod agos o'm teulu (yn eu rhinwedd eu hunain neu ar ran eu plant bach), neu unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gweithredu ar fy rhan, fuddiant llesiannol yn y gyfranddaliadaeth y mae ei werth enwol yn fwy na £25,000 neu'n fwy na 1% o'r holl gyfranddaliadau a gyhoeddwyd.
13. Yn berchen ar dros 5 erw o dir yn y Sir.
14. Unrhyw fuddiannau eraill (boed hynny yn rhai ariannol neu anariannol), lle y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, o wybod y ffeithiau perthnasol, ystyried y gallent wrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor.

Cadarnhad

Rydw i'n cadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd uchod yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Cyfeiriad e-bost:

Sylwer – Defnyddir eich cyfeiriad e-bost fel eich llofnod.

Trwy lofnodi'r uchod, rydych yn cadarnhau eich dealltwriaeth hefyd o'r ffaith yr anfonir y ffurflen datganiadau i'r Swyddog Monitro.

Trwy lofnodi'r uchod, rydych yn cadarnhau eich dealltwriaeth hefyd o'r ffaith y bydd y Swyddog Monitro yn ystyried a oes angen sicrhau bod eich Swyddog Arweiniol Corfforaethol a/neu'ch Rheolwr Llinell yn cael eu hysbysu o'r datganiadau a wnaethpwyd. Wrth ystyried a oes angen hysbysu eich Swyddog Arweiniol Corfforaethol a/neu'ch Rheolwr Llinell, bydd y Swyddog Monitro yn ystyried unrhyw sail gyfreithlon dros ddatgelu'r wybodaeth, gan gynnwys deddfwriaeth Diogelu Data, ond heb ei gyfyngu i'r deddfwriaeth hon.

Rhoddion

Ni ddylai cyflogeion dderbyn rhoddion personol sy'n werth dros £10 ('rhoddion arwyddocaol') gan gcontractwyr, cyflenwyr allanol, sefydliadau eraill nac unigolion.

Gall cyflogeion gadw rhoddion heb fawr o werth megis pennau ysgrifennu, dyddiaduron, siocledi, gwin ac ati, nad ydynt yn werth dros £10 ('rhoddion anarwyddocaol') gan gcontractwyr, cyflenwyr allanol, sefydliadau eraill, unigolion neu ffynonellau ('rhoddwyr').

Rhaid i'r Cyflogai wneud ymholiadau rhesymol er mwyn canfod gwerth y rhodd. Byddai camau o'r fath yn cynnwys chwilio ar y rhyngwrwyd/ymchwilio i werth y rhodd, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i hyn.

Ni ddylai cyflogeion dderbyn rhoddion anarwyddocaol lluosog gan yr un rhoddwr(rhoddwyr), oherwydd y byddai'r rhain yn creu rhoddion personol arwyddocaol wrth eu hystyried gyda'i gilydd e.e. mwy na 3 rhodd yn ystod cyfnod o flwyddyn.

Ni ddylai cyflogeion dderbyn unrhyw roddion gan gcontractwyr neu gyflenwyr y Cyngor yn ystod cyfnod adnewyddu contract/prosesau tendro, neu'r cyfnod cyn hynny.

Os rhoddwyd/rhoddir mwy nag 1 rhodd, neu os cafwyd rhoddion blaenorol gan yr un rhoddwr/rhoddwyr cysylltiedig, neu gan gcontractwyr/cyflenwyr, dylid nodi'r manylion yma (gweler Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol am fanylion pellach).

Lletygarwch

Yn gyffredinol, dylai cyflogeion wrthod pob cynnig lletygarwch pryd bynnag y bo modd.

Gall cyflogeion dderbyn lletygarwch sy'n werth £10 neu lai ('lletygarwch anarwyddocaol').

Ni ddylai cyflogeion dderbyn lletygarwch sy'n werth mwy na £10 ('lletygarwch arwyddocaol') oni bai bod gwir angen ac angen hanfodol i gynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiad neu yn y gymuned ac maent wedi sicrhau caniatâd eu Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu eu Rheolwr Corfforaethol.

Ni ddylai cyflogeion dderbyn cynigion lletygarwch lluosog gan yr un rhoddwr(rhoddwyr), oherwydd y byddai'r rhain yn cyfateb â lletygarwch arwyddocaol wrth eu hystyried gyda'i gilydd e.e. mwy na 3 chynnig lletygarwch yn ystod cyfnod o flwyddyn.

Ni ddylai cyflogeion dderbyn unrhyw lletygarwch gan gcontractwyr neu gyflenwyr y Cyngor yn ystod cyfnod adnewyddu contract/prosesau tendro, neu'r cyfnod cyn hynny.

Cyfrifoldeb y Cyflogai yw ystyried a yw cynnig lletygarwch o werth arwyddocaol (dros £10).

Os ceir amheuaeth ynghylch a oes gwir angen ac angen hanfodol i dderbyn y lletygarwch, dylai'r Cyflogai holi'r Swyddog Monitro (gweler Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol am wybodaeth bellach, gan gynnwys enghreifftiau o lletygarwch derbyniol ac annerbyniol).

A fyddech gystal â llenwi'r adrannau isod cyn pen 7 diwrnod gwaith o gael y lletygarwch/rhodd.

Cyfeirnod Cyflogres:

Enw llawn:

Tudalen 170

Teitl/Rôl:

Gwasanaeth:

Datganiad

Rydw i wedi nodi isod dan y penawdau priodol y lletygarwch/rhoddion yr wyf wedi eu cael/yn bwriadu eu cael, ac y mae gofyn i mi eu datgan dan y Cod Ymddygiad.

1. Enw'r sefydliad(au) sy'n trefnu'r lletygarwch:

2. Enw'r sefydliad(au) sy'n noddî'r lletygarwch (os yw'n wahanol i'r uchod):

3. Dyddiad pan geir/gafwyd y lletygarwch:

dd/mm/bbbb

Dewiswch y dyddiad gan ddefnyddio'r calendr

4. Natur y digwyddiad a'r cyd-destun ar gyfer darparu'r lletygarwch:

5. Enw unrhyw Gyflogai/Cyflogeion eraill Cyngor Sir Ceredigion a fydd yn mynychu'r digwyddiad neu a oedd wedi mynychu'r digwyddiad:

6. Enw unrhyw sefydliad arall a fydd yn mynychu'r digwyddiad neu a oedd wedi mynychu'r digwyddiad, os byddant yn gysylltiedig â'r lletygarwch i'w gael/a gafwyd:

7. Y math o letygarwch/rhodd a geir/gafwyd a'i werth yn fras (sylwer bod gofyn i Gyflogeion ddatgan POB rhodd/lletygarwch, beth bynnag fo ei werth.

8. A awdurdodwyd y cam o dderbyn y lletygarwch ymlaen llaw? Os felly, a fyddech gystal â darparu'r manylion a'u cofnodi.

Cadarnhad

Rydw i'n cadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd uchod yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Cyfeiriad e-bost:

Sylwer – Defnyddir eich cyfeiriad e-bost fel eich llofnod. Trwy lofnodi'r uchod, rydych yn cadarnhau eich dealltwriaeth hefyd o'r ffaith yr anfonir y ffurflen cydnabyddiaeth i'r Swyddog Monitro.

Cyngor Sir Ceredigion

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	4 Ebrill 2023
Lleoliad:	Hybrid
Teitl:	Adroddiad ar fersiynau diwygiedig y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol, y Ffurflen Datgan Buddiant a'r Ffurflen Datgan Lletygarwch
Pwrpas yr Adroddiad:	Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd 13^{eg} Mawrth 2023

CEFNDIR:

Yn ei gyfarfod ar 13^{eg} Mawrth 2023, bu Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ystyried adroddiad ar fersiynau diwygiedig y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol, y Ffurflen Datgan Buddiant a'r Ffurflen Datgan Lletygarwch.

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet yr adroddiad a chyflwynodd Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu yr wybodaeth gan dynnu sylw at y newidiadau arfaethedig.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion a ganlyn:

ARGYMHELLIAD/ION:

Argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i:

1. Y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol (sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 papurau'r Agenda)
2. Y Ffurflen Datgan Buddiant (sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 papurau'r Agenda)
3. Y Ffurflen Datgan Lletygarwch (sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 4 papurau'r Agenda)

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol
2. Cymeradwyo'r Ffurflen Datgan Buddiant
3. Cymeradwyo'r Ffurflen Datgan Lletygarwch

Gwneud yn siŵr bod y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol, y Ffurflen Datgan Buddiant a'r Ffurflen Datgan Lletygarwch:

- yn cael eu diweddarau ac yn addas i'r diben; ac
- yn rhoi eglurder a thryloywder i Swyddogion

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	4 Ebrill 2023
Teitl:	Adroddiad ynglŷn â Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban
Pwrpas yr adroddiad:	Diwygio'r Polisi Chwythu'r Chwiban
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cefndir:

Adolygwyd y Polisi Chwythu Chwiban a gwnaed newidiadau er mwyn sicrhau fod y polisi wedi ei ddiweddarau.

Bu i'r [Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu](#) ystyried yr adroddiad ar y newidiadau i'r Polisi Chwythu Chwiban ar 22 Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Polisi Chwythu Chwiban.

Argymhellwyd gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 22 Mawrth i'r Cabinet gymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Chwythu Chwiban.

Y sefyllfa gyfredol:

Mae'r Polisi Chwythu Chwiban yn **Atodiad 1** ac y mae'r newidiadau wedi eu nodi.

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Chwythu Chwiban fel y nodwyd yn **Atodiad 1**.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam	Na. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid i bolisi na strategaeth.
	Crynodeb:	
	Hirdymor:	
	Cydweithio:	
	Cynnwys:	
	Atal:	
	Integreiddio:	
Argymhelliad / Argymhellion:	Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban fel y'u dangosir yn Atodiad 1 .	

Tudalen 174

Rheswm dros y penderfyniad:	Sicrhau bod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn gyfredol ac yn parhau i fod yn addas i'r diben.
Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 22/03/23
Fframwaith Polisi:	Polisi Chwythu'r Chwiban
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Amherthnasol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Amherthnasol
Goblygiadau cyfreithiol:	Sicrhau y cydymffurfir â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998
Goblygiadau staffio:	Amherthnasol
Goblygiadau eiddo / asedau:	Amherthnasol
Risg(iau):	Amherthnasol
Pwerau Statudol:	Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998
Papurau Cefndir:	Adroddiad i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 22/03/2023: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s4741/Adroddiad
Atodiadau:	Atodiad 1 – Polisi Chwythu'r Chwiban
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu
Swyddog Adrodd:	Elin Prysor
Dyddiad:	22/3/23



CEREDIGION

Polisi Chwythu'r Chwiban

Awdur: Swyddog Monitro/ [Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Pobl a Threfniadaeth](#)

▼

Cymeradwywyd gan y Cabinet: 17/05/16

▼

Cymeradwywyd gan y Cabinet: 19/06/2018

[Diwygiwyd 14/02/23](#)

[Cymeradwywyd gan y Cabinet: x/x/2023](#)

Deleted: Adnoddau Dynol

Deleted: Terfynol: 07/04/16

Deleted: Cytunwyd gan yr Undebau Llafur 14/3/16

Deleted: Dyddiad a Gyhoeddwyd: 17/05/16

Deleted: Diwygiwyd gan y Swyddog Monitro: 23/11/2017
Ail-ddiwygiwyd gan y Swyddog Monitro: 16/05/2018

Deleted: 14/11

Deleted: 2

Deleted: 2

Deleted: Mai 2018

1 Terfynol [Tachwedd 2022](#)

RHAGYMDRODD

Yn aml, y cyflogeion fydd y bobl gyntaf i sylweddoli y gall fod rhywbeth difrifol o'i le ar y ffordd y mae gweithgareddau'r Cyngor yn cael eu cyflawni. Serch hynny, mae'n bosibl na fyddant yn gallu mynegi'u pryderon oherwydd, o wneud hynny, byddant yn teimlo eu bod yn anffyddlon i'w cydweithwyr neu i'r Cyngor. O ddweud eu dweud, gall fod ofn arnynt y bydd rhywun yn aflonyddu arnynt neu'n eu trin yn annheg. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall fod yn haws iddynt anwybyddu'u pryderon, yn hytrach na rhoi gwybod i rywun am yr hyn all fod yn ddim mwy na chamymddygiad amheus.

Formatted: Welsh

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein busnes yn onest a chydag uniondeb, ac rydym yn disgwyl i'r holl staff arddel safonau uchel. Serch hynny, mae perygl y gall rhywbeth fynd o'i le mewn unrhyw sefydliad o bryd i'w gilydd, neu berygl y gall ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol fod yn digwydd yno'n ddiarwybod. Mae'n hanfodol meithrin diwylliant agored ac atebol i atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi neu i fynd i'r afael â nhw pan fyddant yn codi.

Formatted: Welsh

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran uniondeb, atebolwydd a bod yn agored. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn annog cyflogeion ac eraill a chanddynt bryderon difrifol am unrhyw agwedd ar waith y Cyngor i gysylltu â ni ac i leisio'r pryderon hynny. Rydym yn sylweddoli y bydd yn rhaid trin a thrafod rhai achosion yn gyfrinachol. Mae'r ddogfen bolisi hon yn egluro bod modd i'r staff wneud hynny heb ofni y bydd rhywun yn dial arnynt.

Formatted: Welsh

NOD A CHWMPAS Y POLISI HWN

Formatted: French (France)

Nod y polisi hwn yw:

Formatted: French (France)

- eich annog i roi gwybod cyn gynted â phosibl os ydych yn amau achos o ddrwgweithredu gan wybod y byddwn yn ymdrin â'ch pryderon o ddifrif ac yn ymchwilio iddynt fel y bo'n briodol, a chan wybod y byddwn yn parchu eich cyfrinachedd.
- darparu canllawiau a dulliau i sicrhau bod modd i chi fynegi pryderon a chael adborth am unrhyw gamau a gymerwyd
- caniatáu i chi gymryd camau pellach i ymdrin â'r mater os nad ydych yn fodlon ag ymateb y Cyngor.
- rhoi sicrwydd i chi y dylai fod modd i chi fynegi pryderon dilys heb ofni y bydd rhywun yn dial amoch neu'n eich trin yn annheg oherwydd i chi chwythu'r chwiban, hyd yn oed os daw i'r amlwg eu bod wedi camgymryd

Formatted: French (France)

Formatted: French (France)

Formatted: French (France)

Formatted: French (France)

Mae gweithdrefnau ar waith i alluogi chi i wneud cwyn sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth neu'ch contract cyflogaeth. Bwriedir i'r polisi chwythu'r chwiban hwn drin a thrafod pryderon sydd tu hwnt i gwmpas gweithdrefnau eraill.

Formatted: Welsh

Deleted: Mai 2018

Nid yw'r polisi hwn yn rhan o gontract cyflogaeth unrhyw gyflogai a gellir ei ddiwygio ar unrhyw adeg.

Formatted: Welsh

3 Terfynol [Tachwedd 2022](#)

Deleted: Mai 2018

I BWY Y MAE'R POLISI HWN YN BERTNASOL?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n gweithio ar bob lefel yn y Cyngor, gan gynnwys uwch reolwyr, swyddogion, cyfarwyddwyr, cyflogeion, ymgynghorwyr, contractwyr, hyfforddeion, gweithwyr cartref, gweithwyr rhan-amser, gweithwyr tymor penodol, gweithwyr dros dro a gweithwyr asiantaeth, yn ogystal â gwirfoddolwyr. (Cyfeirir atynt ar y cyd fel **staff** yn y polisi hwn.)

Formatted: Welsh

BETH YW CHWYTHU'R CHWIBAN?

Formatted: Welsh

Datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â drwgweithredu amheus neu beryglon yn y gwaith yw **chwythu'r chwiban**. Gall gynnwys:

Formatted: Welsh

(a) gweithgarwch troseddol;

Formatted: Welsh

(b) camweinyddu cyfiawnder;

Formatted: Welsh

(c) perygl iechyd a diogelwch;

Formatted: Welsh

(d) niwed i'r amgylchedd;

Formatted: Welsh

(e) methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu broffesiynol neu ofynion rheoleiddiol;

Formatted: Welsh

(f) llwgrwobrwyo;

Formatted: Welsh

(g) twyll neu gamreolaeth sy'n ymwneud ag arian / caffael;

Formatted: Welsh

(h) esgeulustod;

Formatted: Welsh

(i) torri polisiau a gweithdrefnau mewnol;

Formatted: Welsh

(j) ymddygiad sy'n debygol o niweidio ein henw da;

Formatted: German (Germany)

(k) datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd;

Formatted: German (Germany)

(l) ymddygiad amhriodol;

Formatted: German (Germany)

(m) ymddygiad a gweithredoedd sy'n syrthio islaw safonau neu arferion sydd wedi ennill eu plwyf

Formatted: German (Germany)

(n) gweithredoedd sy'n mynd yn groes i reolau sefydlog neu bolisiau'r Cyngor;

Formatted: German (Germany)

(o) caethwasiaeth/masnachu pobl

Formatted: German (Germany)

Deleted: P

~~(p) pryderon diogelu~~

Formatted: German (Germany)

Deleted: p

~~(q) celu unrhyw un o'r materion uchod yn fwriadol.~~

Formatted: German (Germany)

Deleted: Mai 2018

Dywedir bod unigolyn sy'n mynegi pryder dilys am unrhyw un o'r materion uchod yn **chwythwr chwiban**. Os oes gennych chi bryderon dilys sy'n ymwneud â drwgweithredu amheus neu berygl sy'n effeithio ar unrhyw un o'n gweithgareddau (**pryder chwythu'r chwiban**), dylech roi gwybod am y pryderon hynny o dan y polisi hwn.

Formatted: Welsh

Ni ddylech ddefnyddio'r polisi hwn ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'ch sefyllfa bersonol, fel y ffordd y cawsoch eich trin yn y gwaith. Mewn achosion o'r fath, dylech ddefnyddio'r Drefn Gwyno neu'r Polisi Bwlio ac Aflonyddu yn y Gwaith.

Formatted: Welsh

Mae'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio wedi dweud; lle bo'n briodol, dylid ystyried y polisi hwn yn gyntaf wrth

Formatted: Welsh

- godi pryder mewn perthynas â defnydd yr Awdurdod o bwerau ymchwilio, ac
- unrhyw ddatgeliadau ynghylch unrhyw faterion sy'n dod o fewn arolygiaeth* Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

Formatted: Welsh

Formatted: Font:

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt

Formatted: List Paragraph, Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

LLWGRWOBRWYO

Formatted: Welsh

Mae atal llwgrwobrwyo wedi'i gynnwys mewn polisi a gweithdrefnau ar wahân.

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Mae'n ofynnol i bob cyflogai roi gwybod pan fyddant yn amau bod pobl neu gwmnïau yn cynnig neu'n derbyn llwgrwobrau. Gall awdurdod lleol gael ei erlyn os yw cyflogai, asiant neu rywun â chysylltiad yn llwgrwobrwyo unigolyn arall, gyda'r bwriad o sicrhau mantais i'r awdurdod. Mae llygredd, yn ddi-os, yn arwain at golled ariannol sylweddol o ran y pwrs cyhoeddus ac mae unigolion llwgr yn medru treiddio i unrhyw lefel o'r sefydliad heb fod neb yn sylwi arnynt.

Formatted: Welsh

Os nad ydych chi'n siŵr a yw rhywbeth yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn, dylech ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu). Mae manylion cyswllt y Swyddog Monitro i'w gweld ar dudalen 6 y polisi hwn.

Formatted: Welsh

Diogelu

Formatted: Welsh

Efallai rhoddir gwybod am bryderon diogelu i ddechrau fel pryderon chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau priodol, ceir cyfeirio'r rhain at weithdrefn Diogelu neu Strategaeth Pryderon Proffesiynol y Cyngor.

Formatted: Welsh

Cynghorir gweithwyr i gyfeirio at y 'Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl' i gael mwy o wybodaeth am roi gwybod am bryderon diogelu.

Formatted: Welsh

ATAL CAETHWASIAETH

Formatted: Welsh

Mae atal caethwasiaeth wedi'i gynnwys mewn polisi a gweithdrefnau ar wahân.

Formatted: Welsh

Deleted: Mai 2018

RHAGOFALON

Formatted: Welsh

Rhaid i staff sy'n delio â chwynion chwythu'r chwiban barchu cyfrinachedd y broses. Nid oes angen i'r gair 'Cyfrinachol' a/neu'r geiriau 'Chwythu'r Chwiban' ymddangos ar y dogfennau sy'n dod i law er mwyn iddynt gael eu trin felly. Ni ddylid datgelu dogfennau sy'n ymwneud â chwynion oni bai bod y Swyddog Monitro yn rhoi caniatâd cyn hynny.

Formatted: Welsh

Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998

Formatted: German (Germany)

Daeth y Ddeddf uchod i rym ar Orffennaf 2^{il} 1999 ac mae'n eich diogelu rhag i chi gael eich diswyddo'n annheg neu'ch trin yn annheg oherwydd i chi roi gwybod am ddrwgweithredu yn y gweithle. Fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

Deleted: Yn ddiweddar, cafodd ei

Deleted: o

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Aflonyddu neu Erledigaeth

Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod yn anodd i unigolion benderfynu rhoi gwybod am eu pryderon, nid lleiaf oherwydd y gall yr unigolion hynny ofni y bydd y rheini sy'n drwgweithredu'n dial arnynt. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw aflonyddu nac erledigaeth a bydd yn mynd ati i ddiogelu unrhyw unigolion sy'n mynegi pryderon.

Formatted: Welsh

CYFRINACHEDD

Formatted: Welsh

Rydym yn mawr obeithio y bydd aelodau staff yn teimlo bod modd iddynt fynegi'u pryderon yn agored o dan y polisi hwn. Serch hynny, os hoffech fynegi'ch pryderon yn gyfrinachol, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau na ddaw neb i wybod pwy ydych chi. Os bydd angen i unrhyw un sy'n ymchwilio i'r mater wybod pwy ydych chi, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

Formatted: Welsh

Cofiwch y gall y broses ymchwilio ddatgelu o ble mae'r wybodaeth wedi dod a gall fod angen i chi wneud datganiad fel rhan o'r dystiolaeth. Os oes angen datgelu pwy ydych chi, bydd y Cyngor yn trefnu i'ch cefnogi drwy gydol y broses.

Formatted: Welsh

Efallai y bydd amgylchiadau lle gall gwybodaeth a ddatgelir yn ymwneud â materion diogelu gael ei throsglwyddo i Swyddogion priodol (ee Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) neu awdurdodau rheoleiddio.

Formatted: No underline, Welsh

Formatted: Welsh

Honiadau dienw

O dan y polisi hwn, anogir y staff i wneud honiadau ar goedd. Mae pryderon a fynegir yn ddiennw yn llawer llai grymus, ond bydd Swyddog Monitro'r Cyngor (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) yn ystyried honiadau dienw.

Formatted: Welsh

Gall fod yn anoddach neu'n amhosibl ymchwilio'n briodol iddynt os nad oes modd i ni gael mwy o wybodaeth gennych. Mae hefyd yn anoddach pennu a yw'r honiadau'n gredadwy.

Formatted: Welsh

Deleted: Mai 2018

Os yw'r sawl sy'n chwythu'r chwiban yn pryderu y bydd rhywun yn dial arno os daw i wybod pwy sydd wedi chwythu'r chwiban, dylai siarad â'r Swyddog Monitro neu un o'r swyddogion cyswllt eraill a restrir isod. Bydd modd cymryd camau i sicrhau na ddaw neb i wybod pwy ydych chi.

Swyddog Monitro

Pan fydd y Swyddog Monitro'n ystyried yr honiad, bydd yn rhoi sylw i'r materion a ganlyn:

- pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd;
- pa mor gredadwy yw'r pryderon;
- pa mor debygol yw hi y bydd modd cadarnhau'r honiad o ffynonellau y gellir eu priodoli.

Os bydd y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) yn penderfynu peidio â mynd i'r afael â honiad dienw, bydd yn cofnodi'r rheswm dros ei benderfyniad.

SUT I FYNEGI PRYDER

- Dylech roi gwybod, fel arfer, i'ch rheolwr llinell uniongyrchol, neu'i reolwr ef, am eich pryderon. Gall fod modd iddynt gytuno ar ffordd o ddatrys eich pryderon yn gyflym ac yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar ba mor ddifrifol a sensitif yw'r materion o dan sylw a phwy y tybir eu bod yn rhan o'r camymddygiad.
- Os nad ydych am roi gwybod i'ch rheolwr llinell, neu'i reolwr, am eich pryderon, neu os yw'r mater yn fwy difrifol, fe'ch anogir i gysylltu â Swyddog Monitro'r Cyngor.
- Fel arall, os ydych yn pryderu am amhriodoldeb ariannol, gallech roi gwybod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, neu'r Prif Archwilydd Mewnol (Rheolwr Corfforaethol-Archwilio Mewnol) am eich pryderon.
- Dylech nodi cefndir a hanes y pryderon, gan roi enwau, dyddiadau a lleoliadau lle bo modd, a dylech egluro pam eich bod yn pryderu'n benodol am y sefyllfa hon.
- Os nad ydych yn teimlo bod modd i chi gofnodi'ch pryderon yn ysgrifenedig, gallwch ffonio'r swyddog priodol neu drefnu i gwrdd ag ef.
- Po gynharaf y byddwch yn mynegi'ch pryderon, po hawsaf y bydd i weithredu.
- Ceir rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r Swyddog Monitro am unrhyw gŵyn ddifrifol, sef honiad o gamymddygiad neu amhriodoldeb ariannol.

Deleted: Os oes gennych unrhyw amheuan, gallwch ofyn am gyngor gan yr elusen chwythu'r chwiban annibynnol, Public Concern at Work. Mae ganddi llinell gymorth gyfrinachol. Dyma fanylion cyswllt yr elusen: ¶
 ¶ CAN Mezzanine ¶
 7 - 14 Great Dover Street ¶
 Llundain SE1 4YR ¶
 ¶
Ffôn ¶
 Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban: 020 7404 6609 ¶
 Ymholiadau Cyffredinol: 020 3117 2520 ¶
 ¶
Ffacs ¶
 020 7403 8823 ¶
 ¶
E-bost ¶
 Llinell Gymorth y Deyrnas Unedig: whistle@pcaw.org.uk ¶
 Ymholiadau'r Cyfryngau: press@pcaw.org.uk ¶
 Gwasanaethau'r Deyrnas Unedig: services@pcaw.org.uk

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Deleted: Yn gyntaf, d

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Deleted: (

Deleted:)

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Deleted: Dylech

Deleted: Mai 2018

- Gallwch gael cyngor ac arweiniad ynghylch sut i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder oddi wrth:

Y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu)	Swyddog Adran 151 (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)	Prif Archwilydd Mewnol, (Rheolwr Corfforaethol- Archwilio Mewnol)	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA.	Canolfan Rheidol Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE	Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE	Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE
Rhif Ffôn (01545) 572120	Rhif Ffôn (01970 633121)	Rhif Ffôn (01970) 633323	Rhif Ffôn (01545) 572019

Deleted: /

Deleted: Swyddog Adran 151

Deleted: 10

Deleted: 0

Deleted: 1

Deleted: Byddwn yn t

Deleted: cyfarfod gyda chi

Formatted: Welsh

Os oes angen cyfarfod, bydd hwn yn cael ei drefnu cyn gynted â phosib i drafod eich pryder. [Gall cyfarfod fod wyneb yn wyneb neu o bell.](#)

Gallwch ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd undeb gyda chi i unrhyw gyfarfod a gynhelir o dan y polisi hwn. Rhaid i'r sawl sy'n dod gyda chi i unrhyw gyfarfod barchu cyfrinachedd y wybodaeth a ddatgelwyd gennych ac unrhyw ymchwiliad sy'n deillio ohono.

Formatted: Welsh

Byddwn yn ysgrifennu crynodeb o'ch pryderon ac yn rhoi copi i chi ar ôl y cyfarfod.

Formatted: Welsh

Byddwn hefyd yn ceisio rhoi syniad i chi o'r ffordd y bwriedir ymdrin â'r mater.

Formatted: Welsh

DATGELU GWYBODAETH TU ALLAN I'R CYNGOR

Formatted: French (France)

Bwriedir i'r polisi hwn ddarparu dull mewnol o roi gwybod am achosion o ddrwgweithredu yn y gweithle, ymchwilio iddynt a'u datrys. Gan mwyaf, ni ddylai fod angen i chi roi gwybod i unrhyw un tu allan i'r Cyngor.

Formatted: French (France)

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'r gyfraith yn cydnabod y gall fod yn briodol i chi roi gwybod i gorff allanol, fel rheoleiddiwr, am eich pryderon. Fe'ch anogir yn gryf i ofyn am gyngor cyn rhoi gwybod i unrhyw un tu allan i'r Cyngor am eich pryderon.

Formatted: Welsh

[Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gallwch ofyn am gyngor gan yr elusen chwythu'r chwiban annibynnol, \[Protect\]\(#\) \(Public Concern at Work \[gynt\]\(#\)\), \[sy'n gweithredu\]\(#\) llinell gymorth gyfrinachol. Mae gan \[Protect\]\(#\) restr o reoleiddwyr penodedig y gellir rhoi gwybod iddynt am fathau penodol o bryderon.](#)

Deleted: Mae gan y

Deleted: ddi hefyd

Formatted: Welsh

[Eu manylion cyswllt yw:](#)

Deleted: Mai 2018

8 Terfynol [Tachwedd 2022](#).

The Green House
244-254 Cambridge Heath Road
Llundain E2 9DA

Ffôn: 020 3117 2520
Ffurflen gysylltu:

<https://protect-advice.org.uk/contact-protect-advice-line>

Ymholiadau gan y cyfryngau: press@protect-advice.org.uk

Personau a chyrrff penodedig

Mae rhestr o bersonau a chyrrff penodedig ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/blowing-the-whistle-list-of-prescribed-people-and-bodies--2/whistleblowing-list-of-prescribed-people-and-bodies>

Os yw'r materion yn ymwneud ag awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys cynnal busnes cyhoeddus yn briodol; gwerth am arian, twyll a llygredd o fewn cyrrff cyhoeddus yng Nghymru, [y cyswllt perthnasol yw Archwilydd Cyffredinol Cymru](#): [Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried, ond nid oes rheidrydd arno i ymchwilio, i bob datgeliad a gaiff.](#)

Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilio Cymru):

Swyddog PIDA
Archwilydd Cyffredinol Cymru
[1 Cwr y Ddinas](#)
[Stryd Tyndall](#)
[Caerdydd](#)
[CF10 4BZ](#)

Ffôn: [029 20 320 522](tel:02920320522)

E-bost: chwythu'r-chwiban@archwilio.cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy/chwythur-chwiban

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

Safecall:

(Linell Gymorth Chwythu'r Chwiban)
(Darparwr Gwasanaeth Chwythu'r Chwiban Byd-eang)

9 Terfynol [Tachwedd 2022](#)

Deleted: Ymholiadau cyffredinol

Formatted: German (Germany)

Deleted: E-bost

Formatted: Font: Bold

Deleted: Llinell gymorth y DU: whistle@pcaw.org.uk

Deleted: press@pcaw.org.uk

Deleted: Gwasanaethau'r DU: services@pcaw.org.uk

Deleted: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/496899/BIS-16-79-blowing-the-whistle-to-a-prescribed-person.pdf

Deleted: Y cyswllt perthnasol yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn:...

Formatted: Welsh

Deleted: 24 Heol y Gadeirlan ¶¶

Deleted: Caerdydd ¶¶
CF11 9LJ ¶¶

Deleted: 01244 525980

Formatted: German (Germany)

Deleted: wao.gov.uk

Field Code Changed

Field Code Changed

Deleted: www.wao.gov.uk/whistleblowers-hotline

Deleted: Mai 2018

[Safecall Llundain](#)
[8^{fed} Llawr](#)
[100 Bishopsgate](#)
[Llundain](#)
[EC2N 4AG](#)

[Safecall Sunderland](#)
[RTC Loftus house](#)
[Colima avenue](#)
[Sunderland](#)
[SR5 3XB](#)
[0191 516 7720](#)

[Gwefan Llywodraeth y DU](#)
www.gov.uk/whistleblowing

Fel rheol, mae pryderon chwythu'r chwiban yn ymwneud ag ymddygiad ein staff, ond weithiau gallant fod yn gysylltiedig â gweithredoedd trydydd parti, fel cyflenwr, contractwr, ymgynghorwr neu ddarparwr gwasanaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd y gyfraith yn eich diogelu os byddwch yn codi'r mater gyda'r trydydd parti'n uniongyrchol. Serch hynny, fe'ch anogir i fynegi pryderon o'r fath yn fewnol i gychwyn. Dylech gysylltu â'ch rheolwr llinell neu un o'r unigolion eraill a enwir uchod i gael cyngor.

SUT Y BYDD Y CYNGOR YN YMATEB

- Bydd y camau a gymerir gan y Cyngor yn dibynnu ar natur y pryder. Yn gyffredinol, gall y Cyngor gymryd y camau a ganlyn:
 - gall y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu), yr uwch reolwyr, y gwasanaeth archwilio mewnol neu'r tîm ymchwilio ymchwilio i'r pryder, drwy'r broses ddisgyblu neu ymchwiliad allanol.
 - [gellir cyfeirio'r mater i'w ystyried gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor](#)
 - gellir cyfeirio'r mater i'w ystyried gan Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor
 - gellir cyfeirio'r mater at yr Heddlu
 - gellir cyfeirio'r mater at [Archwilio Cymru](#) neu [Archwilwyr allanol](#) eraill a benodir
 - [gellir cyfeirio'r mater at Archwilio Cymru, AGC, Estyn neu reoleiddiwr arall](#)
 - gall y pryder fod yn destun ymchwiliad annibynnol
- I ddiogelu unigolion a'r Cyngor, gwneir ymholiadau cychwynnol i benderfynu a yw'n briodol ymchwilio i'r mater ac, os felly, sut y dylid ymchwilio iddo. Fel arfer, caiff pryderon neu honiadau sy'n berthnasol i weithdrefnau penodol (er enghraifft, materion amddiffyn plant neu faterion gwahaniaethu) eu cyfeirio i'w hystyried o dan y gweithdrefnau hynny.

Formatted: German (Germany)

Formatted: German (Germany)

Formatted: German (Germany)

Deleted: Hefyd

Deleted: :

Formatted: Word underline, German (Germany)

Formatted: German (Germany)

Field Code Changed

Formatted: Welsh

Formatted: French (France)

Formatted: French (France)

Deleted: a gwrth-dwyll

Deleted: a

Deleted: Swyddfa

Deleted: A

Formatted: Welsh

Deleted: Mai 2018

- Pan fyddwch wedi mynegi pryderon, byddwn yn cyflawni asesiad cychwynnol i bennu hyd a lled unrhyw ymchwiliad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad ein hasesiad. Gall fod gofyn i chi ddod i gyfarfodydd ychwanegol i roi mwy o wybodaeth.
- Mewn rhai achosion, gallem benodi ymchwilydd neu dîm o ymchwilydd, gan gynnwys staff a chanddynt brofiad perthnasol o gyflawni ymchwiliadau neu wybodaeth arbenigol am y testun. Gall yr ymchwilydd/ymchwilydd argymhell newidiadau i'n galluogi i leihau'r risg o ddrwgweithredu yn y dyfodol.
- Dylai staff sy'n derbyn cwynion yn uniongyrchol gyfeirio'r cwynion hynny at y Swyddog Monitro a / neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, y Prif Archwilydd Mewnol a/neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth.
- Mae'n well codi unrhyw bryderon yn ysgrifenedig gan, yn ddefnyddiol, nodi'r gair 'Cyfrinachol' a/neu'r geiriau 'Chwythu'r Chwiban' arnynt.
- Rhaid i'r staff sy'n rhan o'r broses ystyried a oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn codi. Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid gofyn am gyngor oddi wrth y Swyddog Monitro.
- Gellir datrys rhai pryderon drwy gytuno ar gamau gweithredu, heb fod angen cynnal ymchwiliad.
- Ar ôl i chi fynegi'ch pryderon, byddwch yn cael:
 - 1) Cyn pen 10 diwrnod gwaith, cydnabyddiaeth gan y Swyddog Monitro eich bod wedi codi'r mater.
 - 2) Cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny,
 - a) Braslun o'r ffordd y byddwn yn ymdrin â'r mater ac
 - b) Amcan o ba mor hir y bydd yn rhaid aros i gael ymateb terfynol
 - 3) Ar ôl hynny, gwybodaeth gyson am hynt y gwaith o ymdrin â'ch cwyn
- Os bydd angen taflu goleuni ar unrhyw fater, efallai y bydd yr ymchwilydd /ymchwilydd yn cysylltu â chi. Cewch gyfle i ddod â ffrind (nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith sy'n destun pryder) neu gynrychiolydd Undeb Llafur neu Gymdeithas Broffesiynol gyda chi i unrhyw gyfweiliad.
- Os caiff y pryderon eu cyfeirio i'w trafod o dan unrhyw weithdrefn arall e.e. y drefn ddisgyblu neu gan yr heddlu, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi am y weithdrefn honno a, lle bo modd, yn rhoi cefnogaeth i chi drwy gydol y broses.
- Ein nod fydd rhoi gwybod i chi am hynt yr ymchwiliad a'r amserlen debygol. Fodd bynnag, weithiau gall yr angen i gadw cyfrinachedd ein hatal rhag rhoi manylion penodol i chi am yr ymchwiliad neu unrhyw gamau disgyblu sy'n deillio ohono. Dylech gadw unrhyw wybodaeth am yr ymchwiliad yn gyfrinachol.

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Deleted: Mai 2018

- Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad yr ymchwiliad a'r camau a gymerir yn ei sgil, gan ddibynnu ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol. Efallai na fyddwch yn derbyn copi llawn o'r adroddiad am sawl rheswm gan gynnwys cyfrinachedd.
- Bydd y Swyddog Monitro yn ystyried cynnwys pob adroddiad ymchwiliad, ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion. Bydd y Swyddog Monitro yn ystyried a oes unrhyw faterion o ran buddiannau cyhoeddus wedi codi, a bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r Prif Swyddogion perthnasol.

Formatted: Welsh

-

DIOGELU A CHEFNOGI'R RHEINI SY'N CHWYTHU'R CHWIBAN

Mae gan gyflogai'r hawl i beidio â dioddef "anfantais" a hawl i beidio â chael ei ddiswyddo am ddatgelu gwybodaeth sydd er lles y cyhoedd.

Deleted: Mae angen i'r sawl sy'n chwythu'r chwiban gredu'n rhesymol bod yr hyn a ddatgelir er budd y cyhoedd. Os byddwn yn dod i'r casgliad bod y sawl sydd wedi chwythu'r chwiban wedi gwneud honiadau ffug yn faleisus neu gyda golwg ar ennill budd personol, gall yr unigolyn hwnnw wynebu camau disgyblu.

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

Rydym yn sylweddoli y gall y rheini sy'n chwythu'r chwiban ofidio y bydd rhywun yn dial arnynt. Rydym yn annog aelodau staff i fod yn agored a byddwn yn cefnogi unrhyw aelodau staff sy'n codi pryderon dilys o dan y polisi hwn, hyd yn oed os byddwn yn dod i'r casgliad eu bod wedi camgymryd.

Formatted: Welsh

Rhaid i aelodau staff beidio â chael eu trin mewn ffordd sy'n peri anfantais iddynt oherwydd iddynt fynegi pryder. Mae triniaeth sy'n peri anfantais yn cynnwys diswyddo, camau disgyblu, bygythiadau neu driniaeth anffafriol arall sy'n gysylltiedig â mynegi pryder. Os ydych yn credu eich bod yn dioddef triniaeth o'r fath, dylech roi gwybod i'r Swyddog Monitro ar unwaith. Os na chaiff y mater ei ddatrys, dylech godi'r mater yn ffurfiol gan ddefnyddio'r Drefn Gwyno.

Formatted: Welsh

Rhaid i staff beidio â bygwth y rheini sydd wedi chwythu'r chwiban na dial arnynt mewn unrhyw ffordd. Gallwch wynebu camau disgyblu os byddwch yn ymddwyn yn y fath fodd.

Formatted: Welsh

Mae angen i'r sawl sy'n chwythu'r chwiban gredu'n rhesymol bod yr hyn a ddatgelir er budd y cyhoedd. Os byddwn yn dod i'r casgliad bod y sawl sydd wedi chwythu'r chwiban wedi gwneud honiadau ffug yn faleisus neu gyda golwg ar ennill budd personol, gall yr unigolyn hwnnw wynebu camau disgyblu.

Formatted: Welsh

Y SWYDDOG CYFRIFOL

Formatted: Welsh

Y Swyddog Monitro sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal a gweithredu'r polisi hwn.

Formatted: Welsh

Bydd y Swyddog Monitro yn cadw manylion yr holl atgyfeiriadau/cwynion o ran chwythu'r chwiban.

Formatted: Welsh

Bydd y Swyddog Monitro yn cadw cofnod o'r holl bryderon sy'n cael eu mynegi, a'u canlyniadau (ar ffurf sy'n sicrhau na ddaw neb i wybod pwy ydych chi).

Formatted: Welsh

Deleted: Mai 2018

Bydd y Swyddog Monitro yn rhoi adroddiadau [ynghlŷn â materion sy'n ymwneud â Chwythu'r Chwiban o bryd i'w gilydd](#) i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Deleted: (o leiaf ddwywaith y flwyddyn)

Deleted: Aelodau

Deleted: Bydd y Swyddog Monitro yn cadw manylion pob atgyfeiriad / cwyn sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban ar gofrestr / cronfa ddata ganolog.

Formatted: Welsh

Formatted: Welsh

NID YW'R WEITHDREFN UCHOD YN EICH ATAL RHAG CODI'R MATER MEWN UNRHYW FFORDD ARALL, FEL Y BO'N BRIODOL.

13 Terfynol [Tachwedd 2022](#)

Deleted: Mai 2018

Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD	4 Ebrill 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adborth gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar Ddiwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd 22 Mawrth 2023
CEFNDIR:	

Yn absenoldeb y Cyngorydd Matthew Vaux, esboniodd Harry Dimmack mai'r tro diwethaf y cafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor ynghylch newidiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban oedd ar 16 Mai 2018, ac yna cymeradwywyd y newidiadau gan y Cabinet ar 19 Mehefin 2018. Rhoddwyd trosolwg o'r newidiadau allweddol, a oedd wedi'u marcio yn Atodiad 1. Byddai'r cyfeiriad ar gyfer Archwilio Cymru'n cael ei newid cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Harry Dimmack. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Gan mai mân newidiadau yn unig oedd i'r polisi, roedd cyflwyno'r polisi i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn ddigonol.
- Pe bai person eisiau codi pryder yn allanol, roedd y manylion cyswllt perthnasol wedi'u nodi ar dudalen 8 y polisi.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban fel y'u dangosir yn Atodiad 1, yn amodol ar ddiweddarau'r manylion cyswllt ar gyfer Archwilio Cymru.

Y Cyngorydd Keith Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 04/04/23****Teitl: Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal – Ffioedd y Sector Annibynnol a'r Awdurdod Lleol****Pwrpas yr adroddiad: Pennu'r ffioedd a argymhellir ar gyfer lleoliadau i bobl hŷn yng Nghartrefi Gofal y Sector Annibynnol yng Ngheredigion yn 2023/24****Er: PENDERFYNIAD****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant****1. Cyflwyniad**

Pennir ffi safonol ar gyfer lleoliadau i bobl hŷn y mae'r Cyngor yn eu comisiynu mewn cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio preifat yn y sir. Rhennir y ffioedd i bedwar categori gwahanol gyda ffioedd unigol. Yng Ngheredigion ceir 10 Cartref Gofal yn y sector Annibynnol (7 Cartref Preswyl a 3 Chartref Nyrsio) a 5 Cartref Gofal sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wrth ystyried a phennu pris am ofal i bobl hŷn yng nghartrefi Ceredigion. Mae amryw gyhoeddiadau ar gael hefyd, fel 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Fframwaith a Chanllawiau Comisiynu' Llywodraeth Cymru a phecyn cymorth Llywodraeth Cymru 'Dewch inni gytuno i gytuno'.

2. Cefndir

Y llynedd, comisiynodd y Cyngor sefydliad allanol i adolygu'n annibynnol ei Ffioedd Cartrefi Gofal, a rhoddwyd cryn dipyn o amser, egni ac ymdrech i'r adolygiad gan swyddogion y Cyngor, LaingBuisson a'r Cartrefi Gofal eu hunain. Rhoddodd y Cyngor ganlyniad yr adroddiad annibynnol ar gyfer 2022/23 ar waith yn llawn a arweiniodd at y ffioedd a ganlyn:

<u>Ffioedd Wythnosol am Leoliad*</u>	Preswyl	Preswyl EMI	Nyrsio	Nyrsio EMI
Ffioedd 2022/23	£760.00	£812.00	£883.30	£883.30
Cynnydd uwchlaw 2021/22 (£)	+£116.00	+£126.00	+£215.15	+£171.82
Cynnydd uwchlaw 2021/22 (%)	+18.0%	+18.4%	+32.2%	+24.1%

* Nid yw'r Nyrsio yn cynnwys yr elfen Gofal Nyrsio a ariennir gan yr Awdurdod Lleol (tua £7.86 yr wythnos)

3. Dull Gweithredu a Chanlyniad ar gyfer 2023/24

Roedd adroddiad annibynnol 2022 yn cydnabod nad oedd ymgymryd â dadansoddiad llawn o'r costau gwirioneddol yn realistig ym mhob un blwyddyn oherwydd y goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau i'r Cyngor a'r Cartrefi Gofal fel ei gilydd.

Cynigiai, yn hytrach, bod dadansoddiad llawnach yn cael ei gynnal bob 3-4 blynedd ac, yn y blynyddoedd cyfamserol, y byddai ystyriaethau ynghylch ymgodiadau blynyddol yn seiliedig ar ddull mynegai chwyddiant gan roi sylw dyledus i'r materion sy'n effeithio ar elfennau gwahanol yn y cymysgedd chwyddiant e.e. cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, Pensiynau, Bwyd, Ynni ac ati.

Yn dilyn y dull mynegai chwyddiant, cafodd rhagdybiaethau allweddol eu gwneud wrth bennu cynnig ffioedd ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd fel a ganlyn:

- i) Cynnwys darpariaeth i gynyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o £9.90 i £10.90 yr awr sy'n effeithio ar bob gweithiwr Gofal Cymdeithasol cofrestredig, a ffactora penderfyniad Llywodraeth y DU i wyrdroi'r cynnydd o 1.25% yn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr gan roi cynnydd o 9.4% i gyd, sydd wedi'i roi i staff gofal uniongyrchol a staff cynorthwyol.
- ii) Rhagdybio y bydd cyfradd gyflogau staff eraill (Rheolwyr a staff Gweinyddol) yn codi 7.5%
- iii) Rhagdybio y bydd costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff yn cynyddu gan gymryd cydrannau allweddol y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) swyddogol o 10.1% ym mis Ionawr 2023 i ystyriaeth. E.e. Yswiriant 13.6%, Bwyd 16.8%, Tai/dŵr/trydan/nwy/tanwydd arall 26.7% a Phob Elfen o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ac eithrio Ynni a Bwyd 5.8%.
- iv) Rhagdybio y bydd cynnydd o 3% mewn elw ac enillion ar y cyfalaf a ddefnyddir.

Mae hyn yn arwain at gynydd arfaethedig o 8.86% mewn ffioedd yn 2023/24 sy'n golygu y byddai llinell sylfaen costau safonol lleoliadau ar gyfer y 4 categori fel a ganlyn:

Ffioedd Wythnosol am Leoliad *	Preswyl	Preswyl EMI	Nyrsio	Nyrsio EMI
2022/23 Terfynol	£760.00	£812.00	£883.00	£883.00
2023/24 Arfaethedig	£827.00	£884.00	£961.00	£961.00

* Nid yw'r Nyrsio yn cynnwys yr elfen Gofal Nyrsio a ariennir gan yr Awdurdod Lleol (tua £7.86 yr wythnos)

4. Adborth y Sector Cartrefi Gofal yng Ngheredigion

Gofynnwyd i bob Cartref Gofal roi adborth ffurfiol ar gynnig cychwynnol dros dro o gynydd o 8.37% mewn ffioedd ar gyfer 23/24. Gwrthododd pob un o'r 3 Chartref Nyrsio (100%) a 4 Cartref Preswyl (57%) y cynnig, ond derbyniodd y 3 Chartref Gofal a oedd yn weddill (43%) y cynnig. Y prif resymau a roddwyd dros wrthod oedd costau staffio (gan gynnwys cyflogau) a chostau ynni/gwresogi.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adborth yn rhan o adolygiad o'r cynnig cychwynnol i gynyddu'r ffioedd ac adlewyrchir hyn yn y ffigurau a ddarperir dan Adran 3: Dull Gweithredu a Chanlyniad ar gyfer 2023/24 uchod. Arweiniodd hyn at gynydd yn yr 8.37% dros dro i 8.86%.

5. Casgliad

Roedd y cynnydd i Setliad Cyllid Llywodraeth Leol y Cyngor ar gyfer 23/24 gan Lywodraeth Cymru yn 8.1%. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol i staff Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Priodolwyd Cyllideb Lleoliadau i Bobl Hŷn 23/24 i gynydd yn y ffi ddangosol o 8.37%.

Amcangyfrifir y bydd cost y cynnydd arfaethedig o 8.86% mewn ffioedd yn rhyw £40k y flwyddyn os bydd nifer y lleoliadau yn parhau yn gyson sydd gyfwerth, yn fras, ag 1 lleoliad Gofal Preswyl ychwanegol. Dengys dangosyddion cynnar gan awdurdodau cyfagos (a'r rhan fwyaf heb gwblhau eu prosesau pennu ffioedd eto) y bydd ffioedd Ceredigion yn dal yn uwch.

Gyda chwyddiant yn parhau yn uchel, mae'r rhain yn amserau heriol i'r rhan fwyaf o fusnesau ac nid yw'r sector Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio yn wahanol. Rhodddwyd ystyriaeth lawn cyn belled â phosibl i gydnabod y pwysau costau penodol sy'n effeithio ar y sector ac ystyried adborth y Darparwyr drwy'r broses ymgynghori.

Cynigir bod y Cyngor yn rhoi'r cynnydd mewn ffioedd a amlinellir ar gyfer 23/24 ar waith o 10/04/23 (sy'n cyd-fynd â'r dyddiad gweithredu a ddefnyddiwyd ar gyfer asesiadau ariannol wedi'u diweddarau er mwyn osgoi dyblygu gwaith/gwaith ychwanegol yn y maes hwn). Yn ogystal, cynigir pennu ffioedd y Cartrefi Gofal a redir gan yr Awdurdod Lleol ar yr un lefel.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam Crynodeb: Amherthnasol Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal:	Na
Argymhellion:	1. Cymeradwyo'r ffioedd a delir i Gartrefi Gofal yng Ngheredigion ar gyfer 2023/24 ar y lefelau wythnosol a ganlyn, gan ddod i rym ar 10/04/2023:	

Preswyl	£827.00
Preswyl EMI	£884.00
Nyrsio	£961.00
Nyrsio EMI	£961.00

Tudalen 192

2. Cymeradwyo'r ffioedd a godir am Gartrefi Gofal Preswyl yng Ngheredigion ar gyfer 2023/24 ar y lefelau wythnosol a ganlyn, gan ddod i rym ar 10/04/2023:

Preswyl	£827.00
Preswyl EMI	£884.00

Rheswm dros y penderfyniad	Er mwyn cytuno ar ffioedd i bobl hŷn ar gyfer 2023/24.
Trosolwg a Chraffu:	Dim
Fframwaith Polisi:	Costau Lleoliadau a Gomisiynwyd a'r Ffioedd a Chostau
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Amcangyfrifir y bydd cost y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd tua £40k ychwanegol y flwyddyn uwchlaw Cyllideb 23/24 os bydd nifer y lleoliadau yn parhau yn gyson.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau Eiddo / Asedau:	Dim
Risg(iau):	Gall fod heriau o ran comisiynu yng nghyswllt Cartrefi Gofal unigol os byddant yn gwrthod ffioedd safonol y Cyngor ar gyfer lleoliadau a/neu yn ceisio codi Cyfraniadau Cost Ychwanegol ar breswylwyr.
Pwerau Statudol:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yn 2010 – 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Fframwaith a Chanllawiau Comisiynu'
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Dim

Tudalen 193

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal a'r Cyfarwyddwr Statudol)
Donna Pritchard (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal)
Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)

Swyddog Adrodd: Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)
George Ryley (Rheolwr Corfforaethol: Caffael a Chomisiynu)

Dyddiad: 20/03/23

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	4 Ebrill 2023
Teitl:	Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (03.02.23)
Pwrpas yr adroddiad:	Cyflwyno cofnodion cyfarfod diwethaf Cyngor Ieuenctid Ceredigion
Er:	Er gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

CEFNDIR:

Un o'r dyletswyddau a roddwyd i Awdurdodau Lleol o fewn Llywodraeth Cymru – Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y **Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**.

Er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- *Gefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.*
- *Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac i gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.*
- *Er mwyn i Fforymau / Cyngorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn.*
- *Dylent gael eu hysbysu a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol.*
- *Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Young Wales, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn ac i'r safbwyntiau hyn fod o bwys. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu cynnwys, ac ni ddylid eu diswyddo allan o law ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da. **Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)***

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu Ceredigion sy'n gyfrifol am gydlynu a rheoli Cyngor Ieuenctid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu gyntaf yn Hydref 2015. Maent yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) ac mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiad ar ddiwedd eu blwyddyn 'yn y rôl'. Mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid bellach yn cael eu cynnal nol yn y Siambr ym Mhenmorfa.

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Crynodeb:

Hirdymor: Cydbwysu angen tymor byr â chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Integreiddio: Darparu ymyrraeth gynnar i leihau problemau rhag datblygu

Cydweithio: Ystyried sut y gall llesiant pobl ifanc effeithio ar bob un o'r nodau llesiant

Cynnwys: Gweithio gydag eraill i greu cyfleoedd i bobl ifanc

Atal: Cynnwys pobl ifanc a cheisio eu barn

Argymhelliad / Argymhellion:

Er mwyn i'r Aelodau Etholedig weld cofnodion cyfarfod diwethaf Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Cabinet, er gwybodaeth.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Cymeradwyo'r cais a bodloni gofynion y ddeddfwriaeth fel y nodir yn Atodiad B Llywodraeth Cymru - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

Trosolwg a Chraffu:

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu

Fframwaith Polisi:

Blaenoriaethau Gorfforaethol:

Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Dim

Goblygiadau cyfreithiol:

Dim

Tudalen 197

Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1- Atodiad B Canllawiau Statudol ynghylch cyfranogiad plant a phobl ifanc Atodiad 2: Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion 03.02.2023
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
Swyddog Adrodd:	Lowri Evans / Gwion Bowen
Dyddiad:	13eg Mawrth 2023

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

SPSF 3 - ATODIAD B
CANLLAWIAU STATUDOL YNGHYLCH CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC

Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyhoeddi yn unol ag [Adran 17\(3\) o Fesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\) 2010](#) ac maent yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol, a phryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol *wneud trefniadau y maent yn ystyried sy'n addas i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi a diweddarau gwybodaeth am ei drefniadau*. Gallai'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni drwy'r cynllun llesiant lleol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant hyd at 18 oed. Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau dynol sylfaenol ond yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w hamddiffyn rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae gan CCUHP 54 o erthyglau. Mae erthyglau 1-41 yn nodi sut y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin. Mae'r 13 o erthyglau eraill yn nodi sut y dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i sicrhau y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at eu hawliau.

Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad i'r Confensiwn yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth gyda [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifance \(Cymru\) 2011](#).

Mae Adran 1 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried sut mae'r hyn maent yn ei wneud yn

Tudalen 199

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

cysylltu â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a manteisiwyd ar bob cyfle i nodi sut i wireddu'r hawliau perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, mae hyn yn treiddio l lawr i'r lefel leol drwy ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan sy'n hawl sylfaenol ac yn hawl galluogi fel y nodir yn Erthygl 12 CCUHP:

Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch beth maent yn meddwl a ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, ac i gael eu barn wedi ei hystyried.

Mae erthyglau'r CCUHP wedi'u crynhoi'n [Saith Nod Craidd](#) a ddylai fod yn sail l arferion gwaith unrhyw ddarpariaeth gan wasanaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol. Mae Nod Craidd 5 yn arbennig yn ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc gyda'r nod

Bod pob plenty a person ifanc yn cael gwrandawriad, yn cael eu trin a pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cynabod

Bwriad y canllaw hwn felly yw rhoi cyfle i bob plantyn a pherson ifanc gael gwrandawriad a chael cyfrannu at wneud penderfyniadau.

Gall llais a chyfranogiad y dinesydd fod yn erfyn pwysig i ddeall ble mae system yn methu a lle mae diffyg cyd-drefnu rhwng darparwyr gwasanaethau yn gwastraffu adnoddau heb wella canlyniadau, i ailgynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion pobl ac i bwysu a mesur effeithlonrwydd gwasanaeth. Dylai plant a phobl ifanc gael eu hystyried fel dinasyddion nawr, nid dinasyddion y dyfodol. Dylai Awdurdodau Lleol feddwl sut y gallant roi'r grym i blant a phobl ifanc gyfrannu at wneud penderfyniadau a sicrhau bod clust i glywed eu barn. Er y bod yn well gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc

Tudalen 200

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

gyfrannu mewn grŵp, dylid ystyried sut y gall unigolion fod yn rhan o brosesau cynllunio a phenderfynu.

Gofynion

Er mwyn bodloni gofynion y Ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn cyd-destun eang y CCUHP, fel rhan o'u polisiau, gwasanaethau a'r ymgysylltu ehangach â dinasyddion. Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol sicrhau bod cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl yn ymwybodol o'u hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn, gan gynnwys eu hawl i gymryd rhan ac i'w barn gael ei chlywed, a'u hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau am bolisiau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau;
- gwreiddio cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys Asesu Llesiant Lleol, y cynllun llesiant lleol ac is-gynlluniau perthnasol;
- mabwysiadu Safonau Cyfranogi Cenedlaethol. Mae cefnogaeth i'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i hawliau plant yng Nghymru a cheir llawer o enghreifftiau o arferion da o gyrrff sydd wedi mabwysiadu'r safonau fel cyfrwng i sicrhau bod unrhyw gyfranogiad yn ystyrlon ac effeithlon.
- cyhoeddi gwybodaeth am fanteision a threfniadau hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad yn yr awdurdod, a rhannu enghreifftiau o arferion da, er enghraifft, trwy wefannau a thafleuni newyddion yn ogystal ag ar y Bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwrandawriad, yn cael eu trin â pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cydnabod. cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda 'Young Wales'. Gall y plant a'r bobl ifanc eu hunain gymryd rhan amlwg i godi ymwybyddiaeth am

Tudalen 201

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

bwysigrwydd cymryd rhan. Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o adnoddau a allai gefnogi hyn ac y gellid eu haddasu yn ôl anghenion lleol. Yn ogystal â defnyddio adnoddau a'r cyfryngau sy'n rhwydd eu cyrraedd gan blant a phobl ifanc, gellid cynnwys gwybodaeth yn adroddiad cynnydd blynyddol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;

- dylai gwybodaeth a deunyddiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc fod yn glir ac yn hawdd i'w deall. Dylent ateb eu cwestiynau a'r anghenion a nodwyd ganddynt, yn ogystal â bod yn gywir, yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hygyrch o ran iaith a fformat.

- sicrhau bod ystod o gyfleoedd a'r gefnogaeth briodol yn cael eu darparu ar gyfer cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fel unigolion gymryd rhan gael eu hintegreiddio i'r gwasanaethau o ddydd i ddydd yn ogystal â strwythurau cyfranogi penodol megis fforymau ar gyfer plant, fforymau ar gyfer pobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, rhai sy'n agored i niwed neu rai sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol. Mae gan y fforymau a'r grwpiau hyn rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi plant a phobl ifanc i gael llais ac i ddefnyddio eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn;

- cefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid Sirol fel corff cynrychiadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac at gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc sy'n fwy ar yr ymylon. Er mwyn i Fforymau/ Cyngorau Ieuenctid Sirol weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn. Dylent gael eu hysbysu gan eu strwythurau democrataidd lleol a'u cysylltu â hwy. Bydd angen iddynt hefyd gysylltu'n effeithiol i mewn i strwythurau cyfranogiad cenedlaethol megis 'Young Wales', Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tudalen 202

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

- rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg wrth hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ac fel rhan o baratoi'r cynllun llesiant lleol, gan adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru a'r nod llesiant cenedlaethol sef 'y Gymraeg yn ffynnu'.

Gweithio gyda phartneriaid

Er bod y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddwyd o dan [Fesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\) 2010](#) yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn unig, byddem yn eu hannog i weithio'n agos gyda phob un o'u partneriaid perthnasol. Mae gweithio mewn ffordd amlasiantaethol yn arfer da ac mae Adran 25 [Deddf Plant 2004](#) yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithrediad gyda'r bwriad o wella llesiant plant yn yr ardal. Ymhellach, mae [Adran 38 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn rhoi gofyniad ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd i ymgynghori wrth asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal.

Mae llawer o enghreifftiau o bartneriaid sy'n cyfrannu at gyfranogiad plant a phobl ifanc ac yn ei brif ffrydio i'w meysydd gwaith a'u trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion. Gwelir rhai o'r rhain ar www.youngwales.wales and www.pupilvoicewales.org.uk.

Beth sy'n digwydd nawr?

Mae cwmpas y ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach na chael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol. Mae'n bwysig fod cyfranogiad yn dod yn rhan o bolisi ac arferion yr holl bartneriaid lleol. Dylai Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso.

Tudalen 203

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

Fodd bynnag, gallai'r cynllun llesiant esbonio sut y gellid sicrhau bod pob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau a'u "trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad" wneud cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yn ganolog iddynt. Gallai adroddiad cynnydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys crynodeb i esbonio sut mae'r dyletswyddau statudol hyn wedi'u cyflawni a sut y gellid gwneud yn well. Gallai adroddiad cynnydd blynyddol y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ystyried y nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig o ran oed, gan adrodd yn benodol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Hefyd, mae cynlluniau llesiant lleol yn rhoi tystiolaeth i Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) wrth iddynt gynnal adolygiadau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Gallai Arolygiaethau a'r WAO hefyd adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r gweithdrefnau cysylltiedig i ddangos pa mor effeithiol y mae plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u cynnwys.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwrandawriad, i gael llais ac i allu cael mynediad at gyfleoedd i chwarae rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau lle bynnag y bônt - yn yr ysgol, o gwmpas yn y gymuned neu fel defnyddwyr gwasanaethau.

Ein huchelgais yw i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru wireddu eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn. Efallai y bydd yna weithiau rwystrau i gyflawni hyn, ond drwy weithio mewn ffordd gydweithredol, mae gennym ni i gyd rôl o ran ystyried ffyrdd y gallai'r rhwystrau hyn gael eu dileu neu eu goresgyn. Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd o ran cyfranogaeth plant a phobl ifanc, a rhaid cynnal y momentwm.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am arfer da mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc ar www.childrensrights.wales neu

http://www.childrensrights.wales/images/PDF/Participation_En2.pdf

Tudalen 204

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

Mae gwybodaeth, adnoddau, deunyddiau ac arfer da sy'n cefnogi cyfranogiad yng Nghymru ar gael hefyd yn www.youngwales.wales.

Cofnodion Cyfarfod
Cyngor Ieuenctid Ceredigion
Siambur y Cyngor, Penmorfa
Dydd Gwener 03 Chwefror 2023

(10:00 – 13.45)

Yn bresennol:

Ysgol Gyfun Aberaeron
 Ysgol Gyfun Aberaeron ac ASI SIDU
 Ysgol Bro Pedr
 Ysgol Bro Pedr
 Ysgol Bro Pedr
 Ysgol Bro Pedr
 Ysgol Gyfun Penweddig
 Ysgol Gyfun Penweddig
 Ysgol Gyfun Penweddig
 Ysgol Gyfun Penweddig
 Ysgol Bro Teifi
 Ysgol Bro Teifi
 Ysgol Bro Teifi
 Ysgol Bro Teifi
 Ysgol Penglais
 Ysgol Penglais
 Ysgol Henry Richard
 Ysgol Henry Richard
 Cenhadon Cymunedol Aberystwyth a Choleg Ceredigion

Yn Bresennol hefyd: Gwion Bowen (Cadeirydd a Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ymgysylltu), Lowri Evans (Rheolwr Tîm, Gwaith Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ymgysylltu – Cyngor Sir Ceredigion), Elen James (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar – Cyngor Sir Ceredigion), Gethin Jones (Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaeth Cymorth ac Atal – Cyngor Sir Ceredigion), Y Cyngorydd Wyn Thomas (Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) a'r Cyngorydd Alun Williams (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gydol Oes a Lles)

Siaradwyr: Rhidian Harries (Rheolwr Tîm, Canolfan Lles Canolbarth a De Ceredigion – Cyngor Sir Ceredigion), Becca Head a Devion McKenzie (Area 43) a Carys Huntly (Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant – Cyngor Sir Ceredigion)

Ymddiheuriadau: Lloyd Warburton (ASI - Senedd Cymru), (Cenhadon Cymunedol Aberystwyth a Choleg Ceredigion), (Ysgol Uwchradd Aberteifi), (Ysgol Uwchradd Aberteifi), (Ysgol Penglais) ac (Ysgol Gyfun Aberaeron)

Agenda y Cyfarfod:

Agenda Cyngor
 Ieuenctid 03.02.23.doc

COFNODION

1 Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

Agorodd Gwion Bowen y cyfarfod trwy estyn croeso i'r Cyngor leuenctid i'r Siambr.

Cyflwynodd aelodau'r Cyngor leuenctid eu hunain, gan nodi pa ysgolion / sefydliadau y maent yn eu cynrychioli. Cyflwynodd eraill a oedd yn bresennol eu hunain, gan nodi eu rolau.

Nodwyd yr ymddiheuriadau.

Hysbysodd GB y Cyngor leuenctid o'r trefniadau ymarferol.

- Siaradwyr
- Dyfeisiau cyfieithu
- Allanfeydd Tân
- Toiledau
- Cinio a lluniaeth

Esboniodd GB y bydd cofrestr yn mynd o gwmpas yn ystod y cyfarfod er mwyn i'r aelodau ei llenwi.

2 Ethol Cadeirydd y Cyngor leuenctid ar gyfer 2022/23

O ganlyniad i gyfyngiadau amser, ni fu modd cynnal yr etholiad am Gadeirydd y Cyngor leuenctid yn ystod y cyfarfod diwethaf.

Cafwyd cyflwyniad byr gan GB i esbonio rôl Cadeirydd y Cyngor leuenctid a'r prif ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r rôl.




Etholiad Cadeirydd
Cyngor leuenctid 2022.

Bu cyfle i unrhyw aelodau yr oedd ganddynt ddi-ddordeb mewn sefyll mewn etholiad, i roi anerchiad 30 eiliad gan rannu pam eu bod yn teimlo eu bod yn ymgeisydd addas i gynrychioli Cyngor leuenctid Ceredigion fel eu Cadeirydd ar gyfer 2022-23.

Mae gan bob aelod 1 pleidlais a dylid rhoi'r pleidleisiau yn y blwch pleidleisio yn nhu blaen y Siambr.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn dymuno sefyll i godi eu dwylo, ac roedd 3 o aelodau'r Cyngor leuenctid wedi gwneud hynny.

1. Ioan Evans (Ysgol Gyfun Aberaeron)
2. Michael Bray (Ysgol Penglais)
3. Ifan Meredith (Ysgol Bro Pedr)

	<p>Cyhoeddir enw'r ymgeisydd llwyddiannus ar ôl cinio.</p> <p><i>Ar ôl cinio, cyhoeddwyd enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ac estynnwyd llongyfarchiadau iddo.</i></p> <p>Etholwyd Ifan Meredith (Ysgol Bro Pedr) yn Gadeirydd Cyngor leuenctid Ceredigion ar gyfer 2022-23 a chadeiriodd weddill y cyfarfod ar ôl cinio.</p>
3	Gweithdai: Is-Grwpiau yr Amgylchedd ac Urddas Mislif
	<p>Estynnwyd gwahoddiad i aelodau newydd y Cyngor leuenctid ddewis mynychu un o ddau is-grŵp, gan gymryd rhan yn yr un y byddent yn ei ddewis.</p> <p>Rhannwyd y Cyngor leuenctid er mwyn cynnal dau weithdy is-grŵp, gan barhau gyda'r gwaith a gynhaliwyd yn ystod cyfarfod diwethaf y Cyngor leuenctid ac yn ystod cyfarfodydd dilynol ers hynny.</p> <p>Yn ystod y cyfarfod, bu is-grŵp yr amgylchedd yn canolbwyntio ar gytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig ar gyfer yr is-grŵp newydd a gaiff ei ddiwygio ar ôl cael adborth y grŵp. Cynhelir cyfarfod nesaf yr is-grŵp ar 13 Mawrth ar Teams HWB. Bydd y cyfarfod hwn yn gyfle i aelodau drafod blaenoriaeth amgylcheddol ar gyfer yr is-grŵp ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod.</p> <div data-bbox="746 1064 957 1198" style="text-align: center;">  <p>Draft Environment Sub-group Terms of R</p> </div> <p>Bu'r is-grŵp urddas mislif yn adolygu ei gynnydd, gan benderfynu ar ba gynhyrchion mislif i'w prynu ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol. Yn ogystal, bu'r grŵp yn trafod lleoliadau cynhyrchion mislif mewn ysgolion, a syniadau ynghylch y ffordd orau o'u dosbarthu i ddisgyblion.</p>
4	Diweddariad gan Aelod Senedd leuenctid Cymru – Gwybodaeth
	<p>Roedd Lloyd Warburton (ASI) yn absennol o'r cyfarfod, felly ni rannwyd diweddariad.</p>
5	Diweddariad gan ASI Ceredigion yn Senedd leuenctid y Deyrnas Unedig (SIDU) – Gwybodaeth
	<p>Rhoddodd Aled Lewis (ASI) ddiweddariad am ei waith ar ôl iddo gael ei ethol yn ASI ar gyfer Ceredigion o fewn SIDU.</p> <p>Yn ddiweddar, cyfarfu Aled gyda Ben Lake AS; Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion; Y Cynghorydd Wyn Thomas; Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Elen James; Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion. Rhoddodd Aled ddiweddariad i'r aelodau am yr hyn a drafodwyd. Mae'r argyfwng costau byw yn uchel ar agenda AS Ceredigion, ac mae materion sy'n ymwneud â'r argyfwng costau byw, megis biliau ynni sy'n codi, wedi cael eu codi gan Ben Lake AS yn y senedd. Roedd y materion eraill a drafodwyd yn cynnwys; trafndiaeth, plismona a'r</p>

berthynas rhwng yr heddlu a phobl ifanc, 'stopio a chwilio' yng Ngheredigion, addysg a phrofiad gwaith ar gyfer pobl ifanc.

Gofynnodd IE am wybodaeth bellach am drafnidiaeth, ac adleisiwyd hyn gan MB a gododd mater yr amser o'r dydd y bydd rhai bysiau yn dychwelyd, yn enwedig i bentrefi gwledig. Soniodd MB am y problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn arbennig, sef na fyddant yn aml yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol neu ryngweithio mewn ffordd gymdeithasol gyda ffrindiau ar ôl ysgol gan bod y bws olaf yn gadael am 5.30pm, ac fe fyddai o gymorth pe bai bysiau hwyrach, er mwyn osgoi rhai pobl ifanc yn cael eu gwahardd o'r cyfleoedd hyn, nad ydynt yn effeithio ar rai o'u cymheiriaid sy'n byw yn y prif drefi efallai neu nad oes ganddynt ffordd o gyrraedd gartref heb ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Cytunodd AL gyda'r pwyntiau hyn, ac esboniodd bod hwn yn rhywbeth a godwyd yn ystod y cyfarfod ac sy'n cael ei gydnabod fel rhwystr ar gyfer pobl ifanc. Soniodd AL am syniad posibl y byddai modd ei beilota mewn un ysgol neu ardal, lle y caiff llwybr bws ei drefnu a bod gweithgareddau yn yr ysgol neu'r ardal honno yn cael eu darparu ar y noson honno, er mwyn gweld a fyddai hyn yn helpu'r rhai nad ydynt yn gallu cymryd rhan ar hyn o bryd. Nododd disgyblion Ysgol Henry Richard bod trafndiaeth a chyrraedd gartref o glybiau ar ôl ysgol yn rhywbeth y maent yn ei weld yn eu hardal nhw. At hynny, soniodd IM am broblem bosibl sef nad yw bysiau ysgol ar gael ar gyfer rhai pobl ifanc eraill, er enghraifft myfyrwyr coleg, pan fydd bws yn rhedeg, ac a oes unrhyw ddatrysiadau ar gyfer hyn. Dywedodd AL y bydd yn parhau i gydweithio â swyddogion er mwyn cyfleu'r hyn sy'n bwysig i bobl ifanc.

6 Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan

Yn ystod cyfarfod diwethaf y Cyngor Ieuenctid, cytunwyd gwahodd swyddog o Wasanaethau y Canolfannau Lles i roi diweddariad am y datblygiad yn y cyfarfod hwn.



Roedd Rhidian Harries yn bresennol fel Rheolwr Tîm y Ganolfan Lles; Canolbarth a De Ceredigion, a rhoddodd gyflwyniad a oedd yn dangos y diben a'r cynnydd sydd wedi cael ei sicrhau wrth drawsnewid Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan yn Hyb Lles ehangach, gan gynnig buddion iechyd a ffitrwydd a buddion cymunedol ehangach.



Cyflwyniad Canolfan
Lles Llanbedr Wellbeir

Esboniodd RhH bod yr Ystafell Ieuenctid yn cael ei datblygu ac y bydd arlunydd graffiti yn dod i mewn i greu darn o waith celf pwrpasol ar gyfer y lle gyda disgyblion o Ysgol Bro Pedr. Yn anffodus, oherwydd y gwaith adeiladu sy'n mynd rhagddo yn y lleoliad, ni fydd disgyblion yn gallu mynd i mewn i wneud y gwaith paentio, ond byddant yn gyfrifol am ddewis y dyluniad.

Diolchodd LJ i RhH am y cyflwyniad a'r diweddariad, ac roedd yn teimlo ei fod yn cynnig dealltwriaeth well i bobl ifanc o gynnydd y datblygiad. Holodd IM a fyddai'r Ystafell Ieuenctid ar gael yn ystod oriau ysgol, gan nad oes gan fyfyrwyr y chweched dosbarth Ysgol Bro Pedr ystafell gyffredin yn yr ysgol ar hyn o bryd. Esboniodd RhH y byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn cael sgwrs gyda'r ysgol ynghylch sut y byddai modd ei

	defnyddio, gan sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion a defnyddwyr y ganolfan yn ystod y cyfnod hwn.
7	<p>Cyflwyno Ymgyrch Pynciau Llosg Pobl Ifanc Ceredigion ar gyfer 2023</p> <p>Cyflwynodd GB Ymgyrch Pynciau Llosg Ceredigion ar gyfer 2023, gan rannu ychydig wybodaeth am gefndir ymgyrch Gwneud Eich Marc, a gynhaliwyd yng Ngheredigion ers sawl blynedd gan Gyngor Ieuenctid Prydain. O ganlyniad i newidiadau i raglen flynyddol Cyngor Ieuenctid Prydain, esboniodd GB nad yw hi'n glir a gynhelir ymgyrch Gwneud Eich Marc eleni neu beidio.</p> <p style="text-align: center;"> Canlyniadau MYM 2022.pptx</p> <p>Felly, penderfynwyd y bydd Ceredigion yn creu pleidlais leol, gan ddilyn ffurf tebyg i'r ffurf GEM swyddogol, a fydd yn cynnig y cyfle i bobl ifanc bleidleisio am faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd canlyniadau'r bleidlais hon yn cynnig sylfaen ar gyfer digwyddiad Pawb a'i Farn eleni, a hefyd, bydd yn llywio gwaith ymgyrchu arall gyda'r ASlau. Bydd angen enw ar yr ymgyrch leol, a dewisir ei phynciau llosg heddiw gan aelodau'r Cyngor Ieuenctid. Gofynnodd GB i'r aelodau ddechrau ystyried yr hyn sy'n bwysig yn eu barn nhw dros ginio. Ar ôl diffinio'r pynciau, bydd GB yn creu ac yn dosbarthu'r papurau pleidleisio i'r holl Ysgolion Uwchradd, UCD, Coleg Ceredigion, HCT a grwpiau gwirfoddol eraill erbyn diwedd mis Chwefror 2023. Cynhelir y bleidlais am bythefnos, yna bydd y canlyniadau ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid ar 17/03/23.</p>
8	<p>Ymgynghoriad: Prosiect 'Dyfodol Ni' y Gronfa Gymunedol</p> <p>Roedd Becca a Devion yn bresennol o Area 43, Aberteifi. Rhoddont ychydig wybodaeth gefndirol am brosiect 'Dyfodol Ni', a ariannir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Darparir y prosiect ar gyfer pobl ifanc, gan bobl ifanc a chaiff Pwyllgor Rheoli Pobl Ifanc ei ffurfio i'w lywio, o'r gweithgarwch ymgynghori i'r broses o wneud penderfyniadau.</p> <p style="text-align: center;"> Dyfodol Ni ENG.pdf</p> <p>Holodd Becca; Beth fyddwch chi'n ei wneud ar ôl ysgol?</p> <p>Roedd yr atebion yn cynnwys chwaraeon fel hoci, pêl-droed, rygbi a mynd i'r gampfa.</p> <p>Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc yn rhannu'r argraff bod cryn dipyn i bobl ifanc ei wneud ar ôl ysgol, ond mynediad i drafnidiaeth a'r ffordd o gyrraedd gartref o glybiau a gweithgareddau yw'r prif rwystr.</p> <p>Awgrymodd IM y byddai mwy o feysydd chwarae 3G o fudd i bobl ifanc.</p> <p>Holodd Becca; A oes unrhyw un wedi bod i Glwb Ieuenctid o'r blaen?</p>

Dywedodd aelodau o Ysgol Henry Richard yr arferent fynychu clwb coginio ar ôl ysgol, sydd bellach wedi dod i ben. Yn gyffredinol, dywedodd yr holl aelodau eraill nad oeddent wedi mynychu Clwb Ieuenctid o'r blaen.

Holodd Becca; **Yn eich barn chi, beth fyddai modd ei wella ar gyfer pobl ifanc?**

Awgrymodd yr aelodau; lle anffurfiol i ddal i fyny gyda gwaith cartref, cyfathrebu gydag ysgolion am Glybiau Ieuenctid, caffis cymunedol er mwyn cael lle i eistedd a siarad gyda ffrindiau, hysbysebu gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol a thafleuni hysbysebu, manau dros dro mewn trefi lle y gallwch aros am ychydig.

Diolchodd Becca i'r Cyngor Ieuenctid am rannu eu meddyliau.

9 Ymgynghoriad ar Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023 - 2028



Cyflwynodd Carys Huntly, Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cyngor Sir Ceredigion, ymgynghoriad y Cynllun Llesiant Lleol i'r Cyngor Ieuenctid, gan esbonio pwysigrwydd casglu safbwyntiau pobl ifanc er mwyn sicrhau bod y Cynllun Llesiant yn adlewyrchu anghenion yr holl breswylwyr sy'n byw yng Ngheredigion.






BGC-PSB.pptx


Rhannwyd y Cyngor Ieuenctid yn 5 grŵp a than drefniant carwsél, cawsant y cyfle i roi adborth am y blaenoriaethau allweddol canlynol;

- Byddwn yn mynd i'r afael â chaledi a thlodi wrth ymateb i'r argyfwng costau byw
- Byddwn yn lleihau llygredd er mwyn gwella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd
- Byddwn yn dathlu'r iaith Gymraeg ac amrywiaeth ddiwylliannol yn ein cymunedau
- Byddwn yn gweithio gyda chi i wella eich amgylchedd lleol a'ch manau cymunedol
- Byddwn yn helpu i roi'r sgiliau angenrheidiol i chi ar gyfer swyddi yn y dyfodol, gan gynnwys swyddi gwyrdd, ac yn cynnig o mwy o brentisiaethau






Holodd CH i'r aelodau rannu unrhyw sylwadau pellach a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad ar nodiadau post-it i'w gosod ar y wal cyn diwedd cyfarfod y Cyngor Ieuenctid.



20230207 - Youth Council Consultation I

Cadeiriwyd y gweithdy hwn gan Ifan Meredith, a bu'n ystyried y pynciau llosg a gaiff eu cynnwys yn y papurau pleidleisio ar gyfer y gwaith ymgyrchu lleol eleni.

Rhannwyd 13 pwnc yn y lle cyntaf fel rhai sy'n bwysig i bobl ifanc yng Ngheredigion, ac yna roedd angen ffurfio rhestr llai o faint a fyddai'n cynnwys tua 8 pwnc llosg.



Trafodaeth a Thafllu Syniadau;

1. **Costau Byw** (codiadau mewn prisiau ynni, cost tanwydd, trafniadaeth a phrydau ysgol)
2. **Trafnidiaeth** (cost trafniadaeth, llwybrau bws gwledig, diffyg bysiau sy'n rhedeg yn hwyrach gyda'r hwyr, y ffaith nad yw pob llwybr beicio yn hygyrch ac yn ddiogel, dim digon o ddefnydd yn cael ei wneud o rwydweithiau rheilffyrdd)
3. **Ail Gartrefi** (effaith ail gartrefi ar gymunedau lleol, sy'n codi'r prisiau ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd lleol, prisiau rhent tai a fflatiau yn anfforddiadwy i bobl ifanc ar ôl iddynt orffen yn y brifysgol, diffyg tai llwyr mewn rhai ardaloedd o'r Sir, risg bod yn ddigartref i'r rhai sy'n gadael gofal gan bod diffyg tai fforddiadwy yn cynyddu. Effaith hyn ar addysg y rhai sy'n gadael gofal, os bydd y teulu yn chwalu neu os bydd trefniant gofal maeth yn methu, nid oes llety amgen addas ar gael ar gyfer pobl ifanc 17 ac 18 oed y mae ei angen arnynt, sy'n golygu bod perygl y byddant yn cael eu lletya mewn mannau anaddas neu'n cael eu gyrru o'r Sir)
4. **Yr iaith Gymraeg** (yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg yn well mewn ysgolion dwyieithog er mwyn cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)
5. **Addysg a Sgiliau Bywyd** (yr angen am fwy o wersi ymarferol er mwyn eich helpu yn y dyfodol, pethau fel mecaneg, plymio, seicoleg a galwedigaethau eraill. Yr angen i bob disgybl gael eu haddysgu am seicoleg ymddygiadol, er mwyn helpu disgyblion i ddeall eu hemosiynau, a fydd yn eu helpu gyda'u hiechyd meddwl a'u lles. Mae angen rhoi mwy o ffocws ar sgiliau bywyd a lles mewn ysgolion, gan gynnwys rheoli arian)
6. **Newid Hinsawdd** (mwy o fannau gwyrdd fel parciau. Mwy o grantiau ar gyfer paneli solar i gartrefi, er mwyn lleihau cyfanswm y tanwydd ffosil a ddefnyddir a chynyddu ynni gwyrdd)
7. ~~**Sgiliau Bywyd** (cyfunwyd y pwnc hwn gyda rhif 5)~~
8. **Cydraddoldeb** (mwy o gyfleoedd i ferched gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ysgolion ac yn y gymuned)
9. **Rhagfarn** (mynd i'r afael â rhagfarn yn erbyn grwpiau lleiafrifol neu sy'n cael eu tangynrychioli)
10. **Amrywiaeth o Swyddi** (diffyg swyddi ym mhob maes gwahanol yn rhwystr i bobl ifanc sy'n dymuno dychwelyd i Geredigion)
11. **Sgiliau Entrepreneuriaeth a Busnes** (yr angen i gynnig busnes ac entrepreneuriaeth mewn ysgolion er mwyn annog pobl ifanc i ddysgu am lwybrau gyrfa eraill nad ydynt yn rhai traddodiadol, megis hunangyflogaeth)
12. **Prentisiaethau a Phrofiad Gwaith** (ni chynigir profiad gwaith i ddisgyblion ysgol mwyach. Dylid gwella'r tâl a roddir i brentisiaid er mwyn annog mwy i ystyried y llwybr hwn. Nid yw prentisiaethau ar gael ym mhob maes, megis TGCh neu godio ac mae angen cael mwy o amrywiaeth er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc)
13. **Stopio a Chwilio / Camddefnyddio Sylweddau** (tybiaeth pobl ifanc o'r heddlu a'r protocol stopio a chwilio yn ardal Dyfed Powys, yn ogystal â'r cynnydd mewn cyffuriau mewn cymunedau, sy'n effeithio ar bobl ifanc a theuluoedd)

Cynhaliwyd ymarfer 'pleidleisio gyda'ch traed' i leihau a blaenoriaethu'r 13 pwnc a nodwyd. O ganlyniad, dewiswyd yr 8 pwnc canlynol ar gyfer pleidlais eleni;

Rhifau; 12 / 8 / 5 / 4 / 3 / 2 / 1 / 11

--	--

10	Ymgyrch Pynciau Llosg Pobl Ifanc Ceredigion ar gyfer 2023
11	Rhannu Gwybodaeth a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
	<p>Rhannodd GB wybodaeth am eitemau Unrhyw Fater Arall;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgyngoriad ‘Sgwrs’ – CHTh Heddlu Dyfed Powys • Gwarant i Bobl Ifanc – Llywodraeth Cymru <p>Rhannodd GB wybodaeth am y cyfarfod nesaf, a gynhelir unwaith eto yn y Siambr ar 17/03/2023.</p> <p>Dyddiadau cyfarfodydd:</p> <p>Cyfarfod 1; 21/10/22 Cyfarfod 2; 03/02/23 Cyfarfod 3; 17/03/23 Diwedd y tymor, Digwyddiad Pawb a'i Farn; 14/07/23</p> <p>Gofynnodd GB i'r holl aelodau allgofnodi ar eu ffordd allan o Benmorfa, ac i aros am eu trafndiaeth yn y dderbynfa.</p> <p>Diolchodd GB i'r grŵp am gyfarfod cynhyrchiol a chadarnhaol o Gyngor Ieuenctid 2022-23.</p> <p><i>Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau y caiff safbwyntiau pobl ifanc eu bwydo i'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.</i></p>



Etholiad Cadeirydd Cyngor
Ieuenctid 2022/23
Youth Council Chair
Person Election 2022/23

Ethol Cadeirydd Cyngor leuenctid / Electing a Youth Council Chairperson

- Cadeirio Cyfarfodydd Cyngor leuenctid/
Chair Youth Council Meeting
- Rôl adeg Digwyddiad Pawb A'i Farn 2023 /
A role during Pawb A'i Farn 2023 Event
- Cynrychioli aelodau'r Cyngor leuenctid tu allan i
gyfarfodydd / Represent Youth Council members
outside of meetings
- Cwestiwn/Question:
- **Pam i chi'n teimlo mai chi yw'r aelod orau i fod yn
gadeirydd y Cyngor leuenctid?**
- **Why do you feel you are the best member to
chair the Youth Council?**



Is-Grŵp yr Amgylchedd Cyngor Ieuenctid Ceredigion CYLCH GORCHWYL Ionawr 2023

Nod Is-grŵp yr Amgylchedd Cyngor Ieuenctid Ceredigion:

Yn unol ag Erthygl 12 Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), bydd is-grŵp yr Amgylchedd Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol ac sy'n ymwneud â newid hinsawdd, sy'n effeithio ar Bobl Ifanc sy'n byw yn Sir Ceredigion a thu hwnt.

Yng Nghyd-destun CCUHP

Mae hanes hir yng Nghymru i'r ymrwymiad i gynorthwyo plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac i ddylanwadu ar weithgarwch gwneud penderfyniadau. Mae hwn yn rhywbeth a gefnogir gan Gyngor Ieuenctid Sir Ceredigion.

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – Mae Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn amlinellu'r gofynion lleiaf o ran diogelu, darparu a chyfranogi y dylai pob plentyn a pherson ifanc ddisgwyl eu cael er mwyn byw bywydau diogel, hapus a boddhaus. Mae Erthygl 12 CCUHP yn gwarantu'r hawl i blant gael eu clywed ym mhob proses lle y caiff penderfyniadau eu gwneud ac y gallent effeithio arny'n nhw:

“ 1.) Nodir y bydd Partïon yn cynnig sicrwydd i'r plentyn sy'n gallu ffurfio eu safbwyntiau eu hunain y byddant yn cael yr hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny mewn ffordd rydd ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, a rhoddir ystyriaeth briodol i safbwyntiau'r plentyn yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.”

Diben Is-grŵp yr Amgylchedd

Diben Is-grŵp yr Amgylchedd yw sicrhau platfform i bobl ifanc godi ymwybyddiaeth, addysgu, eirioli ac ymgyrchu ar ran pobl ifanc arall ynghylch dull gweithredu cynaliadwy tuag at wella eu hamgylchedd lleol a'r hinsawdd yng Ngheredigion (a thu hwnt o bryd i'w gilydd).

Blaenoriaethau'r Is-Grŵp ar gyfer 2022/23

Bydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn cefnogi Is-grŵp yr Amgylchedd a fydd yn:

- 1) Sefydlu Is-grŵp yr Amgylchedd newydd ar gyfer Cyngor Ieuenctid Ceredigion
- 2) Penderfynu ar enw ar gyfer is-grŵp yr Amgylchedd sy'n briodol i'w ddiben
- 3) Cytuno ar raglen flynyddol a fydd yn cynnwys cyfarfodydd rhith a chyfarfodydd wyneb yn wyneb
- 4) Rhoi blaenoriaeth i un maes gwaith a fydd yn amlygu effaith gadarnhaol er mwyn sicrhau newid i'r amgylchedd a'r hinsawdd yng Ngheredigion

Tudalen 218

- 5) Croesawu siaradwyr gwadd a mynychu lleoliad/digwyddiad/gweithgarwch a fydd yn gwella gwybodaeth am bwnc

Aelodaeth Is-grŵp yr Amgylchedd:

Bydd aelodaeth y fforwm yn agored i unrhyw aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion a pherson(au) ifanc sy'n cynrychioli gwasanaethau ieuenctid statudol neu sefydliadau ieuenctid o'r trydydd sector sy'n cynorthwyo cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Ngheredigion.

Neu

Bydd aelodaeth y fforwm ar agor i unrhyw aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion ac unrhyw berson(au) ifanc sy'n byw yng Ngheredigion yn gyffredinol. Ni fydd uchafswm o ran nifer yr aelodau a ganiateir.

Neu

Bydd aelodaeth y fforwm yn agored i unrhyw aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion ac aelodau blaenorol y Cyngor Ieuenctid

Cyfarfodydd a Rhaglen

Bydd Is-grŵp yr Amgylchedd Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn cyfarfod dan drefniant rhith a wyneb yn wyneb. Trefnir cyfarfodydd fel y cytunir yn y rhaglen gweithgareddau. Cynhelir cyfarfodydd rhith ar a chytunir ar weithgareddau wyneb yn wyneb wrth gyfarfod dan drefniant rhith.

**Rhaglen Ddrafft Is-Grŵp yr Amgylchedd Cyngor Ieuenctid Ceredigion
Cyngor Ieuenctid Ceredigion: Tymor 2022/23**

Gweithgaredd	Amserlen
Cyfarfod Cychwynnol rhith Is-grŵp yr Amgylchedd	Rhagfyr 2022 7/12/22 a 15/12/22
Paratoi Cylch Gorchwyl drafft gydag aelodau Is-grŵp yr Amgylchedd, a fydd yn cynnwys rhaglen arfaethedig a chyfeiriad at Flaenoriaeth 1	Ionawr 2023
Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion: Eitem ar yr Agenda	3 Chwefror 2023
Cyfarfod rhith Is-Grŵp yr Amgylchedd: Blaenoriaeth 1	Mawrth 2023
Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion: Eitem ar yr Agenda	17 Mawrth 2023
Cyfarfod rhith/wyneb yn wyneb Is-Grŵp yr Amgylchedd: Blaenoriaeth 1	Ebrill/Mai 2023
Arholiadau	Mai – Mehefin 2023
Digwyddiad Cyngor Ieuenctid: Pawb A'i Farn Ceredigion 2023	14 Gorffennaf 2023
Cyfarfod rhith/wyneb yn wyneb Is-Grŵp yr Amgylchedd: Blaenoriaeth 1	Gorffennaf 2023
Taith/Ymweliad Gwyliau Haf	Awst 2023
Cyfarfod rhith Is-Grŵp yr Amgylchedd: Adolygu Blaenoriaeth 1	Hydref 2023
Cyfarfod rhith Is-Grŵp yr Amgylchedd: Grŵp newydd	Rhagfyr 2023

YSGRIFENYDDIAETH

Cyflawnir swyddogaeth Ysgrifenyddiaeth y cyfarfod gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion, a fydd yn cynnig rhaglen flynyddol a fydd yn cynnwys trefnu'r lleoliad ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cynorthwyo gyda'r gwaith o lunio agenda ar gyfer y cyfarfodydd, gan gyhoeddi papurau a chymryd nodiadau yn ystod y cyfarfodydd.

Cadeirydd

Cadeirir cyfarfodydd yr is-grŵp gan aelod etholedig o'r grŵp, a bydd eu tymor yn para blwyddyn

Neu

Cadeirir cyfarfodydd yr is-grŵp dan drefniant cylchdro o aelodau'r cyngor ieuenctid sy'n bresennol yn y cyfarfodydd.

Adolygiad Blynyddol Cylch Gorchwyl Is-grŵp yr Amgylchedd

Bydd adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl yn galluogi is-grŵp yr amgylchedd i gynnig blaenoriaethau blynyddol newydd a rhaglen o ddigwyddiadau y bydd gofyn cytuno arnynt ar gyfer pob blwyddyn. Cynigir y dyddiad adolygu nesaf ar gyfer cyfarfod yr Is-grŵp a gynhelir ym mis Rhagfyr 2023.

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl gan Gyngor Ieuenctid Ceredigion ar

Llofnodwyd gan Gadeirydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion:


Dyddiad:

DRAFT

Canolfan Lles, Llambed Wellbeing Centre, Lampeter



Principle elevation



Ground Floor

First Floor

NOTES
The accuracy & the integrity of the information contained in this drawing shall be the responsibility of the client. It is not the responsibility of the architect to verify the accuracy of the information provided by the client.

REVISIONS
REV 001 2022-06-01 001 Initial design
REV 002 2022-06-01 002 Final design

www.quattrodesign.co.uk

PROJECTS
Lampeter Wellbeing Centre

SCALE NTS@A1

CLIENT
CeredigionACTIF

DATE

DRAWING TITLE
3D Images

CONSTRUCTION

Quattro
Design Architects

DRAWING NO. 6538-W-294
REV C01

Quattro Design Architects, 115/116 High Street, Gloucester, G1 3DF, T: 01452 41404



Tudalen 222



Tudalen 223

Canolfan Lles / Wellbeing Centre
Derbynfa / Reception



Mezzanine Canolfan Lles
Wellbeing Centre
Mezzanine

Canolfan Lles / Wellbeing Centre Ystafell Ieuenctid/Teulu – Youth/Family Room



Cegin yn Ystafell Sgiliau Ymarferol / Kitchen in Practical Skills Room





Tudalen 227

Gwella Hygyrch / Improving Accessibility

Ystafell Ffitrwydd / Fitness Suite





GWASANAETH
IEUENCTID CEREDIGION YOUTH
SERVICE



PLEIDLEISIAU
VOTES
2160

MAKE YOUR MARK

CANLYNIADAU / RESULTS 2022



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council





**CEREDIGION:
NIFER O
BLEIDLEISIAU
NUMBER OF VOTES
2160**

**Make
Your Mark**

**CANLYNIADAU GWNEUD EICH MARC CEREDIGION 2022 /
CEREDIGION MAKE YOUR MARK RESULTS 2022**

Pwnc Llosg / Hot Topic	Nifer
Iechyd a Lles / Health and Wellbeing	483
Swyddi, Arian, Cartrefi a Chyfleoedd / Jobs, Money, Homes and Opportunities	451
Amgylchedd / Environment	405
Addysg a Dysgu / Education and Learning	371
Tlodi / Poverty	183
Adfer wedi Covid-19 / Covid-19 Recovery	154
Ein Hawliau a Democratiaeth / Our Rights and Democracy	113
CYFANSWM / TOTAL	2,160

Tudalen 230



Amserlen
Ymgyrch
Lleol /
Local
Campaign
Timeline

Awgrymu Enw ymgyrch a phynciau llog Suggest campaign name and hot topics	3/2/23
Paratoi a dosbarthu papurau pleidleisio Prepare and distribute ballot papers	6/2/23 – 28/2/23
Ymgyrch leol yn ysgolion ar gymuned Local campaign in schools and the community	1/3/23 – 14/3/23
Cyflwyno canlyniadau Present results	17/3/23

Ymgyrch
Leol Cyngor
Ieuenctid Sir
Ceredigion /
Ceredigion
Youth
Council local
campaign

Pa enw sydd yn
addas ar gyfer yr
ymgyrch drwy gofio
mai 'Gwneud eich
Marc' yw'r enw
wreiddiol?

Which name is
suitable for the
campaign bearing
in mind that 'Make
your Mark' is the
original name?

Pa bynciau llosg
sydd angen i ni roi
ar y papur
bleidlais?

What hot topics do
we need to put on
the ballot paper?



DYFODOL NI OUR FUTURE

Dogfen sydd yn esbonio pwrpas y Partneriaeth Dyfodol Ni o fewn Rhaglen Meddwl Ymlaen Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.




CYNNWYS

BRIFF Y PROSIECT A DATGANIAD
CENHADAETH

POBL IFANC & DYFODOL NI

LLINELL AMSER Y PROSIECT

ADDEWID PARTNERIAETH



Y PROSIECT & EIN CENHADAETH



Mae Dyfodol Ni yn bartneriaeth a ariennir gan sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid a gweithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddyn nhw ar draws Sir Ceredigion. Ariennir gan Raglen Meddwl Ymlaen Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Dyfodol Ni sydd wedi dod at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig, wedi'u cydgynhyrchu, gan roi pobl ifanc ar y blaen er mwyn darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac ymyriadau i bobl ifanc yng Ngheredigion. Bydd y rhaglen yn rhedeg am chwe blynedd, gyda chyfnod datblygu am y deuddeg mis cyntaf i ddylunio a chreu cynllun darparu gwasanaeth ar gyfer y pum mlynedd sy'n weddill o'r rhaglen.

Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl ifanc yn ein hardal yn pryderu am y diffyg cymorth iechyd meddwl a llesiant, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, unigedd gwledig a thlodi. Nodwyd yn eang mai iechyd meddwl oedd yn cael yr effaith fwyaf ar feysydd eraill o'u bywydau.

Yr ethos sydd wrth galon Partneriaeth Ceredigion fydd gwranddo ar lais ein pobl ifanc, darparu cyfleoedd iddynt fynegi eu hunain, llywio cyfeiriad y prosiect a chyd-gynhyrchu gweithgareddau'r dyfodol er mwyn gwella gwydnwch ac iechyd meddwl bobl ifanc ar draws Ceredigion gyfan. Felly, drwy ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc, bydd partneriaeth Dyfodol Ni yn cydweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl ifanc Ceredigion yn eu hwynebu'n uniongyrchol er mwyn dod â'n gwasanaethau i'w llawn botensial.



2

POBL IFANC & DYFODOL NI

ARWEINIR GAN IEUENCTID

Rydym yn cael ein harwain gan ieuenctid. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd fel partneriaeth i ddiwallu anghenion, fel y'u diffinnir gan bobl ifanc, mewn dull sy'n addas iddyn nhw. Fel gweithwyr ieuenctid a darparwyr gwasanaethau, ein rôl ni yw ysbrydoli pobl ifanc i fod y gwneuthurwyr newid y maent yn eu haeddu a darparu manau diogel iddyn nhw godi eu lleisiau. Nhw yw penderfynwyr y rhaglen ac mae ganddyn nhw y grym i ddod â'u syniadau i'r bartneriaeth.

CYNULLEIDFA DARGED

Caiff y cyfnod datblygu ei gyflwyno dros flwyddyn, ac yn ystod y cyfnod hwn, bydd y bobl ifanc yn pennu'r ystod oedran y bydd y prosiect yn gweithio gyda nhw, o ran sut wedd fydd ar y prosiect ac at bwy y mae wedi'i anelu. Roedden nhw am fod yn hyblyg a pheidio ag atal unrhyw oedran ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r sefydliadau partner sy'n ffurfio'r bartneriaeth, rhyngddynt, yn estyn allan ac yn cefnogi ystod oedran eang o 4-25 mlwydd oed ac amryw o gefndiroedd.



3

LLINELL AMSER

Cynhelir rhaglen Meddwl Ymlaen rhwng Medi 2022 a Mawrth 2028.
Mae'r amserlen fel isod:




CYFNOD DATBLYGU
MEDI 2022 - AWST 2023



BLWYDDYN 1
MEDI 2023 - AWST 2024



BLWYDDYN 2
MEDI 2024 - AWST 2025



BLWYDDYN 3
MEDI 2025 - AWST 2026



BLWYDDYN 4
MEDI 2026 - AWST 2027



BLWYDDYN 5
MEDI 2027 - MAWRTH 2028



4 ADDEWID PARTNERIAETH

Cafodd addewid Partneriaeth Dyfodol Ni ei chreu gan bobl ifanc er mwyn gosod cytundeb y sefydliadau partner i gynnal ffocws gweithgareddau'r bartneriaeth dan arweiniad ieuenctid. Rhaid i bob sefydliad partner arfaethedig lofnodi'r addewid isod. Mae sefydliadau'n cytuno i sicrhau'r canlynol:

1 DAN ARWEINIAD IEUENCTID

Mae lleisiau pobl ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddyn nhw. Gallant ddefnyddio'r gwasanaeth a ffefrir ganddyn nhw i feithrin annibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a arweinir gan bobl ifanc, gan annog ymgysylltiad a brwdfrydedd yn yr hyn a wnawn.

Mae gwasanaethau'n ymateb i anghenion pobl ifanc leol, fel y'u diffinnir ganddyn nhw, gan gynnig cymorth hygyrch lle bynnag y mae'n bosibl, gyda chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n cael eu hystyried eu bod mewn mwy o berygl, dan anfantais neu ag anghenion uwch.



2 CYNWYSOLDEB, CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion, mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys yn eu hardal leol a gallant gael mynediad i'r cymorth y maen nhw'n penderfynu sydd ei angen arnyn nhw. Ni ddylent deimlo'n ynysig nac yn wahanol oherwydd dewis iaith, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, cenedligrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, anghenion addysgol arbennig, materion iechyd meddwl, crefydd neu unrhyw nodwedd arall.

Dylai'r gwasanaethau ieuenctid lleol helpu i wella amgylchiadau bywyd pobl ifanc o bob cefndir fesul cynnig cymorth i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydweithiau sydd eu hangen arnyn nhw i gael mynediad at gyfleoedd a manteisio arnyn nhw.

3 PARCH

Caiff anghenion a dymuniadau pobl ifanc lleol eu hystyried lawn cymaint ag unrhyw grŵp cymunedol arall. Dylent deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae ieuenctid lleol yn cael eu hannog i gymryd rhan yn eu cymunedau a mwynhau cyfleoedd yn eu hardal heb boeni am farn neu stereoteipio negyddol.



4 ANSAWDD, DIOGELWCH A LLESIANT

Darperir gwasanaethau mynediad agored o ansawdd da gan staff â hyfforddiant diogelu sydd â chysylltiadau â chymorth pellach os oes angen. Mae ein gwasanaethau yn helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel ac yn cefnogi eu hiechyd meddwl, emosiynol a chorfforol, yn gwella eu llesiant cymdeithasol ac economaidd. Mae'n sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, dysgu anffurfiol a gweithgareddau o'u dewis.

5 RHOI GRYM

Mae gwasanaethau'n rhoi grym i bobl ifanc i symud ymlaen ac ymgysylltu â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant, ac i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau lleol. Gwrandewir ar bobl ifanc a gallant wneud newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau, a deall sut i ymgysylltu â gwneud dewisiadau.

6 POSITIFRWYDD

Canolbwyntia gwasanaethau ar ddod â'r gorau allan o bob unigolyn, gan eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a'u priodoleddau, yn hytrach na cheisio 'trwsio problem'.



Rydym ni, fel pobl ifanc, yn ffocws y sefydliad, yn gwneud penderfyniadau, yn arwain prosiectau ac yn cael ein cymryd o ddifrif, ein gwerthfawrogi a'n parchu. Drwy dderbyn cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae ein nodau a'n syniadau'n fwy agos i gyrraedd ac rydym yn cael y cyfleoedd a'r gydnabyddiaeth yr ydym yn eu haeddu.


Team 43, Aberteifi, Ceredigion



YMUNWCH GYDA'R PARTNERIAETH

Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd, felly os ydych chi'n sefydliad sydd â diddordeb mewn ymuno â Phartneriaeth Dyfodol Ni, cysylltwch gyda Becca Head ar DyfodolNi@area43.co.uk

Byrddau Gwasanathau Cyhoeddus Public Service Boards



Yr Amcanion

- Byddwn yn mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw
- Byddwn ni'n helpu i roi ichi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch chi ar gyfer swyddi yn y dyfodol, gan gynnwys swyddi gwyrdd, a darparu mwy o brentisiaethau
- Byddwn yn gweithio gyda chi i wella eich amgylchedd lleol a'ch mannau cymunedol
- Byddwn ni'n lleihau llygredd i wella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd
- Byddwn yn dathlu'r Gymraeg ac amrywiaeth ddiwylliannol ein cymunedau

The Objectives

- We will tackle hardship and poverty in response to the cost-of-living crisis
- We will help give you the skills needed for future jobs, including green jobs, and provide more apprenticeships
- We will work with you to improve your local environment and community spaces
- We will reduce pollution to improve air, water and environmental quality
- We will celebrate the Welsh language and cultural diversity of our communities

TLODI- TRAWSTORRI / POVERTY- CROSS-CUTTING

Statement	Agreements
Increase council housing available	
Lessons in school about saving money	1
Life skills that help with finance	
New buildings, more efficient	
Better insulation	
Environmentally friendly heat / electricity	
Non School buses should be free for GCSE and 6th form	
School dinners	
-more available	
-more variety	1
Free school meals	
Clwb Brecwast	
available in morning	
Water available during the day	
Heat and electric	
More pay for teachers	
-less strikes	
Working conditions need improving	1
Petrol + diesel	
Schools being open for longer after hours	
Somewhere to go and stay warm	
Community Centres and charities	
Free period products	3
NHS	
Food banks and donations more accessible	1
Minimum wage to at least the living wage	
Nationalise energy companies	
Pay rises in general for needed jobs (30%)	
Cap on rent prices	
Student discount cards for GCSE + 6th form	
Services such as bus / school meals / gym leisure centre should be discounted or free for low income children	

AMCAN/ OBJECTIVE 1

Statement

More jobs in tech / computer / IT sector
Make sure students are aware of apprenticeships
Promote apprenticeships like universities are promoted
How to look good in an interview
-suff ymddwyn
-sefyll mas
Practical work + experience
-tactile learning
mwy o cymorth addysgiadol
cyflwyniadau ar gyfer wahanol swyddi
financial training for green jobs
more training for people who come from a farming background - help keep up with the change in economic structure
gwersi penodol am rhain fel pwnc yn yr ysgol
life skills - money, savings, lide, things we need to know about the future that we don't currently know
better pay for apprenticeships - attract more people to do an apprenticeship
More information about career paths
Workshops
Work experience
More life lessons (management)
Hefyd mwy o amentisiathau yn y diwydiant creadigol
Learn relevant legal information
Sgiliau a profiad yn cael eu darparu i swyddi mwy creadigol
Adnoddau cryfach ar gyfer pŵl sy'n delio â diffyg gwaith e.e job centres
learning more important things in school for self-employment
better transport to get to a job

Agreements

AMCAN/ OBJECTIVE 2

Statement

Agreements

More accesible grants and funding to improve youth support

Community spaces

- clubs
- activities
- electricity - charging spaces
- cymorth
- period products
- food donations
- parks and fitness areas
- communal open spaces
- environments

- public walks / dog walking paths
- bins - inconsistency with rubbish collecting
- safer outside e.g. glas on floors

Fund raising in communities for community spaces (sports, cake sales, tug of war etc)

Public water fountains to refill plastic bottles

Community gardens

- good for mental health
- any age

-locally grown food

-community involvement

make people more aware

More environmentally friendly community space

-more plantation

Community cafes

-with computer access

myw o pathiau cerdded (nature trails)

not pay for public toilets + more toilets

homeless shelters

bee sanctuary

4G (astroturff) around Ceredigion

Youth clubs (Aberystwyth and Aberaeron)

More funding for public gardens in small communiities

BMX / bike tracks

Cycle paths (more and better quality)

Safer Cycle paths

3

2

AMCAN/ OBJECTIVE 3

Statement

Agreements

Dog parks
 Increase pedestrianised areas
 -green spaces
 Increase knowledge on the environment (eg. Why it should be respected like not standing on dunes, sand - wildlife lived)
 Plannu mwy o blanhigion I hybu bywyd gwylt
 Green public transport
 Little swampy area (good for water life etc)
 Plant more trees
 Stop cutting down trees for building
 Plant more trees / plants / flowers
 Public allotment / gardens
 Community greenhouses
 Public packaging (non plastic)
 Meadow areas (better for biodiversity) (great for carbon)
 Better drainage systems
 More bins around schools / parks / public areas
 Save the bees (more planters in communal areas)
 Bins for period products
 Cyfyngu llygredd golau er mwyn coniatu bod anifeiliaid nosol yn gallu byw mewn heddwch ar bod ansawdd cwsg y bobl lleol yn gwella
 wind turbines
 public transport (buses)
 more water fountains around the place - promote reusable bottles rather than buying bottles everywhere
 Nets in seas
 Reduce one use plastic products
 car sharing programme
 more green spaces
 solar panels
 more local food production
 walking paths / nature trails
 -public bikes "city bikes"
 -more bins
 mwy o "allotments" er mwyn plannu llyisiau a thyfurn lleol
 Reduce air miles exoanding local food production by diversifying what is grown, and the kinds of local fuel available

AMCAN/ OBJECTIVE 4

Statement

Mwy o hymyddo iaith a nelepwydelior iaith ar blatsomiau cymraeg
 Dysgu orn diwylliannau arall er mwyn taclo a derbyn pobl sy'n mudo o gwledydd arall ac o hîl gwahanol

learn more about communities within the welsh language

gwersi trwy gyfrwng y cymraeg

(- baccloniaeth cymraeg

- maths

- gwyddoniaeth)

Mwy o sideau Cymreig ar gyfer plant bach fell gellir tyfu lan yn hyderus yn siarad yr iaith

Hybu siarad Cymreag mewn ysgolion dwy-ieithog

All teachers in Wales must be able to speak Welsh

Two way respect between languages

-respecting and learning other languages / cultures + vice versa

Sicrhau pwyllgorau cymreitol yn pos ysgol

Mwy o weithwyr digwyddiaddau ee pel-droed ayyb yn defnyddio

Cymraeg fel y iaith gyntaf.

More Welsh events

-music

-drama etc

Compulsory to learn Welsh in primary school over Wales

Mwy o llyfray Cymraeg mewn siopau a ysgolion

-diweddari llyfrau mwy modern

Celebrate Welsh schools

I think it is important to celebrate all cultures & diversity

How do we celebrate the Welsh language?

It should not be over - prioritising Welsh - speakers or idolising Welsh - speakers with bad opinions only because they speak Welsh

I think it's important to include all communities and help support diversity in Welsh speaking places, by using education to help join people together

Culture week - have a week in school to learn about different cultures in the school

Celebrate people of ethnic heritage in Wales

Celebrating cultural diversity: allwing and encouraging all identities and cultures (including Welsh) to celebrate and partake in their cultures and traditions

Making sure it does not impact or get prioritised over education, mental health, environment, world issues, public transport

Celebrate Welsh history, Welsh history month

We need to celebrate the Welsh language without alienating those who don't speak it. Inclusivity is key.

Pwysigrwydd Eisteddfod

More Welsh events - music

Availability of Welsh classes

- for older people

Dim on ysgolion Cymraeg neu ddwy weithog

Agreements

Tudalen 250

YSTYRIAETHAU/ THOUGHTS

Open question to gather young people's views about what they like about Ceredigion and what they would change about Ceredigion. Phrased 1 thing I like about Ceredigion is.... 1 thing I wish I could change about Ceredigion is.... And 1 thing I wonder about the future of Ceredigion is.....

I like

Ceredigion is slow paced and is somewhere where you can escape from busy lives

Byd natur

The natural beauty and the different opportunities there are to explore it

Busnesau lleol

Sports / opportunity

A lot of stuff available to do + spend time doing entertainment and leisure

The environment

Sports opportunity

Rugby

Mwy o drafnidiaeth

I wish

There was more transport and opportunities especially in rural areas away from towns

Better transport, to visit more places - stop at more rural stops on the way to the destination

We did not feel so disconnected from the rest of Wales
Improve public transport connections to other areas in Wales eg trains

Fwy o trafndiaeth I cefn gwlad
Trafndiaeth gwell, hybu Cymraeg yn fwy

More activities, more shops

More public transport in more rural areas.

More accessibility

Police had different priorities

More accessibility

I wish Ceredigion produced more green energy and had better transport

I wish Ceredigion had a different education system that taught different and more modern skills

Yr amrywiaeth o drwydiannau

Mwy o chwaraeon

I wonder

gwell tratndiaeth

Use more of the Welsh language

Improve public transport connections to other areas in Wales eg trains

Hybu'r iaith cymraeg

?

If there could be less crime / drugs

More opportunities outside of sports

Mwy o drefndiaeth I blant ysgol

Teimlad o cymuned di iaith

Gymraeg